Estyn

# Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

2017-2018

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **3** | **Cynnwys** |
| **4-11** | **Rhagair** |
| **12-131** | **Adroddiadau sector** |
| 12-21 | Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed |
| 22-35 | Ysgolion cynradd |
| 36-49 | Ysgolion uwchradd |
| 50-57 | Ysgolion pob oed a gynhelir |
| 58-65 | Ysgolion arbennig a gynhelir |
| 66-73 | Ysgolion arbennig annibynnol |
| 74-81 | Ysgolion prif ffrwd annibynnol |
| 82-87 | Colegau arbenigol annibynnol |
| 88-95 | Unedau cyfeirio disgyblion |
| 96-101 | Gwasanaethau addysg llywodraeth leol |
| 102-109 | Colegau addysg bellach |
| 110-117 | Dysgu yn y gwaith |
| 118-119 | Dysgu oedolion |
| 120-123 | Addysg gychwynnol athrawon |
| 124-127 | Cymraeg i Oedolion |
| 128-129 | Gyrfaoedd |
| 130-131 | Dysgu yn y sector cyfiawnder |
| 132-143 | **Atodiad 1: Trosolwg** |
| 144-147 | **Atodiad 2: Cyfeiriadau** |


## Canllaw i'r adroddiad

**Adroddiad eleni yw'r 26ain adroddiad blynyddol olynol i'w gyhoeddi yng Nghymru ers i Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1992 fynnu llunio adroddiad.**

**Mae'r adroddiad yn cynnwys:**

- **Rhagair y Prif Arolygydd**
- **Adroddiadau sector unigol am ganfyddiadau arolygu yn 2017-2018**

**Mae Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r fframwaith arolygu a nodiadau am y geiriau, ymadroddion a'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad.**

**Mae Atodiad 2 yn cynnwys dolenni i'r dogfennau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.**

# Rhagair

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

**Meilyr Rowlands**

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae addysg a hyfforddiant yn newid yn gyflym yng Nghymru, gyda diwygiadau eang yn mynd rhagddynt ar draws ysgolion a'r sectorau ôl-16. Hwn yw fy mhedwerydd adroddiad blynyddol a'r cyntaf yn seiliedig ar ein trefniadau arolygu newydd. Mae llawer o'r tueddiadau a nodwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol yn parhau. Mae'r newid mewn diwylliant tuag at system o fwy o gydweithio a hunanwella yn parhau i symud ymlaen yn gyflym. Mae llawer y dylem fod yn falch ohono ac mae addysg gyffredinol dda neu well yn cael ei darparu gan feithrinfeydd nas cynhelir, ysgolion arbennig a gynhelir a cholegau addysg bellach. Mae mynd i'r afael â thanberfformiad a lleihau amrywioldeb yn parhau'n heriau allweddol mewn sectorau addysg a hyfforddiant eraill, gydag arolygiadau eleni yn ddigon tebyg o ran deilliannau i arolygiadau blynyddoedd blaenorol. Mae gwelliannau o ran yr hanfodion fel presenoldeb a llythrennedd sylfaenol dros y blynyddoedd diwethaf wedi braenaru'r tir ar gyfer gwelliannau cyffredinol mewn ysgolion cynradd eleni. Bellach, mae safonau'n dda neu'n well mewn wyth o bob deg ysgol gynradd, i fyny o saith o bob deg y llynedd. Mae safonau'n parhau'n dda neu well mewn rhyw hanner o ysgolion uwchradd, sef yr un peth â'r llynedd.

Mae'r ysgolion gorau, ar ôl sicrhau hanfodion addysg dda, yn rhoi blaenoriaeth i wella profiad dysgu disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn dod yn fwy hyderus wrth roi cynnig ar ymagweddau newydd at y ffordd y maent yn addysgu, ac at y cwricwlwm a gynigiant. Maent yn darparu cyfleoedd cyffrous yn gynyddol i ddisgyblion ymgysylltu â dysgu sy'n ehangu'u gorwelion ac yn ysgogi'u diddordeb a'u brwdfrydedd. Gall y gweithgareddau dysgu mwy creadigol hyn olygu bod y rhaniad traddodiadol rhwng cwricwlwm ffurfiol a gweithgareddau allgyrsiol yn llai amlwg, ac fe'u cynlluniwyd i apelio at ddiddordebau a galluoedd pob disgybl. Caiff disgyblion fwy o gyfleoedd i ddewis beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu. Gall y gweithgareddau cyfoethog 'go iawn' hyn olygu bod ysgolion yn gweithio gydag arbenigwyr o fyd busnes, chwaraeon, neu'r celfyddydau, neu gyda rhieni ac aelodau'r gymuned leol.
Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n ofalus i wella ac adeiladu ar fedrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Er enghraifft, bu disgyblion iau mewn un ysgol gynradd yn gweithio gydag arlunydd proffesiynol i gynhyrchu llyfrau straeon â darluniau hyfryd. Mae mwy o ymgysylltiad gan ddisgyblion yn arwain at agweddau gwell at yr ysgol ac at ddysgu. Mae disgyblion yn ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb, yn dangos mwy o falchder ac yn awyddus i fireinio'u gwaith. Yn fwy na dim, daw'r disgyblion hyn yn feddylwyr hyderus, annibynnol sydd wedi'u paratoi'n dda ac yn awyddus i ddysgu yn y dyfodol.

Mae'r arweinwyr yn yr ysgolion hyn, mewn cydweithrediad â staff, rhieni a dysgwyr, yn pennu gweledigaeth rymus o'r hyn y maent am ei gyflawni fel cymuned. Maent yn canolbwyntio ar gael ethos a diwylliant yr ysgol yn iawn ac yn buddsoddi'n ddoeth mewn dysgu a datblygiad proffesiynol. Deallant fod gwella'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu disgyblion yn mynd law yn llaw â gwella ansawdd addysgu. Maent yn sicrhau bod eu holl staff yn gwybod sut i addysgu'r hanfodion a cheir strategaeth addysgu a dysgu gytûn y mae pawb yn glynu ati ac yn ei deall. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn cydweithio i annog ffyrdd newydd o weithio, ac o ganlyniad, mae dysgwyr a staff yn mwynhau'u gwaith ac yn cyflawni safonau uchel. Maent yn gwarchod staff rhag pethau diangen sy'n tynnu'u sylw, yn ymddiried ynddynt i fwrw ymlaen â hanfodion eu gwaith, ac yn cael gwared ar fiwrocratiaeth sy'n mynnu llawer o'u hamser. Mae'r safonau proffesiynol newydd, y 12 egwyddor addysgegol yn Dyfodol Llwyddiannus, a pharhau i ddatblygu'r cwricwlwm newydd, bob un ohonynt, wedi helpu i ddilysu'r ffocws cynyddol hwn ar wella addysgu a phrofiadau dysgu disgyblion.

Eleni, cyhoeddodd Estyn nifer o adroddiadau sy'n amlygu arfer ddiddorol ac yn sefydlu meincnod i ni allu arfarnu cynnydd yn ei erbyn pan fydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno. Cyhoeddom adroddiad **Gwella addysgu** a amlinellodd ddulliau strategol a ddefnyddir gan ysgolion i wella ansawdd addysgu ac i feithrin gallu addysgu ar gyfer y dyfodol. Mae **Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol** yn nodi pedwar cam ar gyfer ei weithredu'n llwyddiannus. Hefyd, cyhoeddom astudiaethau thematig ar feysydd dysgu penodol: **Gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, Arfer dda yn y dyniaethau, Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog**, ac **Addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3**. Un thema gyffredin yn yr adroddiadau hyn yw'r angen am ddysgu proffesiynol gwell ar gyfer athrawon arbenigol yn y meysydd dysgu hyn. Mae adroddiad ar **Arloesi'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd** yn egluro beth sy'n gweithio'n dda a'r rhwystrau rhag newid. Diben cwestiynau hunanwerthuso o'r adroddiad yw helpu ysgolion i fesur eu cynnydd o ran diwygio'r cwricwlwm, ac maent ar gael fel siart wal ar wahân o'n **gwefan** (gweler dros y ddalen). Mae'r cwestiynau hunanwerthuso hyn yn fan cychwyn da i ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd sy'n ansicr ynghylch ble i ddechrau o ran paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Mae adroddiadau blynyddol blaenorol wedi archwilio sut mae'r arweinwyr ysgolion uwchradd a cholegau gorau yn sylweddoli mai darparu gweithgareddau mwy heriol ac ysgogol i ddysgwyr yw'r ffordd orau i ddatblygu'u hannibyniaeth a'u medrau meddwl yn feirniadol. Y rhain yw'r medrau sydd eu hangen ar gyfer astudiaeth bellach a chyflogaeth, ac ar gyfer cyflawni canlyniadau da mewn arholiadau. Nid yw'r arweinwyr hyn yn caniatáu i orbwyslais ar dechneg arholiad ystumio ansawdd profiadau dysgu'u dysgwyr ar draws yr ysgol neu goleg. Eleni, cyhoeddom adroddiad **Cymwysterau newydd** sy'n ystyried ansawdd addysgu ac asesu, cynllunio, datblygiad staff ac arweinyddiaeth wrth gyflwyno'r manylebau TGAU newydd mewn Saesneg iaith, Cymraeg iaith, mathemateg, mathemateg-rhifedd a Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion a cholegau. Yn gyffredinol, canfuom fod ysgolion a cholegau wedi ymateb yn gadarnhaol i newidiadau i TGAU Saesneg, Cymraeg a mathemateg, ond mae'r ddarpariaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn fwy amrywiol.

Mae'r rhaglen uchelgeisiol genedlaethol bresennol ar gyfer diwygio addysg yn effeithio ar bob agwedd ar addysg ac ar bob sector. Rydym yng nghanol y newid hwn, gyda chwricwlwm newydd ar gyfer disgyblion 3 i 16 oed yn cael ei gyflwyno fesul cam o 2022 ymlaen. Fe gymer amser i effaith y diwygiadau hyn ddod i rym. Yn y cyfamser, mae angen uniongyrchol i wella darparwyr sy'n peri pryder. Er enghraifft, nodwyd bod angen gwelliant sylweddol neu angen gweithredu mesurau arbennig mewn 5% o ysgolion cynradd a 15% o ysgolion uwchradd eleni (6% ac 8% yn y drefn honno dros gylch arolygu 2010-2017). Er gwaethaf mentrau amrywiol, gan gynnwys bandio a chategoreiddio, erys y ffaith nad yw'r ysgolion hyn yn cael eu nodi'n ddigon cynnar ac nid oes digon yn cael ei wneud i'w cynorthwyo i ddatblygu strategaethau cynaliadwy ar gyfer gwella. Y llynedd, fe wnaeth Estyn dreialu 'cynadledd wella' ar gyfer ysgol sy'n peri pryder gyda'r bwriad o sicrhau bod yr holl randdeiliaid ddylai fod yn cynorthwyo'r ysgol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cytuno ar y ffordd orau i ddefnyddio a chydlynu eu cymorth. Da yw deall fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn.

Yn ystod y cyfnod hwn o newid systemig, mae'n hanfodol ein bod yn diogelu buddiannau'r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed, ac mae nifer o'n hadroddiadau eleni wedi arfarnu darpariaeth ar gyfer grwpiau difreintiedig. Cynhaliom arolwg o ddarparwyr i ganfod sut maen nhw'n paratoi ar gyfer newid o ganlyniad i'r bil diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chyhoeddir ein canfyddiadau yn **Parodrwydd ar gyfer diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol**. Yn ogystal, cyhoeddom adroddiadau ar **Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion, Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr sy'n agored i niwed, Ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â thimau troseddau ieuenctid** ac ar y **Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru**. Un thema gyffredin yw'r diffyg parhad o ran darpariaeth neu drosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol pan fydd dysgwyr yn symud rhwng sefydliadau ac asiantaethau. Thema arall yw bod yr ysgolion sy'n mynd i'r afael â thlodi yn fwyaf effeithiol yn gweithio'n galed i sefydlu perthnasoedd agosach gyda rhieni a'r gymuned leol, er bod cymorth systematig iddynt wneud hwn yn gyfyngedig.

I'r diwygiadau hyn gael effaith wirioneddol ar yr uchelgais a amlinellwyd yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru **Ffyniant i Bawb**, mae angen i'r cyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 adeiladu'n gynyddol ar y rheini yn yr ysgol a'u cysylltu ag anghenion cyflogaeth a medrau yn y dyfodol. Un thema gyffredin yn yr adroddiadau a gyhoeddom ar **Prentisiaethau Uwch** ac ar ansawdd **Cyrsiau safon uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach** oedd yr angen i wella cyngor ac arweiniad diduedd. Eleni hefyd, cyhoeddwyd safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr addysg bellach a dysgu yn y gwaith. Mae darparwyr yn dechrau defnyddio'r safonau hyn i gefnogi dysgu proffesiynol. Mae'r darparwyr gorau yn rhoi blaenoriaeth i wella addysgu a hyfforddi ac maent yn cydnabod y rôl allweddol sydd gan ddysgu proffesiynol i wella deilliannau a phrofiadau ar gyfer dysgwyr.

Cyhoeddom ein holl farnau arolygu ar gyfer blwyddyn academaidd 2017-2018 fel ystadegau swyddogol yn Hydref 2018. Mae'n ein gwefan ddata ryngweithiol, **data.estyn.llyw.cymru**, yn galluogi darllenwyr i archwilio pob un o'r barnau hyn. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi sylwebaeth lawn ar y data hwnnw ac yn adrodd yn fras ar bob sector a arolygwn. Yn unol â'r awgrym a wnaed yn **Arolygiaeth Dysgu**, mae'r adroddiad yn fyrrach na'r arfer, gyda'r bwriad i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol mwy manwl y flwyddyn nesaf. I gael mwy o wybodaeth am unrhyw agwedd ar waith Estyn, ewch i **estyn.llyw.cymru**.

# Y daith tuag at Gwricwlwm i Gymru

1

## Arfarnu eich cwricwlwm presennol

- I ba raddau ydych chi'n hyrwyddo'r pedwar diben yn eich trefniadau cwricwlwm presennol?
- Sut ydych chi'n darparu ystod eang o brofiadau cyfoethogi ar gyfer disgyblion ac yn cydnabod eu cyflawniadau?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent wedi'i ddysgu wrth iddynt fynd drwy'r ysgol neu rhwng ysgolion?
- A yw trefniadau asesu yn briodol a pha mor dda ydyn nhw'n helpu disgyblion i wella'u gwaith eu hunain?
- Pa mor dda ydych chi'n arfarnu effeithiolrwydd eich partneriaethau strategol ac ymglymiad y gymuned yn y cwricwlwm?
- I ba raddau ydych chi'n barod i goleddu newid ac ymgysylltu ag ysgolion a phartneriaid eraill i ddatblygu eich cwricwlwm?
- Pa mor dda ydych chi'n defnyddio gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth staff wrth gynllunio ar gyfer gwelliant?

## Cyflawni Newid


- Pa ddulliau neu newidiadau i'r cwricwlwm sydd wedi'u mabwysiadu a pha mor effeithiol fuon nhw hyd yma?
- Pa mor dda ydych chi'n cefnogi ac yn galluogi newidiadau i'r cwricwlwm?
- Pa mor dda ydych chi'n adnabod prif rwystrau rhag newid a sut ydych chi'n mynd i'r afael â nhw ac yn eu goresgyn?
- Pa mor dda y mae staff a phartneriaid (er enghraifft disgyblion, rhieni a llywodraethwyr) yn cefnogi cyflawni newid?

## Arfarnu newid

- Pa mor dda ydych chi'n arfarnu newid i ystyried beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim yn gweithio'n dda, a pham?
- Pa mor effeithiol ydych chi'n monitro, adolygu ac addasu newid yng Nghyfnod 3? A ydych chi'n cynnwys yr holl randdeiliaid?
- Pa mor dda ydych chi'n arfarnu effaith newid er mwyn nodi beth sydd angen iddo ddigwydd nesaf a chynllunio ar gyfer gwelliant pellach?
- Pa mor dda ydych chi'n gwybod pa agweddau y mae angen eu cryfhau neu y mae angen cynnal rhagor o beilotau ohonynt cyn eu gweithredu'n llawn?
- Pa mor effeithiol yw eich trefniadau ar gyfer adborth systematig, a pha mor dda ydych chi'n defnyddio'ch arfarniad o bob agwedd ar ddatblygu'r cwricwlwm o ystod o safbwyntiau, i gynllunio gweithgareddau a newid yn y dyfodol?
- Pa mor dda ydych chi'n ystyried effaith addysgeg wahanol i godi safonau addysgu?

# Cynllunio a pharatoi ar gyfer newid

- A oes gweledigaeth glir gan arweinwyr ar gyfer beth i'w newid a pham?
- A yw arweinwyr wedi sefydlu'r diwylliant a'r amodau iawn ar gyfer newid? Sut ydych chi'n gwybod?
- A yw arweinwyr wedi datblygu diwylliant cadarn o ddysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu addysgeg effeithiol?
- Pa mor dda y mae staff yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i lywio datblygu'r cwricwlwm?
- A ydych chi'n sicrhau amser digonol i gynyddu ymwybyddiaeth o newid i'r cwricwlwm?
- A ydych chi'n darparu digon o gyfleoedd i staff drafod canfyddiadau ymchwil i baratoi ar gyfer newid?
- Pa mor dda ydych chi'n sicrhau y bydd yr adnoddau gofynnol gennych ar waith i gefnogi unrhyw newid arfaethedig i'r cwricwlwm?
- Pa mor dda ydych chi'n defnyddio creadigrwydd ac arbenigedd presennol eich staff i alluogi pobl eraill i ddatblygu'u dychymyg mewn perthynas â'r cwricwlwm?
- I ba raddau y mae gennych ddiwylliant sy'n cefnogi gweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod staff a rhanddeiliaid eraill (er enghraifft, rhieni a llywodraethwyr) yn gwybod ble i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cwricwlwm fel eu bod i gyd yn cael eu cynnwys wrth baratoi ar gyfer newid?
- I ba raddau ydych chi wedi cael cymorth gan bartneriaid neu ysgolion arloesi i weithredu newid?
- I ba raddau y mae staff yn caffael medrau a dealltwriaeth i ddatblygu a gweithredu cwricwlwm newydd?
- Pa mor dda ydych chi'n blaenoriaethu dysgu proffesiynol ac yn diogelu amser i staff ymroi i weithgareddau priodol?
- Pa mor dda ydych chi'n defnyddio medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth pob un o'r staff i gynllunio ar gyfer gwelliant a newid?



# Adroddiadau thematig y cyfeirir atynt yn y rhagair a dolenni at yr adroddiadau llawn

## Adroddiadau thematig Estyn

**Gwella addysgu**

**Paratoi ar gyfer y fframwaith cymhwysedd digidol**

**Gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4**

**Arfer dda yn y dyniaethau**

**Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog**

**Addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3**

**Arloesi'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd**

**Cymwysterau newydd**

**Parodrwydd ar gyfer diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol**

**Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion**

**Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr sy'n agored i niwed**

**Ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â thimau troseddau ieuenctid**

**Gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru**

**Prentisiaethau uwch mewn dysgu yn y gwaith**

**Cyrsiau safon uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach**

**Arolygiaeth Dysgu: Adolygiad annibynnol o Estyn**, Graham Donaldson

**Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol**, Llywodraeth Cymru

Yn 2017-2018, fe wnaethom gydnabod rhagoriaeth y darparwyr hynny a gyflawnodd 'rhagorol' yn y mwyafrif o'u barnau arolygu, a'r gwasanaeth addysg llywodraeth leol a gafodd farn 'rhagorol' am ei arweinyddiaeth a rheolaeth.

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

| | |
|---|---|
| **Meithrinfeydd nas cynhelir** | Meithrinfa Seren Fach<br>Cylch Meithrin Eglwys Newydd<br>Cylch Meithrin Cefneithin, Gorslas<br>Meithrinfa Ddydd Belle Vue |
| **Ysgolion cynradd** | Ysgol Plascrug<br>Ysgol Gynradd Gymunedol Tregatwg<br>Ysgol-Y-Wern<br>Ysgol Gwenffrwd<br>Ysgol Gymraeg Brynsierfel<br>Ysgol Llanfairpwllgwyngyll<br>Ysgol Beca<br>Ysgol Cefn Coch<br>Ysgol Bro Gwydir<br>Ysgol Gymuned Rhosybol<br>Ysgol Gynradd Glan Usk<br>Ysgol Gynradd Craigfelen<br>Ysgol Gynradd Rhydypenau<br>Ysgol Heulfan<br>Ysgol Gynradd Penbre<br>Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw<br>Ysgol Yr Esgob<br>Ysgol Gynradd Gaer |
| **Ysgolion uwchradd** | Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt<br>Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf<br>Ysgol Olchfa |
| **Ysgolion annibynnol** | Coleg Sant Ioan<br>Coleg Crist<br>Ysgol Westbourne |
| **Ysgolion arbennig** | Ysgol Y Gogarth |
| **Gwasanaethau addysg llywodraeth leol** | Cyngor Sir Ddinbych |

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Mae bron pob awdurdod lleol yn ariannu addysg ran-amser ar gyfer plant tair oed, a phlant pedair oed weithiau, mewn lleoliadau yn ogystal ag mewn ysgolion. Er nad yw awdurdodau lleol yn cynnal y lleoliadau hyn, maent yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn darparu addysg y cyfnod sylfaen o ansawdd da. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor a chymorth i arweinwyr ac ymarferwyr. Mae lleoliadau sy'n darparu addysg gynnar yn cynnwys darparwyr gofal dydd a chylchoedd chwarae. Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n arolygu ansawdd gofal yn y lleoliadau hyn ac Estyn sy'n arolygu'r addysg. Bydd Estyn ac AGC yn mynd ati ar y cyd i arolygu lleoliadau nad ydynt yn ysgolion o Ionawr 2019 ymlaen.

Mae nifer y lleoliadau sy'n cynnig addysg ran-amser yn parhau i ostwng. Eleni, roedd 593 o ddarparwyr addysg ran-amser ar gyfer plant tair neu bedair oed, sef gostyngiad o 613 y llynedd ac o 737 yn 2010. Eleni, fe wnaethom arolygu 90 o leoliadau. Mae rhyw draean ohonynt yn lleoliadau bach, lle ceir llai na chwech o blant tair oed. Yn y lleoliadau bach hyn, mae arolygwyr yn adrodd ar y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn unig, er mwyn osgoi adnabod plant unigol. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Deilliannau

## Safonau

Mae safonau'n dda neu'n well mewn naw o bob deg lleoliad. Mae hyn fymryn yn uwch na'r ganran a nodwyd y llynedd.


Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle ceir safonau rhagorol, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd rhagorol. Maent yn datblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd, medrau corfforol a medrau meddwl cynnar yn eithriadol o dda, ac yn defnyddio'r rhain yn ystyrlon mewn amryw o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn gweithio allan sut i drosglwyddo dŵr o un cafn i gafn arall, yn ystyried ffyrdd gwahanol o bentyrru blociau ar ben ei gilydd i wneud 'coed ffa' uchel, ac yn gweithio allan pwy fydd yn cael ei ddewis yn 'helpwr y dydd' o'r cliwiau a ddarparwyd. Yn y lleoliadau hyn, mae plant yn datblygu'u medrau siarad i safon eithriadol o uchel, o fan cychwyn isel yn aml, ac yn defnyddio ystod gynhwysfawr o ansoddeiriau yn ddeallus, er enghraifft i drafod maint a siâp hoff anifeiliaid fferm.

Mewn lleoliadau lle ceir safonau da, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn amrywiol. Yn benodol, maent yn datblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd, eu medrau corfforol a medrau personol a chymdeithasol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd a gydag oedolion, yn ehangu'u geirfa, ac yn siarad yn hyderus am eu profiadau. Er enghraifft, maent yn disgrifio'r bywyd gwyllt a welant wrth gerdded yn y gymuned, ac yn esbonio i bobl eraill sut i gymryd gofal gerllaw'r ffordd. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn fedrus, fel pan fyddant yn golchi cwpanau ar ôl amser byrbryd. Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg lle mae'r rhan fwyaf o blant yn dysgu Cymraeg fel iaith ychwanegol, mae llawer yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau siarad Cymraeg o'u mannau cychwyn amrywiol, ac mae ychydig yn gwneud cynnydd cryf iawn. Defnyddiant batrymau, ymadroddion a geirfa syml yn effeithiol a gyda mwy a mwy o hyder. Mae'r rhan fwyaf o blant mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn datblygu'u medrau darllen cynnar yn dda. Maent yn mwynhau clywed storïau ac edrych ar lyfrau, ac mae llawer yn adnabod llythrennau cyntaf eu henwau ar eu pegiau a matiau byrbryd, o leiaf. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio ystod o offer i wneud marciau yn hyderus. Mae llawer yn gwybod bod diben i ysgrifennu, ac mae ychydig o blant yn dechrau ffurfio llythrennau y gellir eu hadnabod, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu rhestrau siopa yn y cornel cartref.

Mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, mae plant yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml yn rheolaidd i gyfrif faint o blant sy'n bresennol, i enwi lliwiau, disgrifio'r tywydd a gofyn am 'ddŵr' neu 'llaeth' adeg byrbryd. Mewn ychydig o leoliadau, maent yn dechrau defnyddio Cymraeg yn naturiol yn ystod y sesiynau. Er enghraifft, maent yn cyfrif y canhwyllau ar gacen pen-blwydd yn Gymraeg, neu'n gofyn am 'dost' yn yr ardal chwarae rôl. Mewn tri o bob deg o'r lleoliadau hyn, fodd bynnag, mae defnydd plant o'r Gymraeg y tu allan i amser grŵp ffurfiol yn gyfyngedig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfrif yn gywir i bump o leiaf mewn cyd-destunau perthnasol, ac mae plant mwy abl yn cyfrif i ddeg o leiaf yn Gymraeg a Saesneg. Mae llawer o blant yn dechrau adnabod rhifau yn briodol, er enghraifft pan fyddant yn gwneud 'galwadau ffôn' yn y cornel cartref gan ddefnyddio cyfeiriadur syml. Maent yn archwilio siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn syml yn eu chwarae, ac yn didoli a chydweddu gwrthrychau yn fwyfwy medrus, er enghraifft i wahanu dail yr hydref yn ôl maint a lliw.

**Ffigur 1:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer safonau, 2017-2018



Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau ystyried pwysau a mesurau a chymharu siapiau a meintiau yn effeithiol, gan gynnwys pan fyddant yn siarad am b'un a yw maint eu traed yn 'fwy' neu'n 'llai' nag ôl-troed. Maent yn dechrau deall capasiti yn llwyddiannus trwy weithgareddau fel llenwi a gwagio cynwysyddion o feintiau gwahanol yn yr hambyrddau tywod a dŵr.

Cafwyd gwelliant mewn defnydd plant o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) syml. Er enghraifft, mae bron pob plentyn yn deall diben dyfeisiau TGCh fel ffonau symudol ac yn defnyddio'r rhain yn briodol yn eu chwarae rôl. Mewn llawer o leoliadau, mae plant yn defnyddio dyfeisiau fel camerâu digidol a chwaraewyr CD yn rheolaidd. Fodd bynnag, mewn dau o bob deg lleoliad, mae eu gallu i ddefnyddio adnoddau TGCh yn annibynnol yn wan.

Mae safonau'n ddigonol mewn bron i un o bob deg lleoliad. Yn y lleoliadau hyn, mae cynnydd plant yn arafach. Yn benodol, nid ydynt yn datblygu'u medrau rhifedd a datrys problemau yn ddigon da, nac yn dysgu gweithio'n annibynnol a dyfalbarhau fel eu bod yn gorffen tasgau. Mae disgyblion mwy abl yn cwblhau tasgau yn gyflym ac nid ydynt yn datblygu'u medrau i lefel ddigon uchel. Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lle ceir safonau digonol, nid yw ychydig o blant yn datblygu'u medrau gwrando a siarad yn ddigon da.

## Lles

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae safon lles yn dda neu'n well mewn dros naw o bob deg lleoliad. Eleni, nododd arolygwyr safonau lles rhagorol mewn ychydig iawn o leoliadau. Mae hyn yn welliant ar y llynedd pan na ddyfarnwyd unrhyw farnau rhagorol. Yn y lleoliadau hyn, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'u rhyngweithiadau cymdeithasol yn arbennig o dda, yn gwneud dewisiadau hyderus ac yn dangos lefelau uchel eithriadol o annibyniaeth, gwydnwch ac ymgysylltiad â thasgau. Lle mae safonau yn dda o leiaf, mae bron yr holl blant yn ymdawelu'n gyflym. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau ac yn awyddus i ganfod pethau newydd. Er enghraifft, maent yn chwilfrydig ynghylch pam mae cragen malwoden yn wag, ac maent wrth eu boddau yn rhedeg i ffwrdd oddi wrth yr 'arth' yn yr ardal awyr agored. Mae plant yn gwneud dewisiadau hyderus, yn dilyn rheolau'r lleoliad yn dda, ac yn dangos gofal a charedigrwydd tuag at ei gilydd ac ymwelwyr â'r lleoliad.


Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle mae safonau lles yn ddigonol, nid yw plant yn ymgysylltu'n llawn wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu. Maent yn tueddu colli diddordeb mewn gweithgareddau yn gyflym ac yn dibynnu gormod ar oedolion i gwblhau tasgau.

### Meithrinfa Ddydd Banana Moon

Mae plant ym Meithrinfa Ddydd Banana Moon yn ymweld â chartref gofal preswyl lleol yn rheolaidd. Mae hyn o fudd i'r plant a'r oedolion. Gall y plant ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol ac mae preswylwyr yn awyddus i ryngweithio â nhw.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

**Ffigur 2:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer lles, 2017-2018



# Darpariaeth

Mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn ychydig dros wyth o bob deg lleoliad. Mae hyn yn debyg i'r llynedd, gyda chynnydd bach yn nifer y lleoliadau lle ceir darpariaeth ragorol. Yn y lleoliadau hyn, mae disgwyliadau uchel iawn gan ymarferwyr o'r hyn y gall plant ei gyflawni. Maent yn darparu profiadau dysgu dychmygus sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn arbennig o dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd chwarae ac maent yn darparu profiadau ymarferol difyr. Mae'r rhain yn cipio diddordeb y plant, yn tanio'u chwilfrydedd ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu'u medrau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i blant ymarfer eu medrau gwneud marciau wrth lunio map o daith Barti Ddu ar draws ynys drysor, ac i ddatblygu'u dealltwriaeth o nodweddion siapiau wrth greu cist drysor yn llawn o emau o wahanol siapiau.


Mewn lleoliadau lle ceir darpariaeth dda, mae ymarferwyr yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn dda ac yn cynllunio gweithgareddau i hyrwyddo'r medrau hyn ym mhob maes dysgu. Fodd bynnag, yn unol â blynyddoedd blaenorol, hyd yn oed lle mae darpariaeth yn gyffredinol dda, nid yw ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau sy'n helpu plant i symud ymlaen yn systematig neu sy'n herio plant mwy abl yn ddigon da. Mewn llawer o leoliadau cyfrwng Saesneg, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddatblygu'u medrau siarad Cymraeg. Defnyddiant yr iaith yn hyderus gyda phlant, ac maent yn eu hannog i ganu caneuon a rhigymau traddodiadol Cymraeg. Fodd bynnag, mewn un o bob deg lleoliad, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon da i sicrhau bod plant yn clywed Cymraeg mewn cyd-destunau gwahanol ac yn datblygu'u medrau iaith yn gynyddol. Eleni, rydym wedi gweld fod ymarferwyr yn y rhan fwyaf o leoliadau cyfrwng Cymraeg yn cynorthwyo plant sy'n newydd i'r iaith yn arbennig o dda, fel trwy gyflwyno geirfa newydd yn rheolaidd a modelu patrymau iaith penodol yn ofalus. Mae darparu cyfleoedd i blant ddatblygu'u medrau TGCh yn systematig yn parhau'n faes i'w ddatblygu yn y sector.

### Martine's Childcare

Mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau dan do ac awyr agored, wedi'u cynllunio'n dda, i wella medrau disgyblion ym meithrinfa Martine's Childcare. Maent yn cofnodi dilyniant disgyblion ar ddyfeisiau llaw i nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau plant. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant trwy weithgareddau datrys problemau diddorol a thasgau difyr ar sail themâu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

**Ffigur 3:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer darpariaeth, 2017-2018



Mae'r addysgu'n dda neu'n well mewn dros wyth o bob deg lleoliad, sef yr un peth â'r llynedd. Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle ceir addysgu rhagorol, mae disgwyliadau arbennig o uchel gan ymarferwyr o'r hyn y gall plant ei gyflawni ac maent yn ymyrryd mewn modd hynod sensitif i gynorthwyo'u dysgu. Mewn lleoliadau lle mae'r addysgu'n dda, mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol dan do ac yn yr awyr agored, ac yn ymateb yn dda i ddiddordebau plant. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, fodd bynnag, mewn dau o bob deg lleoliad, nid yw ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i blant ddatblygu'u medrau datrys problemau a'u medrau meddwl.

Ceir gwendidau o hyd o ran datblygu systemau hydrin ar gyfer asesu cynnydd plant a defnyddio'r wybodaeth i gynllunio camau nesaf plant mewn dysgu. Mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf o ymarferwyr o'r hyn y gall plant ei wneud eisoes. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon da o sut i symud dysgu yn ei flaen. Eleni, mewn ychydig o leoliadau lle mae'r addysgu yn ddigonol, nid yw ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn ddigon da.

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn parhau i fod yn gryfder yn y sector, gyda safonau da neu well mewn dros naw o bob deg lleoliad. Yn y lleoliadau hyn, mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant yn gyson dda i ddatblygu'u medrau hunangymorth ac i ddysgu rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd. Maent yn darparu cyfleoedd mwyfwy perthnasol i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o'u bywydau a'u credoau eu hunain a phobl eraill, fel trwy ddysgu am draddodiadau Nadolig yng Ngwlad Pwyl gan deulu sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn deall gwerth dysgu yn yr awyr agored ac yn sicrhau ei fod yn rhan annatod o'r ddarpariaeth. Maent yn datblygu amgylcheddau dysgu ysgogol ac yn dilyn diddordebau plant er mwyn tanio'u chwilfrydedd naturiol. Mae ystod y cyfleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda i ddatblygu medrau plant yn yr awyr agored yn parhau'n faes pwysig i'w ddatblygu yn y sector.

Eleni eto, mae arolygwyr wedi nodi pryderon difrifol yn ymwneud â diogelu mewn ychydig iawn o leoliadau. Yn y lleoliadau hyn, nid yw ymarferwyr yn cynnal asesiadau risg yn ddigon trylwyr, ac nid yw arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cyfredol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

## Cylch Meithrin Cefneithin, Gorslas

Mae ymarferwyr yng Nghylch Meithrin Cefneithin, Gorslas wedi creu amgylchedd dysgu difyr ar gyfer datblygiad mathemategol trwy ddarparu gweithgareddau sy'n seiliedig ar gelf a thechnoleg o amgylch diddordebau plant.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Meithrinfa Belle Vue

Mae staff ym Meithrinfa Belle Vue wedi gwella amser cinio o fod "yn llanastr i fod yn llwyddiannus"! Mae plant yn dysgu sut i ddefnyddio llestri a chyllyll a ffyrc, a thrin adnoddau fel ffiolau o flodau yn ofalus. Maent yn ymgymryd â chyfrifoldebau amser cinio ac yn dysgu parchu eraill. Mae annog plant i ddatblygu eu medrau sgwrsio a'u medrau cymdeithasol wedi arwain at blant mwy hapus, hyderus ac annibynnol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well ym mron i naw o bob deg lleoliad, ac fe wnaethom nodi ychydig iawn o leoliadau lle ceir rhagolygon gwella rhagorol eleni. Gwelsom gynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau â phrosesau da neu ragorol ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Lle ceir prosesau eithriadol o dda, mae arweinwyr yn edrych yn gyson am ffyrdd i wella'r lleoliad, ac yn mesur llwyddiant yn ôl ei effaith ar y plant. Maent yn monitro effeithiolrwydd eu gweithredoedd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth ddigon cadarn o ddiben a gwerth hunanwerthuso gan ddigon o leoliadau. Maent yn dibynnu gormod ar weithdrefnau cymhleth sy'n cymryd gormod o amser nad ydynt yn helpu i nodi'u cryfderau neu feysydd i'w gwella yn ddigon da. Yn y lleoliadau hyn, mae arweinwyr yn gweld hunanwerthuso fel proses y maent yn ei chynnal ar gyfer pobl eraill ac nid fel rhywbeth i sicrhau gwelliant ar gyfer plant.

Lle ceir arweinyddiaeth dda, mae gweledigaeth glir gan arweinwyr. Maent yn rhoi ffocws cryf ar ddatblygu diwylliant o wella. Mae arweinwyr yn pennu disgwyliadau uchel, yn cyfathrebu'n dda gydag ymarferwyr, ac yn adeiladu tîm cryf. Defnyddiant gyngor a chymorth allanol yn effeithiol i wella arfer. Lle ceir arweinyddiaeth ragorol, mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i wella safonau a lles plant. Eleni, nodom arfer ragorol mewn ychydig iawn o leoliadau. Mae gweithdrefnau rhagorol gan arweinwyr yn y lleoliadau hyn ar gyfer gwella safonau a darpariaeth, ac ar gyfer cefnogi lles a datblygiad proffesiynol staff. Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu rhagorol, cymorth ar gyfer lles plant, a darpariaeth i ddatblygu medrau.

Mae arweinwyr yn y lleoliadau hyn yn mentora a hyfforddi staff yn dda, ac yn defnyddio prosesau rheoli perfformiad yn effeithiol i wella ansawdd addysgu. Lle mae arweinyddiaeth yn llai llwyddiannus, nid yw rheoli perfformiad yn ddigon trylwyr i gynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu'u medrau. Nid yw arweinwyr yn diffinio rolau a chyfrifoldebau yn glir nac yn arfarnu ansawdd addysgu yn ddigon da. Er enghraifft, mae arweinwyr yn pwysleisio datblygu'r maes mathemateg yn hytrach na chynorthwyo ymarferwyr i wella medrau rhifedd plant ar draws y cwricwlwm.


## Meithrinfa Seren Fach

Mae gan arweinwyr ym Meithrinfa Seren Fach ffocws cadarn ar welliant parhaus. Maent yn arfarnu ac yn gwella ansawdd trwy staffio strwythuredig ac amcanion clir. Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn datblygu'u medrau a'u gwybodaeth yn dda. Mae staff y feithrinfa yn gwerthfawrogi cyfraniadau eu rhanddeiliaid i'w helpu i wella.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 4:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, 2017-2018



Mewn ychydig iawn o leoliadau, ceir gweithio rhagorol mewn partneriaeth. Mae'r lleoliadau hyn yn gweithio'n arbennig o lwyddiannus gyda rhieni i ddarparu cymorth gwerthfawr i deuluoedd a phlant mwy agored i niwed sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae arweinwyr yn ymateb yn eithriadol o dda i amgylchiadau unigol plant a'u teuluoedd. Maent yn teilwra cymorth yn hyblyg i ddiwallu'u hanghenion penodol. Er enghraifft, maent yn darparu geiriau ac ymadroddion y gall rhieni eu defnyddio i helpu'u plant. Mae ymarferwyr yn gweithio ar agweddau penodol ar ddatblygiad plant gyda rhieni ar sail un i un, er enghraifft rhannu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Mae gweithio mewn partneriaeth â rhieni yn nodwedd gref ym mhob lleoliad bron, ac mae lleoliadau da yn defnyddio'r gymuned leol yn dda i gefnogi dysgu'r plant. Eleni, rydym wedi gweld mwy o enghreifftiau o gysylltiadau cryf rhwng lleoliadau ac ysgolion lleol sy'n meithrin hyder plant wrth iddynt symud i'r cyfnod nesaf o'u haddysg. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau rheolaidd gan athrawon meithrin neu dderbyn ysgolion er mwyn dod i adnabod plant, a chyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol fel helfeydd wyau Pasg a diwrnod chwaraeon.

Mae ymarferwyr mewn naw o bob deg lleoliad yn cymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi gwerthfawr, a gaiff eu darparu gan awdurdodau lleol a chonsortia yn aml. Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant wedi'i ariannu gan y grant datblygu disgyblion y blynyddoedd cynnar sy'n canolbwyntio ar feysydd fel datblygu medrau cyfathrebu plant a gwella safonau a darpariaeth TGCh. Rydym yn dechrau gweld effaith y cyfleoedd hyfforddi hyn, gan gynnwys ffocws cryfach ar ddatblygu geirfa plant a gwelliannau mewn safonau a darpariaeth TGCh. Lle ceir arfer arbennig o gryf, mae arweinwyr yn arfarnu effaith hyfforddiant ac adnoddau newydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gwelliannau mewn safonau a darpariaeth.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

[redacted]

# Gweithgarwch dilynol: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump

Mae angen ymweliad dilynol gan yr awdurdod lleol neu eu monitro gan Estyn ar ryw bedwar o bob deg lleoliad a arolygwyd eleni. Mae hyn yn debyg i'r llynedd. Mae angen gwelliant â ffocws (y lefel gweithgarwch dilynol fwyaf difrifol) mewn llai o leoliadau na'r llynedd.

Ym mron hanner y lleoliadau y mae angen eu monitro gan yr awdurdod lleol, nid yw arweinyddiaeth a phrosesau ar gyfer gwella yn ddigon cadarn, ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar ddatblygu medrau plant yn systematig.

Mewn wyth o bob deg lleoliad yr oedd angen eu monitro gan Estyn lle rhoddwyd barn ar safonau, nid yw plant yn gwneud cynnydd digon da wrth ddatblygu'u medrau. Mae hyn yn aml oherwydd nad yw ymarferwyr yn defnyddio asesiadau yn dda i nodi a chynllunio ar gyfer camau nesaf plant mewn dysgu. Yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau hyn, nid yw gweithdrefnau rheoli perfformiad yn cynorthwyo ymarferwyr yn ddigon da i wella'u harfer a'r ddarpariaeth. Mewn llawer o leoliadau y mae angen eu monitro gan Estyn, mae arweinwyr yn newydd ac nid ydynt wedi datblygu prosesau rheoli yn ddigon da. Yn y lleoliad y nodwyd bod angen gwelliant â ffocws arno eleni, nid yw arweinwyr yn gweithredu'n ddigon da ar eu polisïau. Mae eu hanes blaenorol o wella safonau a darpariaeth, gan gynnwys ansawdd rhyngweithiadau gyda phlant, yn anghyson.

Eleni, fe wnaeth yr holl leoliadau yr oedd angen eu monitro gan yr awdurdod lleol gynnydd da, ac nid oes angen gweithgarwch dilynol arnynt mwyach. Mae bron pob un o'r lleoliadau hyn yn gweithredu'n bwrpasol ar gyngor a chymorth gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol i fodloni'u hargymhellion. Ni wnaeth tri lleoliad ddigon o gynnydd tra'u bod yn cael eu monitro gan Estyn. Mae angen cyfnod pellach o fonitro ar ddau leoliad, ac mae un wedi symud i'r categori gwelliant â ffocws. Mae'r cynnydd araf hwn yn aml yn ganlyniad newidiadau sylweddol mewn staff neu'r safle yn ystod y cyfnod monitro.

O'r saith lleoliad yr oedd angen gwelliant â ffocws arnynt ar ddechrau eleni, nid yw dau ohonynt yn darparu addysg wedi'i hariannu mwyach. Cafodd digon o gynnydd ei wneud gan bedwar lleoliad a thynnom y rhain o'r categori gweithgarwch dilynol. Mae un lleoliad yn dal yn y categori angen gwelliant â ffocws.

**Ffigur 5:**
Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2017-2018




PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Ysgolion cynradd

Yn Ionawr 2018, roedd 1,272 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae hyn 26 yn llai nag yn Ionawr 2017, pan oedd 1,298. Mae nifer yr ysgolion sy'n gweithio fel ffederasiynau yn cynyddu, gyda rhyw 65 o ysgolion cynradd bellach yn gweithio mewn tua 30 o ffederasiynau. Mae nifer y disgyblion ysgolion cynradd wedi cynyddu ychydig ers y llynedd ac mae bron i 278,000 yn Ionawr 2018. (Llywodraeth Cymru, 2018a.)

Rhwng Medi 2017 a Gorffennaf 2018, fe wnaethom arolygu 200 o ysgolion. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Safonau

Mae safonau'n dda neu'n well mewn ychydig dros wyth o bob deg ysgol gynradd. Mae cyfran yr ysgolion y barnwyd eu bod yn rhagorol wedi dyblu ers y llynedd, o 4% i 8%.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle ceir safonau rhagorol, mae bron yr holl ddisgyblion yn cyflawni cyfraddau cynaledig o gynnydd da iawn ac yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn eithriadol o dda ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mewn ysgolion lle mae safonau'n dda, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf o'u mannau cychwyn. Maent yn adeiladu'n dda ar eu dysgu wrth iddynt symud o ddosbarth i ddosbarth. Mewn ysgolion gwannach, mae cyfradd cynnydd disgyblion yn tueddu amrywio gormod. Efallai eu bod yn gwneud cynnydd addas am eu hoedran a'u gallu mewn un flwyddyn, ond yna cynnydd cyfyngedig maent yn ei wneud mewn blwyddyn arall. Mae hyn yn golygu nad yw eu cynnydd gystal ag y dylai fod dros gyfnod, ac nid ydynt yn cyflawni safonau uchel o gymharu â'u mannau cychwyn.


Mae llawer o ddisgyblion mewn grwpiau penodol, fel y rheini ag anghenion addysgol arbennig neu'r rheini sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o'u mannau cychwyn o leiaf. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni'n ddigon da nac yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mewn ychydig o dan naw o bob deg o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau siarad a gwrando. Mewn llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae disgyblion yn datblygu'u medrau cyfathrebu lawn gystal yn Gymraeg a Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Ym Mai 2018, cyhoeddom arolwg thematig am y Gymraeg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (Estyn, 2018a). Darllenwch yr **adroddiad**.

Mae llawer o ddisgyblion yn nosbarthiadau'r cyfnod sylfaen yn deall ac yn defnyddio nodweddion fel odli ac ailadrodd wrth iddynt ailadrodd cerddi a storïau cyfarwydd. Maent yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd ac ar oedolion, ac yn defnyddio geirfa gyffrous i fynegi'u syniadau, er enghraifft wrth ddisgrifio nodweddion ffyrnig a blin y blaidd wrth ailadrodd stori'r Hugan Fach Goch. Mewn llawer o ysgolion â disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd, mae disgyblion yn elwa ar raglenni lleferydd ac iaith sy'n eu helpu i wella'u dealltwriaeth o iaith a chaffael iaith.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu'u defnydd o iaith lafar. Maent yn aml yn dewis eu geiriau'n ofalus i gyflwyno dadl neu safbwynt, er enghraifft wrth ymchwilio i beryglon stereoteipio'r rhywiau. Mae

**Ffigur 6:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer safonau, 2017-2018



mwyafrif o ddisgyblion yn darparu esboniadau clir ynglŷn â'r modd y defnyddiant eu medrau rhesymu i weithio allan pa ddull i'w ddefnyddio i ddatrys problem, er enghraifft wrth weithio allan problemau mathemategol sy'n cynnwys dwy neu fwy o brosesau neu weithrediadau, fel wrth gyfrifo'r llwybr mwyaf cost-effeithiol ac effeithlon ar gyfer taith. Mae hyn yn eu helpu i ddechrau deall eu prosesau meddwl eu hunain yn well.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau darllen yn effeithiol. Mewn dosbarthiadau derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn adnabod y seiniau y mae llythrennau'n eu gwneud ac maent yn defnyddio'r rhain yn llwyddiannus i'w helpu i ddarllen geiriau syml ac ymadroddion byr. Wrth iddynt symud drwy'r cyfnod sylfaen, maent yn cynyddu'u hystod o strategaethau darllen. Er enghraifft, maent yn adnabod ystod addas o eiriau cyfarwydd ac yn defnyddio cliwiau yn y lluniau i'w helpu i weithio allan ystyr y testun. Mewn ysgolion da, erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae disgyblion yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn gywir a gyda dealltwriaeth dda. Defnyddiant eu medrau darllen yn bwrpasol i'w helpu i ymchwilio i wybodaeth yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio llyfrau ffeithiol i ganfod sut mae'r system dreulio yn gweithio, a pheiriannau chwilio'r rhyngrwyd i ymchwilio i dduwiau Groegaidd. Mae llawer o ddarllenwyr hŷn a mwy abl yn frwdfrydig ynghylch llyfrau ac awduron. Darllenant yn eang er pleser ac maent yn mwynhau trafod themâu a materion o storïau, er enghraifft wrth siarad am y berthynas rhwng cymeriadau gwahanol yn y stori The Boy in the Striped Pyjamas. Mewn rhyw un o bob pum ysgol, nid yw disgyblion yn gwella'u medrau darllen yn ddigon da o flwyddyn i flwyddyn, yn aml oherwydd am nad oes dull ysgol gyfan o ddatblygu medrau darllen disgyblion.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol gynradd. Maent yn dechrau drwy arbrofi gyda gwneud marciau mewn dosbarthiadau meithrin, ac yn symud ymlaen at ysgrifennu seiniau cychwynnol i gynrychioli geiriau cyn symud ymlaen i ysgrifennu geiriau cyfan a brawddegau syml. Defnyddiant y medrau hyn yn bwrpasol, er enghraifft i ysgrifennu gwahoddiadau i briodas frenhinol a'r rhestr cynhwysion ar gyfer y gacen briodas. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu at ystod addas o ddibenion mewn gwersi iaith ac ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyffelybiaethau diddorol i ddisgrifio anifeiliaid mewn storïau, ac yn ysgrifennu ceisiadau effeithiol am swyddi yn y gwasanaeth tân. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda. Maent yn addasu'u harddull ysgrifennu at ddibenion gwahanol, ac yn defnyddio geirfa sy'n berthnasol i bob tasg. Er enghraifft, defnyddiant iaith ddarbwyllol i annog ymwelwyr i ddod i Gymru, ac i ysgrifennu trafodaethau ynghylch p'un a ddylai hela llwynogod fod yn weithgarwch cyfreithlon. Mae gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig yn holl feysydd y cwricwlwm yn faes i'w wella mewn rhyw un o bob pum ysgol. Mewn ysgolion lle mae safonau ysgrifennu'n ddigonol, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth fynd i'r afael â chamgymeriadau sylfaenol a mynych mewn sillafu ac atalnodi wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

## Ysgol Heulfan

Trwy gysylltiadau agos â rhieni, therapyddion ac ymarferwyr sydd wedi cael lefel uchel o hyfforddiant, mae Ysgol Gynradd Heulfan wedi helpu i wella medrau lleferedd disgyblion gan ddefnyddio ystod o dechnegau cyfathrebu, o ganu ac arwyddo, i siarad a gwrando, gan ddefnyddio geirfa ddwyieithog. Nododd adborth ac adroddiadau gynnydd cyflym drwy'r ysgol gyfan.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu'u medrau siarad Cymraeg. Defnyddiant eiriau syml i gyfrif faint o ffrindiau sy'n bwyta ffrwythau gwahanol amser chwarae, i enwi lliwiau a siarad am y tywydd mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn. Maent yn magu hyder wrth siarad am eu hoffterau a'u casbethau ac yn dechrau ehangu'u hymadroddion ym Mlwyddyn 2. Mae cynnydd gormod o ddisgyblion yn arafu wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2. Maent yn dechrau colli hyder yn eu gallu i siarad yr iaith, ac yn dibynnu'n ormodol ar daflenni awgrymiadau ar gyfer tasgau siarad ac ysgrifennu. Mewn ychydig iawn o ysgolion eithriadol, mae disgyblion yn symud yn rhwydd rhwng Cymraeg a Saesneg, ac yn defnyddio Cymraeg fel rhan o'u trefn arferol yn yr ystafell ddosbarth a'u rhyngweithio cymdeithasol. Fodd bynnag, mae gwella safonau Cymraeg disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, yn parhau'n faes pwysig i'w ddatblygu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae disgyblion mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn yn dechrau deall egwyddorion cyfaint a chapasiti drwy eu chwarae â dŵr. Mae'r rhan fwyaf yn ymarfer a datblygu'u medrau cyfrif yn dda wrth iddynt chwarae yn y ddarpariaeth barhaus a'r ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi, er enghraifft pan fyddant yn cyfrif eu hergydion mewn gêm o sgitls. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth am y system rhif, fel digidau a symbolau mathemategol syml, yn addas i weithio allan amser a phroblemau arian. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod briodol o strategaethau i ddatrys problemau rhifyddol, gan gynnwys y rhai lle ceir gwerth lle. Mae mwyafrif o ddisgyblion wedi gwella'u gallu i resymu'n effeithiol ac maent yn esbonio'u dewis o strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â phroblem, ond mae hwn yn dal yn faes i'w ddatblygu i leiafrif o ddisgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft i ganfod yr amser cyfartalog a gymer i barasiwtiau ddisgyn wrth ymchwilio i rymoedd, ond nid yw hyn yn digwydd yn ddigon aml nac yn ddigon da ym mhob ysgol.

Mae safonau TGCh disgyblion a'u defnydd o TGCh yn wendid mewn rhyw bedair o bob deg ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu haen gyfathrebu TGCh, er enghraifft creu dogfennau a chyflwyniadau ac anfon negeseuon electronig. Nid yw mwyafrif yn datblygu nac yn cymhwyso'u medrau mewn creu a dadansoddi cronfeydd data a thaenlenni yn ddigon da.

[1] Gweler ein geirfa am ddiffiniadau o **ddarpariaeth barhaus** a **darpariaeth estynedig**.

# Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles disgyblion mewn ysgolion cynradd yn parhau'n gryfder a barnwyd ei fod yn dda neu'n rhagorol ym mron pob ysgol. Mae agweddau disgyblion at ddysgu, o ran eu gallu i ymgysylltu â phrofiadau anghyfarwydd, canolbwyntio, a pharchu barnau rhai eraill, yn gwella wrth i athrawon ganolbwyntio mwy ar ddatblygu'r rhain. Fodd bynnag, mewn rhyw hanner o ysgolion, mae gallu disgyblion i weithio'n annibynnol a dyfalbarhau i ddatrys problemau, gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu eu hunain, a chwilio am atebion gwahanol yn parhau'n feysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus i siarad ag oedolion ynglŷn â'u problemau. Mae llawer yn deall pwysigrwydd cadw'u hunain yn iach trwy fwyta deiet cytbwys a chymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi a thrwy gydol y diwrnod ysgol. Mae llawer yn ymgymryd â chyfrifoldebau i gefnogi bywyd yr ysgol a disgyblion eraill, er enghraifft yn eu rolau fel cyfeillion iard chwarae ac arweinwyr digidol. Mewn rhyw hanner o ysgolion, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn dylanwadu ar benderfyniadau pwysig yn yr ysgol. Mewn llawer o ysgolion rhagorol, mae grwpiau arwain disgyblion yn dylanwadu ar bob agwedd ar fywyd ysgol, gan gynnwys datblygu'r cwricwlwm ac addysgeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfranogi'n dda ac yn mwynhau'u dysgu. Maent yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn deall pwysigrwydd cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Nid yw disgyblion mewn ysgolion lle ceir cyfran uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn mynychu gystal o gymharu â disgyblion mewn ysgolion eraill. Mae'r bwlch mewn presenoldeb rhwng ysgolion yn y grwpiau uchaf ac isaf sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gyfwerth â rhyw bedwar diwrnod o absenoldeb yn fwy fesul disgybl bob blwyddyn. Derbyniodd ychydig o dan un o bob pum ysgol argymhelliad i wella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n hyderus â sefyllfaoedd newydd ac wrth ddysgu am destunau newydd. Dangosant agweddau cadarnhaol at ddysgu, maent yn cynnal eu canolbwyntio'n dda ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu gweithgareddau a'u cyflawniadau, fel pan fyddant yn esbonio sut aethant ati i gynllunio ac addasu arbrawf gwyddonol yn ymwneud ag echdoriadau folcanig. Mae llawer yn cynnig cymorth i'w gilydd mewn gwersi, gan gydnabod a dangos gwerthfawrogiad am fedrau a chyfraniadau rhai eraill. Yn y rhan fwyaf o ysgolion rhagorol, mae disgyblion yn ymestyn ac yn herio'u hunain. Maent yn trafod dulliau amgen o ddatrys problemau, yn dyfalbarhau ac yn gweithio gyda'i gilydd i wirio bod eu hatebion yn rhesymol. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn ymgymryd â rôl arwain wrth bennu beth maent yn ei ddysgu a sut. Maent yn deall sut i gyflawni'u targedau dysgu personol, y mae llawer ohonynt yn ymwneud â datblygu tueddiadau dysgu allweddol. Mae disgyblion yn datblygu'r tueddiadau hyn yn dda ar draws holl feysydd eu gwaith, er enghraifft, aros yn dawel wrth dderbyn beirniadaeth neu ofyn cwestiynau i ddyfnhau'u dealltwriaeth ac egluro'u meddwl.


## Ysgol yr Esgob

Mae staff yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Esgob wedi helpu disgyblion i wella'u gwaith, cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu, a chodi safonau trwy ddysgu annibynnol, hunanasesu rheolaidd a gosod amcanion dysgu clir.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 7:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu, 2017-2018



# Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda neu'n well mewn tri chwarter o ysgolion cynradd, tra bod addysgu yn dda neu'n well mewn bron i wyth o bob deg ysgol. Mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol mewn un o bob ugain ysgol. Mae'r gwahaniaeth bach yn y barnau ar gyfer 'addysgu' ac 'addysgu a phrofiadau dysgu' yn ganlyniad i'r angen i ychydig o ysgolion wneud gwelliannau pellach i'w cwricwlwm i gefnogi dysgu'r disgyblion.

Lle mae addysgu a phrofiadau dysgu yn effeithiol, maent yn darparu her, yn ennyn diddordeb disgyblion, ac yn adeiladu'n systematig ar eu gwybodaeth, medrau a phrofiadau. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn. Lle ceir gwendidau, mae'r rhain yn aml yn gysylltiedig ag arferion anghyson a threfniadaeth wael o ran y cwricwlwm. Nid yw cynlluniau athrawon bob amser yn cynnwys gwybodaeth briodol neu glir am y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau y dylai disgyblion eu caffael wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. O ganlyniad, nid yw addysgu'n adeiladu'n systematig ar gyflawniadau blaenorol disgyblion. Ym Mehefin 2018, cyhoeddom arolwg gydag astudiaethau achos sy'n disgrifio sut mae ysgolion yn gwella ansawdd addysgu (Estyn 2018b). I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad**.

Mewn ysgolion lle ceir addysgu da neu well, mae disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion gan lawer o athrawon, ac maent yn darparu gweithgareddau dysgu deniadol iddynt sy'n ennyn eu brwdfrydedd ac yn eu herio ar y lefel gywir. Mae llawer yn defnyddio techneg holi'n effeithiol i annog disgyblion i esbonio'u meddwl. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn creu amgylchedd gweithio tawel a phwrpasol. Defnyddiant strategaethau rheoli ymddygiad yn dda i helpu disgyblion i ganolbwyntio ar y dasg. Mae llawer o athrawon yn defnyddio asesu 'yn ffurfiannol' fel bod disgyblion yn gwybod pa mor dda maent yn gwneud a beth allant ei wneud i wella. Mae'r athrawon mwyaf effeithiol yn rhoi amser i ddisgyblion fyfyrio a gweithredu ar adborth er mwyn symud eu dysgu yn ei flaen. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd a dod yn fwy annibynnol fel dysgwyr.


Mae tua hanner yr argymhellion yn y maes arolygu hwn yn ymwneud ag ansawdd yr addysgu. Mae sicrhau bod yr addysgu yn bodloni anghenion pob disgybl, yn enwedig y rheini sy'n fwy abl, a rhannu arfer dda rhwng athrawon fel bod ansawdd addysgu yn dda o leiaf ym mhob dosbarth ar draws yr ysgol, yn parhau'n feysydd sydd angen eu gwella yn y sector cynradd.

### Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg

Yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg, mae lefelau eithriadol o dda o barch rhwng disgyblion a staff. Mae athrawon yn benderfynol y dylai disgyblion arwain agweddau ar eu dysgu eu hunain ac maent yn hwyluso hyn trwy eu harferion addysgu rhagorol. Mae'r ysgol yn enghreifftio llawer o'r 'egwyddorion addysgegol' sy'n ategu'r cwricwlwm newydd.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

**Ffigur 8:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu, 2017-2018



Mewn ychydig iawn o ysgolion, lle mae addysgu a phrofiadau dysgu yn rhagorol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd dysgu arloesol, creadigol ac ysgogol i ddisgyblion sydd wedi'u teilwra yn unol â chymuned yr ysgol a materion go iawn. Er enghraifft, mae caffi cymunedol ysgol yn darparu amgylchedd cyfoethog ac ysgogol i ddisgyblion ddysgu am fwyta'n iach, marchnata, gwerthiant a gwasanaeth cwsmeriaid.

Mae'r cwricwlwm yn ysgogi diddordebau disgyblion yn arbennig o dda, yn tanio'u dychymyg ac yn sicrhau eu bod yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd i gynllunio a chyflwyno gwersi i'w cyfoedion ar destunau y maen nhw'n eu dewis.

Mae rhyw ddwy ran o dair o ysgolion yn ystyried eu hymagwedd at y cwricwlwm yn ofalus ac yn cynllunio profiadau dysgu gwerthfawr. Mae cynllunio meddylgar, a rennir yn aml rhwng tîm o athrawon a staff cymorth, yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn adeiladu'n systematig. Mae'r ysgolion hyn yn cyfoethogi dysgu disgyblion trwy drefnu ymweliadau â mannau perthnasol o ddiddordeb.

Mae angen i bron i hanner o ysgolion wella ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb eu cwricwlwm, yn enwedig i sicrhau eu bod yn gweithredu ethos ac egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gyson ac effeithiol. Yn Rhagfyr 2017, cyhoeddom adroddiad i helpu ysgolion i gyflwyno llythrennedd a rhifedd ym Mlynyddoedd 1 a 2 trwy brofiadau dysgu rhyngweithiol a llawn hwyl (Estyn 2017a). Darllenwch yr **adroddiad** i gael gwybod mwy am hyn. Mewn lleiafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg, mae angen gwellau'r cynllunio i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle nodir arfer gryf iawn a chynaledig, mae trefnu'r cwricwlwm yn effeithiol yn sicrhau bod cyfleoedd dychmygus a chyson i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn integreiddio'r cyfleoedd hyn i ddysgu disgyblion, ac mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau yn llwyddiannus a hyderus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd a chyflawniad disgyblion.

Mae angen i bron i chwarter o ysgolion wella'r ffordd y maent yn cynllunio i ddisgyblion ddefnyddio medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

### Ysgol-Y-Wern

Mae prosiect uchelgeisiol ac arloesol ar y tywydd yn un ffordd y mae Ysgol-y-Wern wedi datblygu a chynllunio dysgu trawsgwricwlaidd sy'n herio medrau TGCh, rhifedd a llythrennedd disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

**Cydnabod Rhagoriaeth**
Recognising Excellence

# Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn gryfder yn y sector, gyda deilliannau da neu well mewn naw o bob deg ysgol gynradd. Mae'r ysgolion hyn yn creu diwylliant lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael gofal. Mae ysgolion rhagorol yn gwerthfawrogi, yn cymell ac yn parchu pob aelod o'r gymuned ysgol. Mae arweinwyr ac athrawon yn annog disgyblion i ddod yn ddysgwyr ymroddedig, gwydn. Mae disgyblion yn datblygu ystod o fedrau a thueddiadau dysgu sy'n eu helpu i ddod yn ddysgwyr annibynnol a hyderus sy'n barod i gymryd risgiau.

Mewn ychydig dros wyth o bob deg ysgol, ceir prosesau ar waith i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i weithredu ystod addas o raglenni ymyrryd ac i osod targedau ystyrlon ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae tua hanner o ysgolion yn defnyddio gwybodaeth olrhain i ddarparu heriau ychwanegol ar gyfer eu disgyblion mwyaf abl. Nid yw tua un o bob pum ysgol yn mireinio'u gweithdrefnau asesu ac olrhain yn ddigon da i fonitro cynnydd grwpiau disgyblion penodol.

Mae gan naw o bob deg ysgol berthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni a gofalwyr ac maent yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'w helpu i gynorthwyo'u plentyn i ddysgu gartref. Mewn rhyw un o bob pum ysgol, mae perthnasoedd a chyfathrebu â rheini yn eithriadol. Mae'r ysgolion hyn yn adnabod eu cymunedau ehangach yn arbennig o dda ac yn addasu'u darpariaeth yn hyblyg i annog dysgu ymhlith rhieni a disgyblion. Er enghraifft, maent yn cynnig cymorth pwrpasol i deuluoedd, fel gwasanaethau cwnsela a help i rieni sy'n newydd i'r Saesneg. Ym Mehefin 2018, cyhoeddom arolwg thematig am ba mor effeithiol y mae ysgolion yn ymgysylltu â rhieni (Estyn, 2018c). I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad**.

Mae bron yr holl ysgolion yn helpu'u disgyblion i ddeall pwysigrwydd cynnal ffordd iach o fyw. Mae llawer o ysgolion yn darparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion, fel athletau, rygbi, dawns a chriced, sy'n ategu'u gwersi addysg gorfforol yn dda.


Defnyddir strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol gan ryw wyth o bob deg ysgol. Mae aelodau staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn meithrin perthnasoedd adeiladol. Mae hyn yn helpu disgyblion i deimlo'n sicr wrth fynd i'r afael â dysgu newydd, ac mae'n magu eu hyder a'u hunan-barch. Mae cynlluniau cynhwysfawr gan y rhan fwyaf o ysgolion ar gyfer datblygu

**Ysgol Gynradd Cwm Glas**

Mae Ysgol Gynradd Cwm Glas wedi datblygu perthnasoedd cadarn ac ymddiriedus gyda rhieni i gefnogi anghenion dysgu a lles eu plant. Mae arweinwyr yn cydweithio â theuluoedd ac yn eu cefnogi, gan gynnal digwyddiadau hyfforddiant anogaeth a sesiynau dysgu teuluol. O ganlyniad i'r dull cynhwysol ac anogol hwn, mae'r holl ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

**Ffigur 9:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, 2017-2018



medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion mewn gwersi penodol a thrwy gydol gweithgareddau dyddiol yr ysgol. Mae llawer o ysgolion yn annog eu disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, fel gweithio gyda'r cyngor lleol i gadw'r gymdogaeth yn ddi-sbwriel neu ddysgu sut i gefnogi dioddefwyr dementia.

Mewn rhyw un o bob pum ysgol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwrando ac ymateb i farnau disgyblion yn rhagorol. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn gofyn am farnau disgyblion ynglŷn â chyfeiriad strategol yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cyfrannu at gynllun gwella'r ysgol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau arfarnu, fel teithiau dysgu. Nid yw llawer o ysgolion eraill yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol ymhellach na chynllunio digwyddiadau elusennol, neu brynu a threfnu offer iard chwarae.

Mae llawer o ysgolion yn defnyddio teithiau ac ymwelwyr yn addas i wella gwybodaeth a phrofiadau diwylliannol disgyblion. Mewn un o bob pum ysgol, mae'r ddarpariaeth hon yn eithriadol o dda ac mae'r ysgol yn annog medrau dychmygus a chreadigol disgyblion, er enghraifft trwy bartneriaethau gydag artistiaid lleol a sefydliadau cenedlaethol fel Opera Cenedlaethol Cymru.

Mae dros wyth o bob deg ysgol yn talu sylw da i ddatblygu credoau ysbrydol a moesegol disgyblion. Trwy weithredoedd cyd-addoli a thrafodaethau rheolaidd, maent yn helpu disgyblion i ddeall pwysigrwydd gonestrwydd, parch a thegwch. Ceir trefniadau addas ym mron yr holl ysgolion i ddiogelu'u disgyblion.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well mewn wyth o bob deg ysgol gynradd. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae gweledigaeth glir gan arweinwyr ac maent yn rhannu hon yn llwyddiannus gyda staff a rhanddeiliaid. Mae arweinwyr yn rhoi strategaethau gwella pwrpasol ar waith sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Mewn tua chwarter o ysgolion, nid yw arweinwyr yn ystyried canlyniadau gweithgareddau hunanwerthuso yn ddigon da i wella'r addysgu a safonau disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol gyfan.


Mewn ysgolion lle mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda o leiaf, mae arweinwyr yn pennu disgwyliadau uchel ac yn datblygu ethos o waith tîm ymhlith staff. Mae'r rhan fwyaf o staff yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n dda i wella meysydd allweddol o waith yr ysgol, i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a chodi safonau. Mae arweinwyr yn cefnogi gwaith athrawon a staff cymorth yn effeithiol drwy systemau rheoli perfformiad tryloyw sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mewn ysgolion da, mae arweinwyr yn defnyddio amser cyfarfodydd yn effeithlon, er enghraifft i drafod blaenoriaethau strategol yr ysgol neu i adolygu cynnydd disgyblion.

Mewn un o bob pum ysgol, lle mae arweinyddiaeth yn waeth na da, nid yw uwch arweinwyr yn gweithio gyda staff i ddatblygu gweledigaeth glir a rennir. Yn yr ysgolion hyn, ceir diffyg ffocws strategol ar y modd y bydd camau gweithredu yn gwella deilliannau ar gyfer pob disgybl, yn enwedig y rhai mwy abl. Mae ein harolwg thematig, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2018, yn darparu strategaethau ac awgrymiadau i arweinwyr ysgolion gefnogi a herio dysgwyr mwy abl (Estyn, 2018d). I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad**.

Mewn bron i ddwy ran o dair o ysgolion, mae llywodraethwyr yn defnyddio'u gwybodaeth am yr ysgol yn briodol i herio gwaith uwch arweinwyr ac i ofyn cwestiynau perthnasol am berfformiad yr ysgol. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am gryfderau'r ysgol a blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mewn llawer o ysgolion, mae deilliannau hunanwerthuso yn llywio blaenoriaethau gwella yn uniongyrchol. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr ac athrawon yn ymgymryd â gweithgareddau monitro rheolaidd sy'n rhan o sgwrs barhaus ynghylch effeithiolrwydd darpariaeth yr ysgol, gyda chysylltiadau clir at ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr yn gofyn am farnau rhanddeiliaid, gan gynnwys disgyblion a rhieni, ac yn gweithredu arnynt. Maent yn cysylltu'r gweithgareddau hyn yn dda â systemau eraill fel rheoli perfformiad a dysgu proffesiynol i roi strwythur cydlynus i brosesau gwella cyffredinol yr ysgol. Gwna hyn wahaniaeth cadarnhaol i ansawdd yr addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol.

**Ffigur 10:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, 2017-2018



Mewn ysgolion rhagorol, mae uwch arweinwyr yn datblygu ethos o fod yn agored a chydweithredu sy'n grymuso'r holl ymarferwyr i fyfyrio'n onest ar eu perfformiad eu hunain. Mae hyn yn cyfrannu at safonau cadarn a chyson uchel a datblygiadau gwerthfawr mewn addysgu a dysgu. Mae arweinwyr ac athrawon yn yr ysgolion hyn yn mynd i'r afael yn effeithiol â blaenoriaethau gwella cenedlaethol a blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mewn ysgolion lle mae hunanwerthuso a systemau gwella ysgol yn waeth na da, nid yw uwch arweinwyr yn canolbwyntio'r prosesau hyn yn ddigonol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion nac yn cyflawni'r prosesau hyn yn ddigon trylwyr. Yn yr achosion hyn, nid yw staff yn 'berchen' ar flaenoriaethau gwella'r ysgol nac yn deall eu rôl i'w cyflawni. Lle mae prosesau gwella ysgol yn wan, mae arweinwyr yn aneffeithiol o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol ei hun yn ogystal â blaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu medrau TGCh disgyblion a'u defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mewn ysgolion lle ceir dysgu proffesiynol effeithiol, mae cysylltiadau agos rhwng blaenoriaethau gwella'r ysgol a gweithgareddau datblygiad proffesiynol wedi'u cynllunio'n dda yn arwain at welliannau mesuradwy mewn deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr mewn ysgolion da yn sicrhau bod cyfleoedd mynych ar gael i staff weithio'n agos gyda chydweithwyr yn eu hysgol eu hunain ac ysgolion eraill i wella deilliannau disgyblion, er enghraifft i ddatblygu ysgrifennu disgyblion at ystod o ddibenion gwahanol. Ym Medi 2017, cyhoeddom grynodeb a phapur trafod ar y modd y mae ysgolion yn cydweithio (Estyn 2017b). I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad**. Mewn rhyw un o bob ugain ysgol, ceir cyfleoedd datblygiad proffesiynol rhagorol ar gyfer staff. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn gweithio'n dda gyda'r holl staff i greu cymunedau dysgu o amgylch diwylliant o gydweithio. Er enghraifft, mae athrawon yn gweithio'n fyfyriol gyda chydweithwyr fel rhan o driawdau dysgu (tri athro sy'n gweithio gyda'i gilydd) i arsylwi gwersi a gwneud gwaith craffu er mwyn gwella'u harfer broffesiynol.

Mewn un o bob pum ysgol lle mae dysgu proffesiynol yn wan, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella ansawdd yr addysgu. Nid ydynt yn ystyried budd gweithgareddau datblygiad proffesiynol yn strategol nac yn ystyried sut bydd y rhain o fantais i ddisgyblion a staff yn y tymor hir. Mae hyn yn arwain at amrywioldeb yn ansawdd yr addysgu sy'n rhwystro cynnydd disgyblion dros gyfnod.

Ym mhob ysgol bron, mae uwch reolwyr yn rheoli adnoddau dynol ac adnoddau ariannol yn effeithlon i fodloni anghenion disgyblion ac i gydweddu â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn defnyddio staff yn ofalus i fynd i'r afael ag anghenion dysgu disgyblion ac yn gweithio'n agos gyda llywodraethwyr i ddarparu rheolaeth ariannol gref, gan sicrhau bod yr ysgol yn rhoi ac yn derbyn gwerth da am arian. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol yn defnyddio cyllid grant at y diben a fwriadwyd ac mae ychydig yn defnyddio cyllid penodol yn arbennig o dda i gynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni oherwydd difreintedd. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo disgyblion abl yn academaidd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyflawni'r lefelau uwch, yn ogystal â chefnogi'r disgyblion hynny sy'n cael anhawster cyflawni'r lefelau disgwyliedig.

## Ysgol Plascrug

Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yn Ysgol Plascrug yn rhagorol. Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i baratoi disgyblion i ddod yn rhan o gymdeithas ddwyieithog sy'n hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg yn gryf. Mae llawer o'r staff wedi elwa ar ystod o gyrsiau a dosbarthiadau sydd wedi eu helpu i wella eu medrau dwyieithog ac addysgu'n fwy effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Gweithgarwch dilynol:
## Ysgolion cynradd

Mae angen monitro ychwanegol ar ryw un o bob pum ysgol gynradd a arolygwyd eleni. Mae naw ar hugain o ysgolion yn y categori adolygu gan Estyn, mae angen gwelliant sylweddol ar saith ysgol ac mae tair ysgol yn y categori mesurau arbennig.


Mae angen eu hadolygu gan Estyn ar ryw un o bob saith ysgol gynradd a arolygwyd eleni. Mae hyn yn llai nag yn y ddwy flynedd diwethaf, pan nodwyd bod angen eu monitro gan Estyn ar ryw un o bob pedair ysgol. Er Medi 2017, rydym wedi rhoi mwy o bwyslais ar allu ysgolion i sbarduno'u gwelliant eu hunain wrth ystyried p'un a oes angen eu hadolygu gan Estyn.

Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn cyflawni safonau digonol yn gyffredinol, ac, mewn rhyw draean, mae safonau yn dda. Mewn llawer ohonynt, mae lles ac agweddau at ddysgu a gofal, cymorth ac arweiniad yn dda. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, mae addysgu a phrofiadau dysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigonol ac angen gwelliant. Mae ansawdd addysgu yn amrywio gormod ar draws yr ysgol ac nid yw pob athro yn cynnig digon o her i ddisgyblion, nac yn cyflwyno gwersi sy'n bodloni anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Nid yw'r cwricwlwm yn cael ei gynllunio'n ddigon da bob amser, er enghraifft i sicrhau bod medrau rhifedd yn cael eu datblygu ar draws y cwricwlwm neu fod y cyfnod sylfaen yn cael ei weithredu'n briodol. Nid yw arweinyddiaeth yn ddigon strategol, ac nid yw hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn finiog. Wrth fonitro'r addysgu, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Rhoddodd arolygwyr 10 o ysgolion cynradd mewn categori statudol yn dilyn eu harolygiad craidd, sef yr un ganran â'r llynedd.

Eleni, mewn ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt, mae naill ai arweinyddiaeth a rheolaeth neu addysgu a phrofiadau dysgu yn anfoddhaol. Mewn ysgolion yn y categori mesurau arbennig, mae arweinyddiaeth a rheolaeth ac addysgu a phrofiadau dysgu yn anfoddhaol ynghyd ag agweddau eraill ar ddarpariaeth yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn cyflawni safonau digonol ar y gorau. Ceir diffyg ehangder yn y cwricwlwm ac nid yw'n annog disgyblion i ddatblygu'u medrau llythrennedd neu rifedd yn ddigon da. Mae safonau addysgu'n amrywio gormod ar draws yr ysgol ac, mewn llawer o ddosbarthiadau, nid yw'r addysgu yn bodloni anghenion pob disgybl. Yn rhy aml, nid yw arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn cynnwys staff yn ddigon da wrth ddatblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol, nac mewn prosesau i fonitro ac arfarnu safonau a darpariaeth. Nid yw uwch arweinwyr yn canolbwyntio'u monitro

**Ffigur 11:**
Ysgolion cynradd a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2017-2018



yn ddigon miniog ar ansawdd dysgu ac arfer yn yr ystafell ddosbarth. Lle maent yn nodi athrawon nad ydynt wedi perfformio'n ddigon da, nid yw her arweinwyr yn ddigon cadarn i sicrhau bod arfer yn yr ystafell ddosbarth yn gwella.

Ym Medi 2017, roedd 12 o ysgolion cynradd yn y categori mesurau arbennig. Yn dilyn ymweliadau monitro, roedd chwech o'r rhain wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn yr argymhellion ac fe'u tynnwyd o'r categori hwn. Yn gyffredinol, fe gymer rhyw ddwy flynedd i ysgolion yn y categori mesurau arbennig i wneud y gwelliannau gofynnol. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol ymhen rhyw flwyddyn i 18 mis. Eleni, tynnom dair o'r saith ysgol a roddwyd yn y categori gwelliant sylweddol y llynedd o gategori monitro pellach.

Dros y flwyddyn, rydym wedi mireinio ein gweithdrefnau ar gyfer ysgolion yn y categori adolygu gan Estyn. Rydym yn monitro pob ysgol sy'n cael ei rhoi yn y categori adolygu gan Estyn drwy adolygiad desg. Mae arolygwyr yn ymweld â sampl o'r ysgolion hyn, gan gynnwys ysgolion lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn ddigon cyflym. Er Ionawr 2018, canfu arolygwyr fod y 22 o ysgolion a roddwyd yn y categori adolygu gan Estyn yn ystod 2016-2017 wedi gwneud digon o gynnydd ac nad oes angen gweithgarwch dilynol pellach arnynt. Yn ogystal, ail-ymwelodd arolygwyr â'r ychydig o ysgolion a roddwyd yn yr hen gategori monitro gan Estyn, a thynnwyd y rhain o'r lefel hon o weithgarwch dilynol.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Ysgolion uwchradd

Yn Ionawr 2018, roedd 195 o ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae hyn bump yn llai nag yn Ionawr 2017. Unwyd tair ysgol uwchradd gydag ysgolion cynradd i ddod yn ysgolion pob oed, cafodd dwy ysgol uwchradd eu ffedereiddio i ddod yn un ysgol a chaeodd un ysgol. Nifer y disgyblion ysgol uwchradd oedd 172,218 yn Ionawr 2018 o gymharu â 174,812 yn Ionawr 2017 (Llywodraeth Cymru, 2018a).

Eleni, fe wnaethom arolygu 27 o ysgolion. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Safonau

Mewn hanner o'r ysgolion uwchradd, ceir safonau da o leiaf. Mewn rhyw un o bob chwech, mae safonau'n rhagorol. Yn yr ysgolion hyn, mae addysgu o ansawdd uchel a gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol yn arwain at lefelau uchel o frwdfrydedd dros ddysgu sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion. Mae gweledigaeth strategol glir gan arweinwyr yn yr ysgolion hyn, ac maent yn rhoi ffocws cyson ar ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mewn rhyw hanner o ysgolion, nid yw mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran a gallu yn datblygu'u gwybodaeth a'u medrau yn ddigon da nac yn gwneud digon o gynnydd.


Yn hanner yr ysgolion lle ceir safonau da neu well, mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda a gallant gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth i gyd-destunau newydd a gwahanol. Maent yn gwrando'n ofalus ac mae'r mwyafrif yn gwneud cyfraniadau defnyddiol at drafodaethau. Mae lleiafrif yn rhoi ymatebion rhesymegol, maent yn huawdl ac yn siarad gyda brwdfrydedd, ac weithiau gydag angerdd. Fodd bynnag, dim ond ymatebion byr i gwestiynau y mae lleiafrif o ddisgyblion yn ei gynnig, ac maent yn amharod i ymestyn eu hatebion neu ddatblygu'u syniadau. Mae hyn fel arfer oherwydd techneg holi wan nad yw'n archwilio meddwl a dealltwriaeth disgyblion.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac mae ganddynt ystod o strategaethau sy'n eu helpu i ddeall geiriau anghyfarwydd. Gallant nodi gwybodaeth allweddol a rhesymu a dod i gasgliad yn addas wrth ddadansoddi testunau. Mae medrau darllen lefel uwch sydd wedi'u datblygu'n dda gan ychydig o ddisgyblion. Maent yn gallu cyfuno a chrynhoi gwybodaeth yn llwyddiannus. Maent yn rhesymu ac yn dehongli, ac yn dod i gasgliadau craff, er enghraifft wrth ddadansoddi cymeriadaeth mewn cerddi a storïau.

Wrth ysgrifennu, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddiben a ffurf, ac maent yn gwybod sut i strwythuro ysgrifennu estynedig yn briodol. Gwna mwyafrif ddefnydd da o eirfa eang gyffredinol a phenodol i bwnc. Mae ychydig ohonynt yn ysgrifenwyr medrus sy'n dangos lefelau cadarn o greadigrwydd a gwreiddioldeb mewn llawer o agweddau ar eu gwaith ysgrifenedig, fel pan fyddant yn rhagfynegi sut bydd naratif cerdd yn datblygu. Fodd bynnag, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud gormod o gamgymeriadau sillafu ac atalnodi sylfaenol yn eu hysgrifennu. Nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros wella cynnwys a chywirdeb eu hysgrifennu cyn ei rannu gyda'r athro.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn addas ar draws y cwricwlwm ac yn cwblhau cyfrifiadau sylfaenol yn gywir. Mae'r disgyblion hyn yn cymhwyso'u medrau yn briodol i sefyllfaoedd newydd. Yn y mwyafrif o ysgolion, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon da mewn cyd-destunau heblaw am wersi mathemateg. Y rheswm am hyn yw

**Ffigur 12:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer safonau, 2017-2018



bod y rhan fwyaf o athrawon yn rhoi tasgau iddynt nad ydynt yn cynnig llawer o her. Er enghraifft, maent yn gofyn i ddisgyblion lunio siartiau bar a'u lliwio, ond nid i ddadansoddi data na llunio casgliadau. Yn yr ysgolion hyn, nid oes digon o gyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatrys problemau mewn cyd-destunau go iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau TGCh sylfaenol yn fedrus i ymchwilio i ffeithiau, adalw gwybodaeth a chreu delweddau. Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau TGCh yn bwrpasol ochr yn ochr â'u medrau creadigol, er enghraifft i drin delweddaeth mewn celf, technoleg dylunio a ffotograffiaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cyflawni gwaith sy'n ymestyn eu medrau TGCh. Er enghraifft, nid ydynt yn defnyddio taenlenni i fodelu senarios go iawn neu i ymgymryd â chyfrifiadau soffistigedig.

Mae safonau Cymraeg disgyblion mewn llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mewn lleiafrif o ysgolion dwyieithog yn dda. Maent yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda yn Gymraeg, ac mae llawer yn defnyddio'u medrau iaith yn hyderus mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm. Mae'r gallu gan lawer o ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn datblygu'u medrau llefaredd hyd eithaf eu gallu. Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn llai aml nag oeddent yn ei wneud yn eu hysgolion cynradd. Y rheswm am hyn yw'r statws a roddir i'r iaith gan eu cyfoedion ac arweinwyr ysgol, a'r disgwyliadau sydd gan staff yr ysgol ynglŷn â siarad Cymraeg. Ym Mai 2018, cyhoeddom arolwg thematig am y Gymraeg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog (Estyn, 2018a). Darllenwch yr **adroddiad**.

Dim ond mewn rhyw chwarter o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg y mae disgyblion yn parhau i ddatblygu'u medrau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae dealltwriaeth gadarn o eirfa sylfaenol a gramadeg gan y disgyblion hyn, maent yn ynganu geiriau yn gywir ac yn ysgrifennu'n dda at amrywiaeth o ddibenion. Maent yn datblygu'u gallu i lunio'u brawddegau eu hunain a dangosant agweddau cadarnhaol a mwynhad wrth ddysgu Cymraeg. Yng ngweddill yr ysgolion, nid yw disgyblion yn datblygu'u medrau siarad Cymraeg yn ddigon da mewn gwersi Cymraeg neu mewn cyd-destunau eraill. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn canolbwyntio gormod ar baratoi ar gyfer arholiadau ac nid yw'r hyder ganddynt i geisio siarad Cymraeg. Caiff hyn effaith niweidiol ar eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu. Cafodd tua hanner yr ysgolion hyn argymhelliad i godi safonau mewn Cymraeg.

Yn yr ysgolion lle ceir safonau da neu ragorol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn a chynaledig trwy gydol eu hamser yn yr ysgol, ac maent yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, yn hanner yr ysgolion, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn cyflawni'n unol â'u galluoedd erbyn iddynt gyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol. Mewn ychydig o ysgolion, gall deilliannau mewn arholiadau ymddangos yn fwy cadarnhaol na chynnydd a safonau a welwyd mewn gwersi a gwaith disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn neilltuo llawer o egni i wneud yn siŵr bod disgyblion yn cyflawni gradd C o leiaf er mwyn cyflawni'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Mewn ychydig iawn o achosion, mae hyn yn arwain at ddeilliannau llwyddiannus yn y dangosydd hwn, ond nid yn y dangosyddion sy'n dangos perfformiad ar lefelau uwch (5A*-A) neu ar draws ystod eang o bynciau (y sgôr pwyntiau wedi'i chapio).

Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn yn genedlaethol, yn enwedig mewn pynciau fel Cymraeg a Saesneg. Mae'r cynnydd a'r deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn parhau'n is na'r rheini ar gyfer disgyblion eraill (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mewn naw o bob deg ysgol, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau. Fodd bynnag, mewn hanner o ysgolion, nid yw targedau ar gyfer y disgyblion hyn yn ddigon heriol.

Yn y chweched dosbarth mewn ysgolion, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae'r dysgwyr hyn yn cofio dysgu blaenorol yn gadarn ac yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau blaenorol yn hyderus i sefyllfaoedd newydd. Mae medrau datrys problemau cryf gan lawer ohonynt, ac mae mwyafrif yn gwneud cysylltiadau craff rhwng y testunau a'r pynciau gwahanol y maent yn eu hastudio. Mae llawer o ddysgwyr yn siarad yn hyderus ac yn gwneud pwyntiau ystyrlon mewn trafodaethau dosbarth. Maent yn cyfranogi'n aeddfed mewn dadleuon a thrafodaethau ac yn dod i gasgliadau rhesymegol. Nid yw ychydig o ddysgwyr yn gwneud digon o gynnydd oherwydd nad yw'r dyfnder gwybodaeth na'r lefel medr neu gymhelliant ganddynt sydd eu hangen i astudio ar lefel uwch. O ganlyniad, mae tua chwarter o ddysgwyr Blwyddyn 12 mewn ysgolion a cholegau yn methu symud ymlaen i Flwyddyn 13 (Llywodraeth Cymru, 2018b). Yn ystod eu hastudiaethau Safon Uwch, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu'u medrau dysgu'n annibynnol yn dda. Nid oes medrau dysgu annibynnol cryf gan fwyafrif pan fyddant yn dechrau ar eu cyrsiau Safon Uwch, ac mae lleiafrif yn parhau'n rhy ddibynnol ar eraill am gymorth.

# Lles ac agweddau at ddysgu

Mewn dwy ran o dair o ysgolion uwchradd, mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n rhagorol. Maent yn ddigonol ac angen gwelliant mewn dwy o bob deg ysgol, ac mewn un o bob deg ysgol, mae lles ac agweddau at ddysgu yn anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys.


Yn y chwarter o ysgolion lle mae lles dysgwyr a'u hagweddau at ddysgu yn eithriadol o gryf, caiff hyn effaith sylweddol ar ddatblygiad personol disgyblion a'r safonau y maent yn eu cyflawni.

Mewn dwy ran o dair o ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos parch at eu hathrawon, staff eraill a'i gilydd. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r cyfleoedd a roddir iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn eu hysgol ac yn gwybod ble i droi os oes angen help arnynt. Yn yr ysgolion hyn, mae dealltwriaeth gadarn gan ddisgyblion o sut i gadw'n iach trwy fwyta deiet maethlon a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd gwerthfawr a gynigir i gyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon, gweithgareddau diwylliannol a chymunedol.

Un nodwedd nodedig mewn llawer o ysgolion yw parodrwydd disgyblion i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain. Maent yn cyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol mewn llawer o ffyrdd, er enghraifft fel aelodau o gynghorau ysgol, fel arweinwyr digidol a chenhadon chwaraeon, a thrwy ddarparu cymorth cyfoedion i ddisgyblion eraill. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus, ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gref o degwch, cydraddoldeb a goddefgarwch.

Mewn dwy ran o dair o ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â gwersi, yn dangos balchder yn eu gwaith, ac yn ddysgwyr chwilfrydig a brwdfrydig. Gweithiant yn dda â'i gilydd mewn parau a grwpiau, gan gefnogi dysgu ei gilydd yn effeithiol. Yn yr ysgolion hyn, mae llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o wydnwch ac annibyniaeth wrth ymgymryd â thasgau heriol, a chaiff hyn effaith gadarnhaol sylweddol ar eu cynnydd. Mewn traean o ysgolion, fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn dangos fawr o ddiddordeb yn eu gwaith, tynnir eu sylw yn hawdd ac maent yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill. Nid oes gwydnwch na dyfalbarhad gan y disgyblion hyn pan fydd y gwaith yn heriol. Caiff hyn effaith niweidiol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a'u cynnydd.

**Ffigur 13:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu, 2017-2018



Mae llawer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn dangos gwydnwch a brwdfrydedd dros eu gwaith. Mae'r disgyblion hyn yn llawn cymhelliant. Dangosant etheg gwaith ddatblygedig ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu hastudiaethau Safon Uwch, er eu bod yn eu gweld yn dipyn anoddach na'u hastudiaethau TGAU. Maent yn gwerthfawrogi lefel yr her ddeallusol a'r cyfle i astudio ystod gyfyngedig o bynciau o'u dewis. Fodd bynnag, yn ein **harolwg thematig** yn ddiweddar, canfuom fod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod astudio Lefel Uwch yn peri straen (Estyn, 2018e). Maent yn ystyried Safon Uwch yn gymwysterau pwysig sydd â goblygiadau difrifol ar gyfer gweddill eu bywydau. Mae gofynion astudio tri neu bedwar pwnc yn ogystal â chymhwyster ychwanegol fel Bagloriaeth Cymru yn ychwanegu at y straen hwn, yn enwedig pan fydd cyfrifoldebau ychwanegol gan ddysgwyr, fel swyddi rhan-amser.

# Addysgu a phrofiadau dysgu

Mewn hanner o ysgolion uwchradd, mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda neu'n rhagorol. Mewn pedair o bob deg ysgol, maent yn ddigonol ac angen gwelliant, ac mewn ychydig o dan un o bob deg ysgol, maent yn anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys.


Mewn un o bob chwe ysgol, mae'r addysgu'n rhagorol ac yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn llym o ran eu disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac adlewyrchir hyn yn ansawdd gwaith disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynnig enghreifftiau mynych o waith eithriadol i ddisgyblion, sy'n annog disgwyliadau uchel. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cyfleu angerdd dros ddysgu. Cynlluniant wersi ysgogol sy'n tanio chwilfrydedd disgyblion, yn herio'u meddwl, ac yn eu hannog i archwilio syniadau yn greadigol. Mae gwybodaeth fanwl am anghenion disgyblion unigol gan lawer o athrawon yn yr ysgolion hyn, a defnyddiant y wybodaeth i addasu tasgau ac adnoddau mewn modd sensitif i gynorthwyo a herio disgyblion o bob gallu.

Mewn traean o ysgolion, mae'r addysgu yn effeithiol o ran hyrwyddo cynnydd cadarn, meithrin hyder disgyblion ac ennyn eu diddordeb yn eu dysgu. Yn yr ysgolion hyn, mae gan bron yr holl athrawon berthnasoedd adeiladol gyda'u dosbarthiadau ac maent yn creu amgylchedd dysgu cefnogol a chadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn yr ysgolion hyn yn gosod tasgau ymestynnol ac maent yn annog disgyblion i fod yn hunan-ddibynnol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ynglŷn â sut i wella'u gwaith. Hefyd, mae mwyafrif yn darparu adborth ysgrifenedig buddiol sy'n canolbwyntio ar welliant.

Mewn hanner o ysgolion uwchradd, ceir diffygion yn yr addysgu ac asesu. Yn yr ysgolion hyn, mae lleiafrif o athrawon yn gosod gweithgareddau dysgu nad ydynt yn cynnwys her, ac maent yn methu ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Ym Mehefin 2018, cyhoeddom arolwg gydag astudiaethau achos sy'n disgrifio sut mae ysgolion yn gwella ansawdd addysgu (Estyn, 2018b). I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad**. Asesu yw'r agwedd wannaf ar addysgu. Nid yw athrawon yn sicrhau bod pob math o asesiad, p'un a gaiff ei gynnal gan yr athro neu gan ddisgyblion eu hunain, yn ddefnyddiol neu'n cael effaith gadarnhaol ar wella safonau.

Mewn saith o bob deg ysgol, mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ar draws pob cyfnod allweddol. Yn yr ysgolion hyn, mae'r profiadau dysgu a gynigir drwy'r cwricwlwm ffurfiol a gweithgareddau allgyrsiol yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn cyfoethogi bywyd yr ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn helpu disgyblion i ddod yn ddysgwyr creadigol ac uchelgeisiol.

**Ffigur 14:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu, 2017-2018



Mewn dwy o bob deg ysgol, ceir ymagweddau creadigol at ddylunio'r cwricwlwm, a chynlluniau gwaith dychmygus a phrosiectau cyfoethogi. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd difyr i ddisgyblion ddatblygu'u medrau ac archwilio'u creadigrwydd. Mae'r ysgolion hyn wedi datblygu egwyddorion arwain clir ar gyfer eu cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau â dysgu go iawn, profiadau uniongyrchol, a chyfleoedd ar gyfer ymchwilio a datrys problemau sy'n helpu i greu dysgwyr annibynnol a gwydn.

Fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2016-2017, mae'r mesurau perfformiad a'r newidiadau i'r fframwaith cymwysterau yn arwain at gyfyngu'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4. Mewn llawer o ysgolion, caiff disgyblion fwy o wersi yn y pynciau craidd, yn enwedig mathemateg, a llai o amser yn astudio pynciau eraill. Mewn ychydig o ysgolion, mae'r dewis o gyrsiau galwedigaethol wedi lleihau hefyd ac mae hyn yn effeithio ar briodoldeb y cwricwlwm sydd ar gael, yn enwedig i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Yn Ebrill 2018, cynhaliom arolwg thematig i ganfod effaith y mesur dysgu a sgiliau ar y disgyblion agored i niwed hyn (Estyn, 2018f). I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch yr **adroddiad**.

Mae ychydig o ysgolion yn gweithio'n dda gydag ysgolion cynradd partner i wneud yn siŵr bod darpariaeth y cwricwlwm yn adeiladu ar brofiadau a dysgu disgyblion pan fyddant yn trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Mae'r ysgolion hyn yn gwneud yn siŵr bod gan athrawon ddealltwriaeth glir o ansawdd gwaith a safonau a gyflawnwyd gan ddisgyblion yn eu hysgol gynradd, ac maent yn cynllunio'n dda ar gyfer dilyniant. Yn fwy arferol, mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn ailadrodd gwaith a wnaed yng nghyfnod allweddol 2 ac, o ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd bob amser wrth wella'u medrau a'u gwybodaeth.

Mewn hanner o ysgolion, caiff cynllunio effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion effaith gadarnhaol ar y safonau y maent yn eu cyflawni. Ym mhob ysgol bron, ceir trefniadau addas i gynorthwyo disgyblion â medrau gwan iawn. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu TGCh yn gynyddol ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol yn y rhan fwyaf o ysgolion. Yn aml, mae tasgau'n gyfyngedig i brosesu geiriau sylfaenol neu i gynhyrchu sioeau sleidiau lle mae disgyblion yn torri a gludo o wefannau.

Yn yr hanner arall o ysgolion, mae'r ddarpariaeth yn anghyson ar gyfer datblygu llythrennedd disgyblion, yn enwedig ysgrifennu, a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau yn gynyddol mewn cyd-destunau dilys. Y rheswm am hyn yn gyffredinol yw bod cydlynu a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y medrau hyn yn wan. O ganlyniad, nid oes dealltwriaeth gadarn gan athrawon o sut i wneud yn siŵr bod eu darpariaeth ar gyfer medrau yn briodol ac yn arwain at ddilyniant. Er enghraifft, mewn pynciau heblaw am Saesneg neu Gymraeg, nid yw'r hyn a ddisgwylir o ysgrifennu estynedig disgybl ym Mlwyddyn 9 yn wahanol i hynny a ddisgwylir ym Mlwyddyn 7. Mae tasgau rhifedd nad ydynt yn gofyn i ddisgyblion ddefnyddio'r medrau graff a ddysgont mewn gwersi mathemateg yn gyffredin. Dim ond ychydig o ysgolion sy'n gwneud yn siŵr bod athrawon yn gwybod digon am y safon y dylent ei disgwyl o fedrau disgyblion pan fyddant yn ymuno ym Mlwyddyn 7.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Saesneg wedi cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio cymwysterau iaith Cymraeg, ond ychydig iawn ohonynt sy'n cynllunio'n dda i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Nid yw ychydig o ysgolion cyfrwng Saesneg yn sicrhau bod disgyblion sy'n rhugl yn y Gymraeg yn ennill cymwysterau Cymraeg iaith gyntaf. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cofrestru bron pob disgybl ar gyfer TGAU Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ysgolion dwyieithog yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4.

## Ysgol Olchfa

Mae rheolwyr dysgu yn Ysgol Olchfa wedi creu cynlluniau gwaith sy'n canolbwyntio ar y meysydd allweddol a restrwyd yn 'Dyfodol Llwyddiannus'. Mae athrawon yn datblygu medrau craidd disgyblion trwy feysydd dysgu o'r enw iCommunicate, iCalculate, iDiscover, iThink, iCreate ac iThrive. Mae tîm o athrawon-ymchwilwyr wedi bod yn llywio arferion dysgu ac addysgu'r ysgol, gan sicrhau bod y dysgwyr wrth wraidd cynllunio ac arfarnu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Ysgol Bro Edern

Mae athrawon yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern yn hyfforddi i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau digidol diweddaraf i gynorthwyo disgyblion i ddefnyddio TGCh. Ar bob cyfle, mae dyfeisiau digidol yn cael eu defnyddio ar draws gwersi i ddatblygu gwybodaeth disgyblion. Mae hyn wedi arwain at safonau gwell ac mae athrawon yn rhannu'u harfer dda yn hyderus gydag ysgolion eraill.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Gofal, cymorth ac arweiniad

Mewn tri chwarter o ysgolion uwchradd, mae'r gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn cynnwys nodweddion cryf. Ceir ethos cadarnhaol, cynhwysol a gofalgar yn yr ysgolion hyn, ynghyd â diwylliant o barch sy'n cefnogi lles disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad personol. Mae trefniadau addas gan yr ysgolion hyn i fonitro cynnydd academaidd disgyblion a'u lles. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn defnyddio ystod o dystiolaeth i ddatblygu darlun cyflawn o bob disgybl. Defnyddiant y trefniadau hyn yn dda i ddathlu cyflawniad, yn ogystal â nodi tanberfformiad neu rwystrau rhag dysgu. Mae hyn yn eu galluogi i ymyrryd yn brydlon i fodloni anghenion disgyblion unigol. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai ag anawsterau emosiynol neu gymdeithasol yn cael cymorth da. Mae'r ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o bartneriaethau gydag asiantaethau eraill yn y gwaith hwn.

Mae aelodau'r staff yn y rhan fwyaf o ysgolion yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn addas drwy wasanaethau boreol, adegau cofrestru, a'u rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r trefniadau i hyrwyddo byw'n iach yn gadarn yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol a'r gymuned leol. Caiff y trefniadau hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau bywyd cymdeithasol a phersonol disgyblion.

Mewn rhyw dair o bob deg ysgol, ceir diwylliant o ddisgwyliadau uchel, ac mae ystyriaeth i eraill yn treiddio drwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn dysgu parchu gwerthoedd a chredoau pobl eraill, ac mae llawer ohonynt yn datblygu lefelau uchel iawn o hunanhyder. Ceir cyfleoedd helaeth i ddatblygu medrau disgyblion trwy gyfranogi mewn grwpiau polisi dan arweiniad disgyblion, gweithredu fel mentoriaid neu diwtoriaid ar gyfer disgyblion iau, neu wirfoddoli i arwain gweithgareddau yn y gymuned leol. Mae hyn yn effeithiol iawn o ran meithrin medrau disgyblion i wneud penderfyniadau a meithrin eu hunan-barch.

Ceir trefniadau addas ym mron pob ysgol i hyrwyddo lles disgyblion a'u diogelu rhag niwed. Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant yn y strategaethau 'Prevent', arferion recriwtio diogel, rheolaeth ofalus ar ddiogelwch safle a chymorth i helpu disgyblion i gadw'n ddiogel ar-lein.

### Ysgol y Preseli

Mae Ysgol y Preseli wedi edrych eto ar ei dehongliad o ddisgyblion mwy abl ac wedi diweddaru'i harferion i sicrhau ei bod yn ystyried anghenion unigol disgyblion. Mae arweinydd â chyfrifoldeb am ddisgyblion mwy abl a thalentog yn arwain sesiynau hyfforddi staff er mwyn sicrhau ymagwedd gyson ar draws yr ysgol.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

### Ysgol Uwchradd Tywyn

Mae staff yn Ysgol Uwchradd Tywyn wedi sefydlu canolfan gymorth ar gyfer disgyblion yn yr ysgol. Mae staff yn y ganolfan yn darparu amrywiaeth o gyrsiau arbenigol a phenodol yn ymwneud â lles er mwyn helpu disgyblion i ymdopi â'u hanawsterau. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau i helpu disgyblion i ddelio â materion fel rheoli dicter a phrofedigaeth. Ar ôl ymgymryd â chyrsiau, mae llawer o ddisgyblion wedi datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac wedi gwella eu medrau cymdeithasol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

**Ffigur 15:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, 2017-2018



# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth yn dda neu'n rhagorol yn hanner yr ysgolion uwchradd. Mae'n ddigonol ac angen gwelliant mewn pedair o bob deg ysgol, ac yn anfoddhaol mewn rhyw un o bob deg ysgol.

Mewn ysgolion ag arweinyddiaeth effeithiol, ceir gweledigaeth strategol glir sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth. Yn hanner yr ysgolion, mae dealltwriaeth glir gan arweinwyr o'u rôl ac maent yn cyflawni'u cyfrifoldebau yn dda. Maent yn rhannu'u disgwyliadau yn eang, mae ganddynt flaenoriaethau gwella uchelgeisiol, ac maent yn gwneud yn siŵr y caiff y rhain eu cyfleu'n llwyddiannus. Maent yn creu timau cryf ac yn cymell staff yn dda. Yn yr ychydig o achosion gorau un, mae ansawdd arweinyddiaeth ar bob lefel ar draws yr ysgol yn effeithiol iawn. Ceir penderfyniad ar y cyd i ddarparu addysgu o ansawdd uchel a lefelau lles rhagorol. O ganlyniad, yn yr ysgolion hyn, mae effaith gadarnhaol gynaledig ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn gwersi a thros gyfnod.

Yn hanner yr ysgolion, mae arweinyddiaeth yn anghyson. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, nid oes goruchwyliaeth na dealltwriaeth ddigon da gan arweinwyr o ansawdd yr addysgu nac effaith darpariaeth yn gyffredinol. Mewn ychydig o achosion, nid yw rolau a chyfrifoldebau yn addas nac wedi'u rhannu'n deg.

Mae cylch eglur o weithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant gan y rhan fwyaf o ysgolion. Mae tua hanner yr ysgolion yn gwneud defnydd da o ystod gynhwysfawr o dystiolaeth, gan gynnwys data perfformiad, arsylwadau o wersi, craffu ar waith a barnau disgyblion, rhieni a staff. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn galluogi arweinwyr i nodi blaenoriaethau strategol a monitro effaith darpariaeth yn ofalus. Yn hanner yr ysgolion lle ceir diffygion pwysig o ran yr agwedd hon, nid yw gweithgareddau arfarnu yn nodi agweddau pwysig y mae angen eu gwella yn ddigon clir. Er enghraifft, wrth edrych ar ddatblygiad medrau disgyblion, nid ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigon da i ansawdd y gwaith y mae disgyblion yn ei gynhyrchu na'r effaith a gaiff ansawdd addysgu ar ddatblygu medrau. Mewn rhyw hanner o'r ysgolion, nid yw arweinwyr yn defnyddio'r canfyddiadau o weithgareddau arfarnu yn ddigon da i lywio blaenoriaethau ar gyfer gwella. Er enghraifft, gallai gweithgarwch arfarnu awgrymu bod medrau holi gwan gan athrawon, ond nid oes unrhyw gynllun ar gyfer y modd yr eir i'r afael â hyn.


**Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf**

Mae arweinwyr ac athrawon yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yn ymroi i ddatblygu ansawdd addysgu trwy hyfforddiant, gan osod esiampl dda, a helpu disgyblion i gyflawni eu potensial llawn. Mae disgyblion yn datblygu'r medrau y mae eu hangen i fod yn llwyddiannus mewn byd sy'n newid yn gyson, a deall ymdeimlad o foesoldeb.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 16:**
Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, 2017-2018



Ym mron pob ysgol, ceir trefniadau addas i gynorthwyo dysgu proffesiynol staff addysgu. Mewn ychydig o ysgolion, mae hyn yn nodwedd gref. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn cyfranogi mewn gweithgareddau ymchwil gwerthfawr a chyd-gynllunio'r cwricwlwm, sy'n cefnogi addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Mae hyfforddiant yn cyfateb yn fanwl i anghenion datblygiad proffesiynol unigolion a meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr ysgol. Mae'r gweithgareddau hyfforddi yn effeithiol o ran datblygu a rhannu arfer dda, ac mewn llawer o achosion fe'u cefnogir yn dda gan bartneriaethau gyda darparwyr eraill, gan gynnwys prifysgolion. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw arweinwyr ac athrawon yn deall yr ymchwil y tu ôl i ymagweddau addysgu yn ddigon da i addasu'r rhain i'w cyd-destunau eu hunain. Nid yw arweinwyr yn mynd ar drywydd yr effaith a gaiff y dysgu proffesiynol hwn yn yr ystafell ddosbarth yn ddigon da. O ganlyniad, ychydig o effaith a gaiff y gwaith hwn ar ansawdd addysgu neu ar ddeilliannau disgyblion.

Mae diffyg yng nghyllideb dwy o bob pum ysgol a arolygwyd, ac mae diffyg sylweddol gan ychydig iawn o ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2018c). Yn gyffredinol, mae gwariant yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau strategol ac mae arweinwyr yn monitro cyllid yn ofalus. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'r adeiladau sydd ar gael i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae llawer o arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o gyllid grant. Er enghraifft, defnyddiant y grant datblygu disgyblion i ariannu gwaith anogwyr dysgu, sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at gynnydd a lles disgyblion sy'n agored i niwed.

### Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf

Mae staff yn Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yn gwrando ar argymhellion teuluoedd ynghylch dyfodol eu plant. Mae'r ysgol yn hunanwerthuso ei pherfformiad, ei rheolaeth, ei haddysgu a'i darpariaeth yn rheolaidd. Mae canolbwyntio ar gymorth disgyblion wedi codi safonau.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Uwchradd Castell Alun

Mae athrawon yn Ysgol Uwchradd Castell Alun wedi gweithio mewn timau i arfarnu addysgu gan edrych ar wahanol themâu fel rhan o raglen datblygiad proffesiynol parhaus ehangach yr ysgol. Mae ethos cydweithredol wedi cynhyrchu dysgu o ansawdd uchel yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Gweithgarwch dilynol: Ysgolion uwchradd


O'r 27 o ysgolion uwchradd a arolygwyd eleni, mae angen rhyw lefel o weithgarwch dilynol ar ychydig o dan eu hanner. Rhoddwyd naw ysgol yn y categori adolygu gan Estyn, mae angen gwelliant sylweddol ar ddwy ysgol ac mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn dwy ysgol.

Ar ddechrau tymor yr hydref, roedd 10 ysgol yn y categori mesurau arbennig. Tynnwyd chwech o'r ysgolion hyn o'r categori hwn yn dilyn ymweliad monitro. Cafodd dwy ysgol eu hymweliad cyntaf yn dilyn eu harolygiad craidd. Roedd yr ymweliadau hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod cynllun gweithredu ôl-arolygiad addas ar waith gan yr ysgolion. O'r ddwy ysgol arall, roedd un wedi gwneud cynnydd annigonol yn erbyn yr argymhellion ac mae'n parhau yn y categori mesurau arbennig, tra bod y llall wedi cau ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Mewn ysgolion yn y categori mesurau arbennig, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn cael digon o effaith ar ddeilliannau disgyblion. Yn benodol, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar y graddau y caiff yr addysgu effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd ac ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu.

Roedd angen gwelliant sylweddol ar 12 o ysgolion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Cynhaliodd Estyn ymweliadau i fonitro cynnydd deg o'r ysgolion hyn. Roedd pedair wedi gwneud digon o gynnydd i gael eu tynnu o'r categori hwn. Cynnydd cyfyngedig yr oedd un ysgol wedi'i wneud yn erbyn ei hargymhellion, a barnwyd bod angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddi. Roedd tair ysgol wedi gwneud cynnydd yn erbyn argymhellion eu harolygiad craidd, ond nid digon o gynnydd i'w tynnu o'r categori hwn. Gan y gwnaed newidiadau sylweddol i'r arweinyddiaeth yn yr ysgolion hyn yn ddiweddar, penderfynwyd y dylent aros yn y categori hwn am ryw chwe mis arall. Yn ogystal, ymwelodd Estyn â'r ddwy ysgol y barnwyd bod angen gwelliant sylweddol arnynt yn ystod 2017-2018 er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad yn addas ac yn debygol o sicrhau'r gwelliannau gofynnol.

Ym mis Tachwedd, fe wnaethom adolygu cynnydd yr 19 o ysgolion yn y categori adolygu gan Estyn (monitro gan Estyn yn flaenorol). Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys arfarnu'r adroddiadau cynnydd a gyflwynwyd gan yr ysgolion hyn a'u hawdurdodau lleol, yn ogystal â dadansoddiad o ddeilliannau cyfnod allweddol 4 ers adeg yr arolygiad craidd. Yn dilyn yr adolygiad, barnwyd bod naw o'r ysgolion hyn wedi gwneud digon o gynnydd ac nad oedd angen monitro pellach gan Estyn arnynt felly. O'r ysgolion sy'n weddill, mae pump ohonynt yn y categori adolygu gan Estyn o hyd.

**Ffigur 17:**
Ysgolion uwchradd a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2017-2018



Cafodd y pum ysgol arall ymweliad monitro. Barnwyd bod un ysgol wedi gwneud digon o gynnydd a chafodd ei thynnu o'r rhestr o ysgolion y mae angen eu hadolygu gan Estyn. Nid oedd dwy ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn yr argymhellion o'u harolygiadau craidd, barnwyd bod angen gwelliant sylweddol ar un ysgol, a rhoddwyd y llall yn y categori mesurau arbennig. Yn y ddau achos arall, barnodd arolygwyr y dylai'r ysgolion aros yn y categori adolygu gan Estyn a chael ymweliadau monitro ychwanegol.

Ar ddiwedd y flwyddyn hon, mae saith o ysgolion yn y categori mesurau arbennig, mae angen gwelliant sylweddol ar 10 ysgol, ac mae 17 o ysgolion yn y categori adolygu gan Estyn.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

[redacted]

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Ysgolion pob oed a gynhelir

Mae ysgolion pob oed yn darparu addysg i ddisgyblion o dair neu bedair oed tan iddynt gyrraedd 16 neu 18 oed. Yn Ionawr 2018, roedd 13 o ysgolion pob oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2018a). Mae hyn dair yn fwy nag yn Ionawr 2017. Mae'r sector yn parhau i dyfu gyda chynlluniau i agor saith ysgol arall yn y ddwy flynedd nesaf. Mae'r sector yn amrywiol. Ceir niferoedd gwahanol o safleoedd ac ystodau oedran gwahanol o ddisgyblion mewn ysgolion pob oed. Fe'u lleolir mewn lleoliadau gwledig a threfol a cheir ysgolion pob oed cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.


Eleni, arolygodd Estyn dair ysgol pob oed a gynhelir. Mae'r ysgolion yn amrywio o dros 1,600 o ddisgyblion ar bedwar safle i lai na 400 o ddisgyblion ar dri safle. Mae pob un o'r ysgolion yn derbyn disgyblion i Flwyddyn 7 o ysgolion cynradd partner eraill. Mae dwy ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion o 3 i 16 oed, ac mae un ysgol yn addysgu disgyblion o 3 i 18 oed. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Safonau

Mewn un ysgol pob oed a arolygwyd eleni, ceir safonau da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd academaidd a chymdeithasol cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol hon. Maent yn cofio dysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn adeiladu arno'n dda. Mae medrau cyfathrebu cadarn gan lawer o ddisgyblion. Maent yn mynegi'u hunain yn glir gan ddefnyddio geirfa estynedig a chystrawennau cywir. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn y cyfnod uwchradd yn dangos medrau creadigol cryf wrth ysgrifennu. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifyddol da ac yn eu cymhwyso'n gywir.

Mewn dwy ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth iddynt symud drwy'r cyfnod cynradd, ond mae cynnydd disgyblion yn y cyfnod uwchradd yn wannach. Gwneir cynnydd priodol gan fwyafrif o ddisgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Nid yw disgyblion yn y cyfnod uwchradd yn cymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm.

**Ffigur 18:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer safonau, 2017-2018




# Lles ac agweddau at ddysgu

Mewn dwy o'r ysgolion pob oed a arolygwyd, mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda. Yn yr ysgolion hyn, mae agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn dangos cymhelliant yn eu gwaith ac yn ymgymryd yn ddiwyd â'u tasgau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad llawer o ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhyngbersonol cryf yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae disgyblion ar y cynghorau ysgol yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif a chânt ddylanwad cadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi mewn ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu a gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan yr ysgol, ac yn eu mwynhau.

Yn yr ysgol arall, nid yw'r cryfderau yng nghyfnod cynradd yr ysgol i'w gweld yn y cyfnod uwchradd. Mae bron yr holl ddisgyblion yn y cyfnod cynradd yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais i oedolion a'i gilydd. Maent yn ddysgwyr hyderus, gwydn ac annibynnol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o beth i'w wneud pan fyddant yn gweld gwaith yn anodd. Mae disgyblion y cyfnod uwchradd yn dibynnu gormod ar arweiniad gan athrawon ac nid ydynt yn datblygu'n ddigon da fel dysgwyr annibynnol. Caiff ymddygiad gwael ychydig o ddisgyblion uwchradd effaith niweidiol ar ddysgu a lles disgyblion eraill.

**Ffigur 19:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu, 2017-2018




# Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda yn un o'r ysgolion pob oed a arolygwyd. Mae'r ysgol hon yn darparu profiadau ysgogol a diddorol sy'n cymell ac yn herio disgyblion o bob oed. Mae athrawon o'r cyfnod uwchradd yn gweithio'n effeithiol gyda'r ysgolion cynradd i sicrhau bod y cwricwlwm uwchradd yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae agwedd arloesol ac arbrofol gan yr ysgol o ran datblygu'r cwricwlwm i ddarparu profiadau ysgogol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau trefnu a'u medrau creadigol, er enghraifft trwy herio disgyblion Blwyddyn 8 i drefnu a chynnal diwrnod chwaraeon ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4. Mae athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio da gyda disgyblion ac yn datblygu cynlluniau manwl i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyson. Mae athrawon yn darparu esboniadau diddorol i ehangu gwybodaeth bynciol disgyblion. Mae llawer o athrawon yn holi disgyblion yn fedrus i'w hysgogi i ymestyn eu hymatebion. Maent hefyd yn darparu sylwadau defnyddiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith ac yn rhoi tasgau cefnogol iddynt er mwyn gwella agweddau penodol.

Lle mae ansawdd yr addysgu yn wannach, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon pwrpasol nac yn teilwra gweithgareddau'n ddigon medrus i fodloni anghenion disgyblion ar draws yr ystod galluoedd. Nid yw athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion. Mae eu sylwadau'n rhy arwynebol a chanmoliaethus, ac nid ydynt yn rhoi digon o gyngor i ddisgyblion na chyfleoedd rheolaidd iddynt wella eu gwaith. Nid yw athrawon, yn enwedig yn y cyfnod uwchradd, yn cynnig her addas i ddisgyblion ac nid ydynt yn helpu disgyblion i ddatblygu'u medrau a'u dealltwriaeth yn ddigon da. Ym Mehefin 2018, cyhoeddom arolwg gydag astudiaethau achos sy'n disgrifio sut mae ysgolion yn gwella ansawdd addysgu (Estyn, 2018b). I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad**.

**Ffigur 20:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu, 2017-2018




# Gofal, cymorth ac arweiniad

Mewn dwy o'r ysgolion pob oed a arolygwyd, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda. Mae ymdeimlad cryf o gymuned ac awyrgylch cartrefol yn yr ysgolion hyn sy'n cyfrannu at agwedd disgyblion at eu dysgu a'u lles. Mae athrawon yn cynllunio ac yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn darparu'n effeithiol ar gyfer anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion sy'n agored i niwed. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn eithriadol o dda ac yn trin eu cyfoedion ac eraill gyda pharch a gofal. Mae aelodau staff yn dathlu llwyddiannau disgyblion yn effeithiol, er enghraifft trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn modd cadarnhaol. Mae'r ysgolion yn darparu llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol a gweithgareddau diwylliannol i'w datblygu fel dinasyddion cyflawn.

Mewn un ysgol, ceir trefniadau gwan yn y cyfnod uwchradd i olrhain cynnydd disgyblion a defnyddio'r wybodaeth. Nid yw prosesau i fonitro a gwella ymddygiad disgyblion yn y cyfnod uwchradd yn ddigon effeithiol. Nid yw staff yn cymhwyso polisi ymddygiad yr ysgol yn gyson a chaiff hyn effaith niweidiol ar ddysgu disgyblion.

**Ffigur 21:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, 2017-2018




**Crynodebau sector: Ysgolion pob oed a gynhelir**

# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn amrywio ar draws y sector. Yn yr ysgolion a arolygwyd eleni, mae arweinyddiaeth yn dda mewn un ysgol. Mae'n ddigonol ac angen gwelliant mewn ysgol arall, ac yn anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys yn y drydedd ysgol. Lle ceir arweinyddiaeth a rheolaeth dda, mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel. Maent yn sicrhau bod athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion a bod ansawdd yr addysgu yn gyson dda. Mae arweinwyr yn rheoli newid yn llwyddiannus ac yn cynorthwyo athrawon a staff eraill i arbrofi ac arloesi. Mae gan yr ysgol gylch o brosesau hunanwerthuso a monitro ansawdd trylwyr, sefydledig. Mae arweinwyr yn ymateb yn dda i anghenion datblygu staff unigol.

Ceir diffygion yn yr arweinyddiaeth mewn dwy o'r tair ysgol a arolygwyd. Lle ceir diffygion pwysig, nid yw arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r gwendidau yn yr ysgol yn ddigon da ac nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella darpariaeth a safonau. Mae ansawdd ac effaith arweinyddiaeth yn amrywio gormod, ac mae arweinyddiaeth ar bob lefel yn y cyfnod uwchradd yn aneffeithiol. Nid oes dealltwriaeth glir gan arweinwyr o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac nid ydynt yn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n ddigon da ar y cynnydd a wnânt yn ystod y cyfnod cynradd.

**Ffigur 22:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, 2017-2018



# Gweithgarwch dilynol:
## Ysgolion pob oed a gynhelir a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2017-2018

Mae angen gweithgarwch dilynol mewn dwy ysgol pob oed, un ohonynt drwy adolygu gan Estyn, ac mae angen gwelliant sylweddol ar y llall. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom dynnu un ysgol a arolygwyd yn y cylch arolygu blaenorol o'r categori adolygu gan Estyn. Gwnaeth ysgol arall ddigon o welliant ac nid oes angen gwelliant sylweddol arni mwyach.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn Ionawr 2018, roedd 41 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru, sef dwy yn fwy nag yn 2017. Mae tair ysgol wedi ffedereiddio i ddod yn un ysgol. Mae'r ysgolion yn darparu ar gyfer disgyblion ag ystod o anghenion, gan gynnwys anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig a gynhelir yn parhau i gynyddu. Yn Ionawr 2018, 4,831 oedd nifer y disgyblion mewn ysgolion arbennig ledled Cymru, o gymharu â 4,727 y llynedd (Llywodraeth Cymru, 2018a).


Eleni, fe wnaethom arolygu pedair o ysgolion arbennig a gynhelir. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Safonau

Mewn tair o'r pedair ysgol, mae safonau'n dda neu'n well. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn perthynas â'u hanghenion, eu galluoedd a'u cyrhaeddiad blaenorol. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o gryf yn eu medrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd ac maent yn cymhwyso'r rhain yn llwyddiannus yn y gymuned. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau meddwl yn dda i ddatrys problemau a chynllunio gweithgareddau i gefnogi'u hannibyniaeth gynyddol. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae bron yr holl ddisgyblion yn ennill ystod addas o gymwysterau neu unedau credyd mewn cyrsiau sy'n cyfateb yn dda i'w hanghenion a'u galluoedd. Mae bron pob disgybl yn symud ymlaen i goleg, hyfforddiant pellach neu leoliad addas.

Lle mae angen gwella safonau, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn ddigon da ar draws y cwricwlwm a gwnânt gynnydd cyfyngedig a wnânt o ran cyflawni'u targedau addysg neu ymddygiad unigol. Yn Ebrill 2018, cynhaliom arolwg thematig i ganfod effaith y mesur dysgu a sgiliau ar ddisgyblion sy'n agored i niwed (Estyn, 2018f). I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch yr **adroddiad**.

**Ffigur 23:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer safonau, 2017-2018




# Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well mewn tair o'r pedair ysgol, ac yn ddigonol yn y llall. Lle mae lles ac agweddau at ddysgu yn gadarn, mae disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu ac yn magu hyder. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos parch i'w hathrawon, ymwelwyr a'i gilydd. Un nodwedd allweddol o'r ysgolion hyn yw agwedd gadarnhaol disgyblion at ddatblygu'u medrau cymdeithasol trwy weithio ar brosiectau yn y gymuned ehangach. Er enghraifft, maent yn gwirfoddoli i weithio mewn canolfannau cymunedol lleol, yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn prosiectau menter ac yn codi arian at elusennau cenedlaethol.

Lle mae angen gwella lles ac agweddau at ddysgu, mae agweddau gwael tuag at eu dysgu gan ormod o ddisgyblion. Gwnânt gynnydd araf wrth reoli'u hymddygiad ac maent yn gadael gwersi yn gynnar heb gwblhau gwaith. Caiff lefelau ymgysylltu gwael effaith niweidiol ar eu dysgu eu hunain ac maent yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill.

**Ffigur 24:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu, 2017-2018




# Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae bron yr holl staff mewn ysgolion arbennig yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion ac yn creu amgylcheddau dysgu ysgogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a lle gallant ffynnu. Mae dwy o'r pedair ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol sy'n berthnasol i anghenion disgyblion. Mae staff yn defnyddio'u gwybodaeth gadarn am y disgyblion i gynllunio cyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol, gan gynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'u medrau cymdeithasol yn y gymuned. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn gweithio'n dda â'i gilydd i deilwra profiadau dysgu'n ofalus at anghenion, diddordebau a galluoedd penodol y disgyblion. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgolion hyn, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n dda ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Un nodwedd allweddol o'r ysgolion hyn yw'r ffocws cryf ar draws y cwricwlwm ar wella medrau cyfathrebu disgyblion. Mae staff a therapyddion yn gweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu technoleg a therapi arbenigol, fel technoleg llygad-syllu a switshis sy'n gweithio yn ôl y llais. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu mwy o annibyniaeth ac yn darparu cyfle gwell iddynt fanteisio ar y cwricwlwm. Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i alluogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso'u medrau yn llwyddiannus ar draws ystod o gyd-destunau. Defnyddir techneg holi yn dda gan athrawon i sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu, i wirio'u dealltwriaeth a datblygu'u medrau meddwl a'u creadigrwydd.

Mewn ysgolion lle mae addysgu a phrofiadau dysgu yn wannach, nid yw llwybrau dysgu yn ddigon amrywiol ac nid ydynt yn bodloni anghenion a dyheadau'r holl ddisgyblion, yn enwedig y rheini yng nghyfnod allweddol 4. Lle mae angen gwella'r addysgu, mae rhediad gwersi yn rhy araf ac nid yw tasgau dysgu yn ddigon heriol. Mae'r diffygion hyn yn yr addysgu ac ehangder ac addasrwydd y cwricwlwm yn golygu bod disgyblion yn ymddieithrio oddi wrth ddysgu, maent yn rhy oddefol ac nid ydynt yn cyflawni gystal ag y gallent.

**Ffigur 25:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu, 2017-2018



# Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae tair o'r pedair ysgol yn cynnig darpariaeth gadarn ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn creu amgylcheddau anogol a thawel lle mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol amdanyn nhw eu hunain ac eraill. Mae arweinwyr ac athrawon yn ffurfio partneriaethau cryf gyda rhieni ac asiantaethau arbenigol sy'n gwneud cyfraniad pwysig at lawer o agweddau ar les disgyblion. Mae aelodau staff yn darparu cymorth gwerthfawr i rieni i ehangu dysgu y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, ac i sicrhau ymagwedd gyson at fodloni anghenion lles disgyblion ar y penwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Er enghraifft, maent yn rhannu cynlluniau unigol manwl gyda rhieni sy'n nodi targedau penodol, ac yn darparu hyfforddiant i rieni mewn strategaethau a ddefnyddir yn yr ysgol. Ceir gweithdrefnau cadarn ar gyfer nodi anghenion disgyblion ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r rhain yn helpu staff i gynllunio ymyriadau llwyddiannus sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda.

Lle mae angen gwella gofal, cymorth ac arweiniad, mae staff yn anghyson o ran cymhwyso gweithdrefnau'r ysgol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a gwella ymgysylltiad disgyblion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth reoli'u hymddygiad ac maent yn colli gormod o addysg. Nid yw trefniadau i osod targedau disgyblion sy'n ymwneud â'u hanghenion dynodedig ac i olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn ddigon cadarn.

## Ysgol y Gogarth

Roedd Ysgol y Gogarth yn allweddol o ran sefydlu grŵp amlddisgyblaethol sydd â'r nod o wella trefniadau pontio disgyblion rhwng yr ysgol ac addysg bellach.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence


## Ysgol y Gogarth

Bu Ysgol y Gogarth yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu dull o gefnogi ymddygiad sy'n seiliedig ar athrawon, dadansoddwyr ymddygiad a gweithwyr proffesiynol eraill yn gweithio'n agos gyda'i gilydd. Y nod yw addysgu disgyblion ynglŷn â'r medrau sydd eu hangen arnynt i gyrraedd eu llawn botensial a lleihau rhwystrau rhag dysgu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 26:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, 2017-2018



# Arweinyddiaeth a rheolaeth


Mewn dwy o'r pedair ysgol, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Maent yn hyderus wrth arloesi gyda'r cwricwlwm mewn dull gwybodus ac yn creu cymunedau dysgu bywiog sy'n canolbwyntio'n dda ar wella deilliannau disgyblion.

Mae dysgu proffesiynol yn gryfder yn yr ysgolion hyn. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff gyfnewid gwybodaeth gyda chymheiriaid mewn ysgolion eraill trwy rwydweithiau a chydweithio rhwng ysgolion. Mae arweinwyr yn meithrin partneriaethau strategol cryf gydag ysgolion a cholegau eraill, sy'n helpu i gyfoethogi'r cwricwlwm a chynorthwyo trefniadau pontio disgyblion i leoliadau addas pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Mae arweinwyr yn gwybod beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella yn dda. Mae ganddynt gylch clir o weithgareddau sicrhau ansawdd a gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod gynhwysfawr o dystiolaeth, gan gynnwys data perfformiad, arsylwadau o wersi a chraffu ar waith disgyblion. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i farnau disgyblion, rhieni a staff.

Yn yr ysgolion lle mae angen gwella'r arweinyddiaeth, ceir timau newydd eu sefydlu sy'n dechrau cael effaith ar wella eu hysgolion. Mae arweinwyr yn darparu cymorth cadarn ar gyfer gweithrediad yr ysgol o ddydd i ddydd, ond nid ydynt yn cynllunio'n strategol yn ddigon da i fynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol. Nid oes digon o gyfleoedd i staff arsylwi ar arfer dda yn eu hysgol eu hunain ac mewn ysgolion tebyg eraill.

**Ffigur 27:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, 2017-2018



# Gweithgarwch dilynol:
# Ysgolion arbennig a gynhelir

Eleni, fe nodom un ysgol y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddi er mwyn gwella. Ymwelom â phum ysgol yr oedd angen monitro ychwanegol arnynt. Roedd pob un o'r ysgolion hyn wedi gwneud cynnydd da ac nid oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt mwyach. Ymatebodd yr ysgolion hyn yn dda i'r cymorth a ddarparwyd gan eu hawdurdodau lleol a phartneriaid gwella. Ym mhob ysgol, mae rôl uwch arweinwyr yn gryfach ac mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithgareddau gwella ysgol yn canolbwyntio'n glir ar wella deilliannau disgyblion.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

**Ffigur 28:**
Ysgolion arbennig a gynhelir a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2017-2018



PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Ysgolion arbennig annibynnol

Yn Ionawr 2018, roedd 32 o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru, un yn fwy nag yn Ionawr 2017. Agorodd dwy ysgol arall rhwng Ionawr ac Awst 2018. Mae ysgolion arbennig annibynnol yn addysgu disgyblion o 3 i 19 oed ag ystod o anghenion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae llawer o'r ysgolion yn rhai bach ac mae disgyblion fel arfer yn byw mewn cartrefi plant sydd ynghlwm wrth yr ysgolion. Mewn ysgolion lle ceir llai na chwe disgybl, rydym yn adrodd ar y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn unig, er mwyn osgoi adnabod disgyblion unigol. Eleni, fe wnaethom arolygu chwech o ysgolion arbennig annibynnol ac adroddom ar safonau a lles disgyblion mewn pedair o'r rhain.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn, rydym yn cynnal arolygiadau monitro rheolaidd o ysgolion arbennig annibynnol, bob rhyw 12 i 18 mis fel arfer. Eleni, cynhaliom ymweliadau monitro â 18 o ysgolion. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau ac ymweliadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn arolygiadau o ysgolion arbennig annibynnol, rydym yn barnu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003).

Roedd dwy o'r chwe ysgol arbennig annibynnol a arolygwyd, a rhyw dri chwarter o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, yn cydymffurfio â holl Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Fe wnaeth pedair o'r chwe ysgol a arolygwyd a rhyw chwarter yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro fethu un neu fwy o'r safonau. Yn y rhan fwyaf o achosion, methodd yr ysgolion hyn gydymffurfio â Safon 1, sef ansawdd yr addysg a ddarperir. Mae cynlluniau cwricwlwm a chynlluniau gwaith yn wan, ac nid yw profiadau dysgu yn cyfateb yn dda i anghenion disgyblion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Hefyd, fe wnaeth bron pob un o'r ysgolion hyn fethu cydymffurfio â Safon 3, sef lles, iechyd a diogelwch disgyblion. Mewn llawer o achosion, y rheswm am hyn yw bod polisïau'n ymwneud â hyrwyddo ymddygiad da, cymorth cyntaf ac ymweliadau addysgol yn methu darparu arweiniad digon clir i'r staff.

Eleni, cynhaliom dri ymweliad â ffocws ag ysgolion arbennig annibynnol mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion. Roedd yn ofynnol i ysgolion nad oeddent yn bodloni rheoliadau'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion gyflwyno cynllun i Lywodraeth Cymru yn dangos sut byddant yn gwneud y gwelliannau gofynnol.

# Safonau


Yn y pedair ysgol arbennig annibynnol lle barnom ddeilliannau ar gyfer disgyblion, mae safonau'n dda mewn un ysgol ac yn ddigonol ag angen gwelliant mewn tair ysgol. Lle mae safonau'n dda, mae disgyblion yn dysgu rheoli'u pryderon yn llwyddiannus a gwnânt gynnydd cryf wrth ddatblygu medrau cyfathrebu a medrau cymdeithasol perthnasol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau meddwl a datrys problemau yn dda. Er enghraifft, maent yn cynllunio ac yn paratoi'u prydau bwyd eu hunain neu'n cymhwyso'r medrau a ddysgant yn yr ysgol i leoliadau profiad gwaith yn y gymuned. Mae hyn yn eu helpu i ddod yn fwy annibynnol yn eu bywydau bob dydd.

Mewn ysgolion lle ceir safonau digonol, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn ymgysylltu â dysgu. Cynnydd cyfyngedig a wneir gan ddisgyblion wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth. Nid ydynt yn defnyddio'r medrau hyn yn ddigon rheolaidd mewn sefyllfaoedd go iawn ac mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.


# Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda mewn un ysgol, yn ddigonol mewn dwy ac yn anfoddhaol yn y bedwaredd ysgol. Lle mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu. Mae disgyblion yn datblygu lefelau uchel o ymddiriedaeth mewn staff, ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu'u hyder a'u hunanbarch. Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, mae disgyblion yn dysgu rheoli'u hymddygiad yn llwyddiannus mewn perthynas â'u hanghenion unigol. Mae hyn yn eu helpu i ymgysylltu'n dda â gwersi ac adeiladu'u medrau cymdeithasol a hunanhyder. Mewn tair o'r pedair ysgol, mae gormod o ddisgyblion yn gwneud cynnydd araf wrth reoli'u hymddygiad ac nid ydynt yn ymgysylltu'n dda â dysgu. Nid ydynt yn ymateb yn dda i gymorth staff ac maent yn gadael gwersi yn gynnar heb gwblhau tasgau.

**Ffigur 29:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer safonau, 2017-2018




**Ffigur 30:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer lles ag agweddau at ddysgu, 2017-2018




# Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae ansawdd ac ystod profiadau dysgu yn amrywio gryn dipyn rhwng ysgolion. Mewn traean o'r ysgolion a arolygwyd ac mewn tri chwarter o'r ysgolion a gafodd eu monitro, mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda. Mae athrawon yn teilwra'r cwricwlwm yn dda i fodloni anghenion disgyblion unigol, ac maent yn darparu amrywiaeth addas o weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda. Mae prosiectau cyfoethogi yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu ac ehangu'u medrau yn y gymuned. Mae disgwyliadau uchel gan athrawon o ymddygiad a chynnydd disgyblion. Cyflwynant wersi diddorol ac ysgogol sy'n helpu disgyblion i ddatblygu'u medrau meddwl a'u medrau datrys problemau.

Mewn dwy ran o dair o ysgolion a arolygwyd ac mewn chwarter o'r ysgolion a gafodd eu monitro, mae angen gwella'r addysgu a phrofiadau dysgu. Yn yr ysgolion hyn, mae'r cwricwlwm yn rhy gul ac ychydig o gyfleoedd sydd i ddisgyblion ddilyn cyrsiau achrededig neu i fynd i golegau addysg bellach a chael profiadau dysgu yn y gymuned. Lle mae angen gwella'r addysgu, ceir diffyg her yn y gweithgareddau dysgu y mae athrawon yn eu gosod. Mae athrawon yn dibynnu gormod ar ystod gyfyngedig o ddulliau addysgu, fel defnyddio taflenni gwaith. Mae staff addysgu a staff cymorth yn anghyson yn eu hymateb i ymddygiad gwael. Ceir newidiadau mynych yn y staff addysgu yn yr ysgolion hyn, ac mae diffyg parhad a chydlyniant wrth gynllunio'r cwricwlwm. Nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd araf wrth ddatblygu'r medrau hyn.

**Ffigur 31:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu, 2017-2018



# Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad disgyblion yn dda neu'n rhagorol mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd.  Mae'n nodwedd gref mewn tri chwarter o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn gwybod beth yw anghenion a galluoedd eu disgyblion yn dda.  Maent yn ffurfio timau amlddisgyblaethol effeithiol iawn ac yn cynllunio profiadau dysgu sy'n cyfateb yn dda i anghenion a diddordebau penodol disgyblion.  Mae staff addysgu a staff cymorth yn rhoi ymyriadau ar waith i gefnogi anghenion dynodedig disgyblion yn llwyddiannus.  Maent yn meithrin partneriaethau cryf gyda rhieni a gofalwyr i ehangu cyfleoedd dysgu y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.

Mewn pedair o'r ysgolion, mae angen gwella'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad.  Yn yr ysgolion hyn, nid yw'r trefniadau i staff olrhain a monitro cynnydd disgyblion wrth ddatblygu'u medrau ar draws y cwricwlwm yn ddigon cadarn.  Mae staff yn anghyson wrth gymhwyso gweithdrefnau ar gyfer gosod targedau, rheoli ymddygiad heriol ac absenoliaeth.  Nid oes systemau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad da gan ddwy o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro.  O ganlyniad, nid yw disgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd.


**Ysgol Aran Hall**

Mae'r ysgol yn gweithredu rhaglen wobrau a ddatblygwyd yn yr Unol Daleithiau i wella ymddygiad gwael nifer fach o ddisgyblion. Mireiniodd uwch arweinwyr yn Aran Hall y rhaglen fel y gallai staff ei rhoi ar waith yn llwyddiannus ar draws lleoliadau addysg a phreswyl.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES
[redacted]

**Ffigur 32:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, 2017-2018



# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae bron yr holl ysgolion arbennig annibynnol yn darparu addysg i ddisgyblion sy'n byw mewn cartrefi plant cysylltiedig. Un nodwedd gref yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yw'r cydweithio llwyddiannus rhwng staff addysg a staff gofal. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm ac maent yn teimlo'n esmwyth yn gofyn am gyngor oddi wrth ei gilydd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth ac arweiniad cyson.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn elwa o gael cymorth cydweithwyr yn eu sefydliad sy'n helpu i sicrhau ansawdd safonau a darpariaeth. Mae arweinwyr yn hyderus ac yn ymgysylltu'n briodol â darparwyr eraill i nodi arfer dda sy'n cryfhau'u gwaith nhw ac yn fuddiol i'w disgyblion. Yn yr ysgolion hyn ac mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac yn creu ethos cadarnhaol ac anogol sy'n cefnogi anghenion disgyblion yn effeithiol.

Mewn pedair o'r ysgolion a arolygwyd, mae angen gwella'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Yn yr ysgolion hyn, ac mewn ychydig dros hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, nid yw gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n ddigon da ar godi safonau disgyblion. Nid yw cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol yn rhoi digon o bwyslais ar wella ansawdd addysgu a dysgu. Mae trefniadau i staff ddysgu gan gymheiriaid mewn ysgolion eraill drwy rwydweithiau a chydweithio rhwng ysgolion yn wan.

Mewn rhyw chwarter o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw eleni ar gyfer arolygiadau craidd ac ymweliadau monitro, bu tarfu sylweddol ar yr addysgu a'r dysgu oherwydd newidiadau yn yr uwch arweinyddiaeth. Caiff hyn effaith niweidiol ar agweddau pwysig ar gynnydd a lles disgyblion.

**Tŷ Bronllys**

Mae cydweithio effeithiol iawn rhwng y timau addysg, preswyl ac amlddisgyblaethol yn cefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion unigol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

**Ffigur 33:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, 2017-2018




PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Yn Ionawr 2018, roedd 35 o ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru. Mae'r ysgolion hyn yn addysgu bron i 10,000 o ddisgyblion. Mae hyn yn cyfrif am ryw 2% o ddisgyblion yng Nghymru. Eleni, fe wnaethom arolygu chwech o ysgolion prif ffrwd annibynnol. Mae tair o'r rhain yn ysgolion pob oed, mae un yn addysgu disgyblion rhwng 7 a 18 oed, ac mae dwy ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion 3 i 11 oed. Mae'r sampl hon yn adlewyrchu amrywiaeth yr ysgolion yn y sector. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn ysgolion annibynnol, rydym yn arolygu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003). Eleni, llwyddodd pump o'r chwe ysgol a arolygwyd i fodloni pob un o'r rheoliadau. Mewn un ysgol, nodom ddiffygion o ran cydymffurfio ag ychydig o reoliadau'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion a chyflwr yr adeiladau. Byddwn yn monitro'r ysgol hon i wneud yn siŵr ei bod wedi gwneud y gwelliannau sy'n ofynnol i gynnal ei chofrestriad.


Fe wnaethom gwblhau pedwar ymweliad â ffocws eleni. Ym mhob achos, y rheswm dros yr ymweliad oedd pryderon ynglŷn â chydymffurfiaeth yr ysgol â rheoliadau'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â gwiriadau diogelwch ar gyfer adeiladau. Lle nad oedd ysgolion yn bodloni'r rheoliadau, roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno cynllun i Lywodraeth Cymru i ddangos sut byddant yn gwneud y gwelliannau gofynnol.

# Safonau

Yn yr ysgolion annibynnol a arolygwyd eleni, mae safonau'n dda neu'n well.

Ceir nodweddion rhagorol yn y safonau yn hanner yr ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn eithriadol o dda ac yn cymhwyso'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn llwyddiannus i gyd-destunau newydd. Maent yn ddysgwyr hyderus a huawdl. Yn aml, mae trafodaethau yn yr ystafell ddosbarth yn procio'r meddwl ac yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol, er enghraifft pan fydd disgyblion Blwyddyn 10 yn egluro'u barnau ynghylch 'Pam oedd Hitler eisiau'r Sudetenland'. Mae disgyblion yn darllen yn rhugl ac yn frwdfrydig, ac mae disgyblion iau yn deall pwysigrwydd datblygu'u medrau darllen. Gwneir cynnydd cryf gan ddisgyblion wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu ac mae disgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa ddatblygedig a llawn mynegiant i ennyn diddordeb y darllenydd. Mae disgyblion yn datblygu medrau mathemategol cadarn ac yn cymhwyso'r rhain yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau priodol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn datgodio hafaliadau algebraidd i greu drysfa. Yn yr ysgolion eraill, nid yw disgyblion bob amser yn defnyddio'u medrau rhifedd a llythrennedd i'r un safon mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

**Ffigur 34:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer safonau, 2017-2018



# Wellbeing and attitudes to learning

Yn yr holl ysgolion a arolygwyd eleni, mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well. Ceir nodweddion rhagorol yn hanner yr ysgolion. Mae disgyblion yn llawn cymhelliant ac yn arddangos agweddau hynod gadarnhaol tuag at eu dysgu. Dangosant lefelau uchel o chwilfrydedd ac maent yn ddysgwyr hyderus a gwydn, yn enwedig wrth weithio'n annibynnol. Mae disgyblion â rolau arwain yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac maent yn falch o'u safleoedd.


Mae'r ystod gynhwysfawr o weithgareddau cyd-gwricwlaidd y mae disgyblion yn eu mynychu'n rheolaidd yn cryfhau ac yn ymestyn dysgu a medrau bywyd disgyblion gryn dipyn. Er enghraifft, maent yn ymarfer eu medrau goroesi 'byw yn y gwyllt' ac yn golygu cylchlythyr yr ysgol yn y clwb newyddiadurwyr ifanc. Caiff y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol ac emosiynol disgyblion ac maent yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarn.

Yn hanner yr ysgolion, mae ychydig o ddisgyblion yn dibynnu'n rhy drwm ar yr athro i gynorthwyo â'u dysgu, neu fe gânt gyfleoedd cyfyngedig iawn i ddatblygu'u rolau arwain a dylanwadu ar waith yr ysgol.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

[redacted]

**Ffigur 35:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu, 2017-2018




# Addysgu a phrofiadau dysgu

Mewn pump o'r ysgolion, mae addysgu a phrofiadau dysgu'n dda neu'n well, gyda nodweddion rhagorol mewn traean o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm ysgogol a deniadol sy'n adeiladu'n gynyddol ar ddatblygiad medrau a gwybodaeth disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael eu cyfareddu gan eu dysgu ac maent yn cynnal eu diddordeb a'u canolbwyntio. Mae cyfleoedd cyd-gwricwlaidd sydd wedi'u cynllunio'n dda yn ategu'r cwricwlwm yn dda ac yn gwella lles disgyblion a'u medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn sylweddol, er enghraifft trwy ymweld â Pharc Bletchley i ymchwilio i batrymau a chodau.

Mae'r addysgu yn dda mewn pump o'r ysgolion ac yn ddigonol yn y llall. Lle mae'r addysgu yn gryf, mae athrawon yn defnyddio adnoddau difyr i ysbrydoli disgyblion a'u hannog i archwilio syniadau yn annibynnol. Mae medrau holi o ansawdd uchel yn archwilio dealltwriaeth disgyblion ac yn symud eu dysgu yn ei flaen. Yn ogystal, mae adborth llafar cadarn yn galluogi disgyblion i fynd i'r afael â chamgymeriadau yn brydlon ac ehangu'u dysgu. Ym mron yr holl ysgolion, nid yw athrawon bob amser yn addasu'r addysgu yn ddigon da i fodloni anghenion disgyblion unigol, yn enwedig y rhai mwy abl. Mae ein harolwg thematig, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2018, yn darparu strategaethau ac awgrymiadau i athrawon i gefnogi a herio dysgwyr mwy abl (Estyn, 2018d). I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad**.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae un o'r argymhellion a wnaed yn ymwneud â gwella'r addysgu. Ym Mehefin 2018, cyhoeddom arolwg gydag astudiaethau achos sy'n disgrifio sut mae ysgolion yn gwella ansawdd yr addysgu (Estyn, 2018b). I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad**.

**Ffigur 36:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu, 2017-2018



# Gofal, cymorth ac arweiniad

Mewn pump o'r ysgolion, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu'n well, a cheir nodweddion rhagorol mewn dwy ran o dair o ysgolion. Lle ceir nodweddion rhagorol mewn gofal, cymorth ac arweiniad, maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at safonau uchel disgyblion, eu lles a'u hagweddau at ddysgu.

Mewn ysgolion ag arfer eithriadol, ceir systemau olrhain datblygedig, ac mae staff yn monitro cynnydd disgyblion yn gadarn. Mae athrawon yn gweithredu'n gyflym i drefnu ymyriadau addas i gefnogi disgyblion ac maent yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn gadarnhaol. Mae'r trefniadau ar gyfer nodi a chynorthwyo disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn effeithiol. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd dinasyddiaeth dda yn dda, ac yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau. Ceir cyfathrebu rheolaidd gyda rhieni, sy'n teimlo'n rhan o daith addysg eu plentyn, ac maent yn gwybod sut i gefnogi'u dysgu. Mewn ychydig o ysgolion, ychydig o ddefnydd a wneir o wybodaeth asesu i lywio'r cynllunio ac, o ganlyniad, nid yw gweithgareddau dysgu yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion bob amser.

## Ysgol Baratoadol Redhill

Mae deallusrwydd emosiynol yn flaenoriaeth i staff yn Ysgol Baratoadol Redhill. Mae aelodau staff yn rhoi strategaethau ar waith i gefnogi lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion trwy holiaduron, sesiynau medrau, a grwpiau ffocws dan arweiniad disgyblion lle maent yn trafod unrhyw bryderon yn agored.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**


## Ysgol Westbourne

Mae Ysgol Westbourne yn asesu gallu ieithyddol disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol, a chaiff y disgyblion hyn gyfle i fynychu ysgol haf. Mae athrawon yn hyrwyddo lefelau uchel o gynhwysiant ac yn annog y disgyblion hyn i gyfranogi mewn gweithgareddau, fel gwasanaethau, digwyddiadau elusennol, diwrnodau rhyngwladol a gwersi siarad cyhoeddus.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

**Ffigur 37:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, 2017-2018



# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mewn pump o'r ysgolion, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well. Mewn tair o'r ysgolion hyn, roedd y pennaeth wedi ymuno â'r ysgol o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd trefniadau olyniaeth a oedd wedi'u cynllunio'n dda wedi sicrhau cyfnod pontio hynod o esmwyth pan ymgymerodd y penaethiaid newydd â'u swyddi. Fe wnaeth hyn alluogi arweinwyr i adeiladu ar y cryfderau oedd yn bodoli eisoes yn eu hysgolion yn ystod cyfnod o newid.

Mewn ysgolion lle ceir arweinyddiaeth ragorol, mae staff yn rhannu gwerthoedd a nodau y mae'r gymuned ysgol gyfan yn eu deall. Mae'r rhain yn sail i holl feysydd bywyd yr ysgol. Mae staff ar bob lefel yn darparu arweinyddiaeth ac maent yn rhoi ffocws cryf ar flaenoriaethau'r ysgol a chynnydd disgyblion. Mae staff yn siarad yn agored a hyderus am eu harfer, ac mae hyn yn gwella'r cyfleoedd iddynt ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae trefniadau systematig gan arweinwyr i fonitro ac arfarnu gwaith yr ysgol a defnyddiant y dystiolaeth hon yn dda i gynnal gwelliant yr ysgol.

Lle ceir diffygion yn yr arweinyddiaeth, mae ansawdd monitro addysgu a dysgu gan arweinwyr yn amrywio gormod, neu mae'r cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol yn rhy gyfyngedig. Cafodd hanner yr ysgolion a arolygwyd argymhellion i gryfhau trefniadau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, a chafodd traean argymhelliad i wella cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol.

**Ffigur 38:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, 2017-2018




PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Colegau arbenigol annibynnol

Eleni, mae saith o golegau arbenigol annibynnol cofrestredig yng Nghymru. Mae hyn yr un peth ag yn Ionawr 2017. Mae'r colegau hyn yn addysgu rhyw 220 o ddysgwyr 16 oed a hŷn. Mae'r colegau'n darparu ar gyfer ystod amrywiol o anghenion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mewn pedwar o'r colegau, mae llawer o ddysgwyr yn byw mewn cartrefi preswyl sydd ynghlwm wrth y coleg.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn, cynhaliwn ymweliadau monitro rheolaidd o golegau arbenigol annibynnol. Mae'r ymweliadau hyn yn ystyried y cynnydd a wneir gan y colegau yn erbyn argymhellion penodol o arolygiadau craidd ac ymweliadau monitro blaenorol. Eleni, cynhaliom ymweliadau monitro â phump o golegau arbenigol.

# Safonau

Yn y colegau arbenigol annibynnol yr ymwelwyd â nhw eleni, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas o leiaf yn erbyn y nodau dysgu yn eu cynlluniau dysgu unigol. Mae llawer o ddysgwyr yn ennill unedau credyd neu gymwysterau gwerthfawr sy'n cysylltu'n glir â'u nodau a'u dyheadau tymor hir. Maent yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda dros gyfnod, a chânt gyfleoedd buddiol i gymhwyso'r rhain ar draws y cwricwlwm.

Mewn tri o'r colegau, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'u medrau cyfathrebu a'u medrau cymdeithasol. Mewn dau goleg, mae dysgwyr yn ymateb yn dda i gyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau'n gysylltiedig â gwaith i gaffael medrau datrys problemau a medrau ymarferol pwysig mewn cyd-destunau gweithio realistig. Cymhwysant y medrau hyn yn llwyddiannus i leoliadau profiad gwaith yn y gymuned leol, er enghraifft mewn canolfan hamdden neu fanwerthwr bwyd organig. Mae'r cynnydd a wna dysgwyr yn y meysydd hyn yn helpu i feithrin eu hyder ac yn eu paratoi'n dda i fyw'n fwy annibynnol.

Mewn un coleg, mae'n anodd arfarnu cynnydd dysgwyr unigol neu grwpiau o ddysgwyr oherwydd bod systemau ar gyfer olrhain ac arfarnu cynnydd dysgwyr yn parhau'n rhy anffurfiol.

# Lles ac agweddau at ddysgu

Yn yr holl golegau yr ymwelwyd â nhw, mae agweddau cadarnhaol a brwdfrydig tuag at ddysgu gan lawer o ddysgwyr. Mae llawer o ddysgwyr yn ymgysylltu'n hyderus â'u dysgu ac yn cynnal eu diddordeb yn dda mewn sesiynau. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau a, lle gallant wneud hynny, maent yn rhannu'r rhain yn llwyddiannus gyda'u cyfoedion, staff ac ymwelwyr â'r coleg.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd arbennig o gryf wrth wella agweddau ar eu lles personol yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Er enghraifft, maent yn dysgu rheoli'u hanawsterau cymdeithasol ac yn mynd i'r afael â sefyllfaoedd newydd gyda mwy o hyder. Mae hyn yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr mwy gwydn. Mae dysgwyr ag ymddygiadau mwy heriol yn dysgu rheoli'r rhain gyda mwy a mwy o lwyddiant oherwydd y cymorth sydd wedi'i gydlynu'n dda a gânt gan y staff.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu'r coleg yn rheolaidd, ac yn cyrraedd sesiynau yn brydlon ac yn barod i ddysgu. Mewn un coleg, nid yw dysgwyr yn mynychu'r coleg yn ddigon rheolaidd ac nid ydynt yn cyrraedd gwersi yn brydlon. Mae'r dysgwyr hyn yn colli cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu.

# Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae pob un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw yn darparu cwricwlwm neilltuol sy'n sicrhau bod profiadau dysgu yn cyfateb yn dda yn gyffredinol i alluoedd, anghenion a dyheadau dysgwyr. Mewn dau goleg, mae profiadau dysgu'n canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu medrau ymarferol ac annibynnol dysgwyr drwy ystod o weithgareddau'n gysylltiedig â gwaith a lleoliadau profiad gwaith gydag amrywiaeth o gyflogwyr lleol a chenedlaethol. Mae colegau eraill yn pwysleisio cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'u medrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd trwy ddysgu yn yr ystafell ddosbarth sy'n cysylltu â chyfleoedd perthnasol i gymhwyso'r medrau hyn yn y gymuned.

Ym mhob un o'r colegau, mae dealltwriaeth gadarn gan athrawon o anghenion unigol dysgwyr ac maent yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda dysgwyr. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n agos â'i gilydd i gynllunio gweithgareddau perthnasol i ddysgwyr sy'n rhoi ystyriaeth dda i'w hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau unigol.

Mewn dau o'r colegau, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu ac ymarfer eu medrau annibyniaeth. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr yn y colegau hyn yn datblygu'r medrau hyn yn ddigon da.

# Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ansawdd gofal, cymorth ac arweiniad yn nodwedd nodedig o'r colegau yr ymwelwyd â nhw. Maent yn darparu amgylcheddau tawel ac anogol lle mae dysgwyr yn meithrin eu hyder ac yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu dysgu dros gyfnod. Mae prosesau cadarn ar waith gan bedwar o'r colegau i nodi anghenion a galluoedd dysgwyr, cyn iddynt ddechrau a phan fyddant yn ymuno â'r coleg. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i osod dysgwyr ar lwybrau dysgu addas ac i wneud yn siŵr bod ganddynt y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni'u nodau dysgu unigol dynodedig. Un nodwedd arbennig o gref mewn tri o'r colegau yw'r lefel uchel o gymorth therapiwtig arbenigol a ddarparant. Trwy eu gwaith gyda therapyddion hyfforddedig, mae tiwtoriaid a staff cymorth dysgu yn datblygu strategaethau defnyddiol i weithio gyda dysgwyr ac i'w helpu i reoli'u pryderon a'u hanawsterau yn llwyddiannus.

Yn un o'r colegau, mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg rhyw a pherthnasoedd yn gyfyngedig. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr wedi'u paratoi'n addas i reoli'u diogelwch personol yn y meysydd hyn pan fyddant yn gadael y coleg.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn y colegau yr ymwelwyd â nhw eleni, mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth gref sy'n canolbwyntio'n glir ar roi i ddysgwyr y medrau sydd eu hangen arnynt i drosglwyddo'n llwyddiannus i gyfnod nesaf eu bywydau. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae colegau arbenigol wedi datblygu rhwydwaith gwerthfawr i rannu arfer dda mewn meysydd fel asesu a gosod targedau. Mae'r cydweithio hwn yn gryfder sy'n datblygu yn y sector. Mae'n helpu i wella ansawdd darpariaeth ar gyfer dysgwyr mewn colegau arbenigol ledled Cymru.

Ceir systemau effeithiol yn y colegau i gasglu gwybodaeth am bresenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad dysgwyr. Mae'r wybodaeth hon yn helpu colegau i nodi lle mae angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr unigol i wella'u hymgysylltiad â dysgu. Mae prosesau addas gan bedwar o'r colegau i gasglu data'n ymwneud â chynnydd dysgwyr ac ansawdd addysgu. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn y meysydd hyn. Yn benodol, nid yw'r prosesau hyn yn canolbwyntio'n ddigon clir ar effaith addysgu ar ddysgu. O ganlyniad, effaith gyfyngedig a gaiff gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn y colegau hyn ar wella ansawdd dysgu ac addysgu.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Unedau cyfeirio disgyblion

Yn Ionawr 2018, roedd 23 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) cofrestredig yng Nghymru. Mae hyn ddwy uned yn llai nag yn Ionawr 2017, pan oedd 25. Roedd rhyw 800 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn UCDau yn Ionawr 2018 (Llywodraeth Cymru, 2018d). Agorodd un awdurdod lleol UCD ym Medi 2018. Mae dau awdurdod lleol heb UCD gofrestredig.


Eleni, fe wnaethom arolygu tair UCD. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Safonau

Yn gyffredinol, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 ym mhob UCD a arolygwyd yn gwneud cynnydd cadarn tuag at gyflawni'u targedau dysgu ac ymddygiad. Mae llawer yn datblygu'r medrau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i ddychwelyd yn llwyddiannus i addysg y brif ffrwd.

Mae dwy o'r UCDau a arolygwyd yn darparu ar gyfer anghenion disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 hefyd. Mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn yr ystod oedran hon yn amrywio'n fawr rhwng y ddwy UCD. Mewn un UCD, ceir safonau da. Yn yr UCD hon, mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh i ymchwilio a chyflwyno'u gwaith mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac mae llawer ohonynt yn datblygu medrau darllen cadarn. Yn yr UCDau lle mae angen gwella safonau disgyblion, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn ddigon da ar draws y cwricwlwm a chynnydd cyfyngedig a wneir ganddynt wrth gyflawni'u targedau addysg neu ymddygiad unigol.

**Ffigur 39:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer safonau, 2017-2018




# Lles ac agweddau at ddysgu

Ym mhob un o'r tair UCD, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda i ethos gofalgar yr UCD ac mae mwyafrif yn sefydlu ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth yn y staff. Mae hyn yn helpu llawer o ddisgyblion i wneud gwelliannau pwysig i'w hymddygiad.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau dysgu, yn canolbwyntio ar gwblhau tasgau hyd eithaf eu gallu ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae disgyblion yn cael dewis beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion ym mhob UCD, ar draws pob cyfnod allweddol, yn canolbwyntio'n ddigon da yn eu gwersi ac maent yn colli diddordeb yn eu gwaith. Ym mhob un o'r UCDau, nid oes llais ddigon cryf gan ddisgyblion ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu.

**Ffigur 40:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu, 2017-2018




# Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn gyffredinol, mae athrawon yn yr UCDau yn gwybod yn dda beth yw anghenion, galluoedd a diddordebau disgyblion. Mae profiadau dysgu disgyblion oed ysgol gynradd yn arbennig o effeithiol. Ar gyfer y grŵp oedran hwn, mae UCDau yn darparu amgylchedd anogol a meintiau dosbarth bach. Mae hyn yn helpu mwyafrif o ddisgyblion i ffynnu. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau deniadol sy'n annog y disgyblion hyn i ddysgu a chwarae o fewn ffiniau clir.

Mewn dwy UCD, ceir cysylltiadau cryf rhwng yr UCD ac ysgolion a cholegau lleol. Mae hyn yn helpu staff UCD i ddarparu rhaglenni dysgu unigol ar gyfer disgyblion sy'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y darparwyr eraill hyn. Hefyd, mae'r trefniadau hyn yn helpu disgyblion yn yr UCDau i gadw cysylltiad â'u ffrindiau mewn ysgolion a cholegau lleol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cyflawni deilliannau gwell lle mae UCDau yn cysylltu'n agos ag ysgolion prif ffrwd lleol.

Lle mae angen gwella'r ddarpariaeth yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, nid yw ystod y profiadau dysgu, y cyfleusterau a'r adnoddau yn bodloni anghenion a diddordebau disgyblion yn ddigon da. Ceir diffyg parhad rhwng y cyrsiau y mae disgyblion yn eu dechrau yn eu hysgol brif ffrwd a'r rheiny y maent yn eu hastudio yn yr UCD.

**Ffigur 41:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu, 2017-2018



# Gofal, cymorth ac arweiniad


Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda yn un o'r UCDau a arolygwyd eleni. Yn yr UCD hon, mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus ac yn olrhain cynnydd disgyblion yn dda. Mae staff yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd ffyrdd iach o fyw ac i ddeall eu hanghenion emosiynol eu hunain.

Yn y ddwy UCD lle mae angen gwella gofal, cymorth ac arweiniad, nid yw staff yn cymhwyso gweithdrefnau ar gyfer rheoli ymddygiad ac olrhain cynnydd disgyblion yn gyson. Nid yw staff yn defnyddio data asesiadau yn ddigon da wrth osod targedau yng nghynlluniau addysg ac ymddygiad disgyblion.

Mae pob un o'r tair UCD wedi ffurfio partneriaethau effeithiol gyda rhanddeiliaid pwysig ac mae hyn yn cael effaith fuddiol ar les disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cwnselwyr mewn ysgolion, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwasanaethau lles addysg.

Mewn dwy UCD, mae staff yn cynorthwyo'r broses bontio yn dda trwy rannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda phartneriaid pan fydd disgyblion yn dychwelyd i addysg brif ffrwd, colegau addysg bellach neu ddarparwyr yn y gwaith.

**Ffigur 42:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, 2017-2018




# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae angen gwella'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn y tair UCD a arolygwyd eleni. Mae dwy UCD wedi gweld newidiadau sylweddol a diweddar i aelodau'r uwch dîm arwain, gan gynnwys yr athro â gofal. Mae arweinwyr yn yr UCDau hyn wedi cyflwyno systemau newydd i gynorthwyo hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Adeg eu harolygiadau, roedd yn rhy gynnar i arfarnu effaith y newidiadau hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r drydedd UCD wedi cynyddu nifer y disgyblion ar y gofrestr, ystod anghenion y disgyblion a nifer y darpariaethau sy'n rhan o bortffolio'r UCD. Mae angen gwella prosesau'r UCD ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mewn dwy UCD, mae angen cryfhau rôl y pwyllgor rheoli wrth bennu cyfeiriad strategol y gwasanaeth.

**Ffigur 43:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, 2017-2018



# Gweithgarwch dilynol: Unedau cyfeirio disgyblion

Yn 2017-2018, nodom fod angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn un UCD, a bod angen gwelliant sylweddol ar UCD arall.

Eleni, fe wnaethom ymweld â dwy UCD yr oedd angen monitro ychwanegol arnynt. Roedd angen gwelliant sylweddol ar un UCD, ac angen gweithredu mesurau arbennig yn y llall. Roedd y ddwy wedi gwneud cynnydd addas a chawsant eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol.

Roedd gwelliannau i'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn allweddol i lwyddiant yr UCDau hyn. Fe wnaeth arweinwyr yn y ddwy UCD gryfhau'u trefniadau partneriaeth gyda'u hawdurdodau lleol, consortia ac ysgolion prif ffrwd lleol. Ym Mawrth 2018, cynhaliom arolwg o effaith symudiadau rheoledig ar ddisgyblion (Estyn, 2018g). Canfuom fod symudiadau rheoledig yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus pan fydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn gweithio'n dda gyda disgyblion a'u teuluoedd. I gael mwy o wybodaeth am ein canfyddiadau ynglŷn â symudiadau rheoledig, darllenwch yr **adroddiad**.

Mae arweinwyr UCDau wedi gwella aelodaeth a rôl eu pwyllgorau rheoli ac mae goruchwyliaeth briodol ganddynt o'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae arweinwyr yn rhoi prosesau hunanwerthuso clir ar waith ac yn buddsoddi yn natblygiad proffesiynol eu staff. Mae hyn yn helpu i roi'r medrau a'r hyder i staff sydd eu hangen arnynt i wneud newidiadau.

**Ffigur 44:**
Unedau cyfeirio disgyblion a gafodd eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2017-2018




PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Eleni, cynhaliom ddau arolygiad peilot o wasanaethau addysg llywodraeth leol. Fe wnaethom fonitro cynnydd y pedwar consortiwm rhanbarthol yn dilyn eu harolygiadau yn 2016 a chynnal ymweliadau dilynol â thri awdurdod lleol lle cynhaliom gynadleddau gwella y llynedd. Hefyd, cynhaliom arolygon o awdurdodau lleol er mwyn dysgu mwy am y cymorth a ddarparant i leoliadau addysg ar gyfer plant o dan bump oed.

Cynhaliwyd yr arolygiadau peilot yng Nghastell-nedd Port Talbot yn Rhagfyr 2017 ac yn Sir Ddinbych yn Chwefror 2018. Yn ystod yr arolygiadau hyn, arfarnom dri maes arolygu, sef y deilliannau y mae disgyblion yn yr awdurdodau lleol yn eu cyflawni, ansawdd y gwasanaethau addysg a ddarperir gan yr awdurdod, ac ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth. Yn dilyn yr arolygiadau, ymgynghorom â rhanddeiliaid ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'r ffordd yr arolygwn wasanaethau addysg llywodraeth leol. Cyhoeddom ein harweiniad arolygu wedi'i ddiweddaru ym Medi 2018.

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, mae deilliannau ar gyfer disgyblion, ansawdd gwasanaethau addysg ac arweinyddiaeth yn dda. Mae gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig weledigaeth glir i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg ac ysgolion unigol, ac maent yn adnabod eu hysgolion yn dda. Mae ymgynghorwyr her a swyddogion datblygu athrawon yn darparu cymorth a her briodol i ysgolion. Mae'r awdurdod yn darparu ystod eang o wasanaethau cymorth sy'n bodloni anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed yn dda. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf dros gyfnod. Maent yn dechrau'r ysgol gyda medrau gwannach na'u cyfoedion mewn awdurdodau eraill, ond yn perfformio'n dda yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw perfformiad mewn ysgolion cynradd yn cymharu'n dda â pherfformiad mewn awdurdodau tebyg, ac nid yw swyddogion yn arfarnu'u gwaith yn gyson yn ddigon da. I gael gwybod mwy, darllenwch yr adroddiad:
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

Yng Nghyngor Sir Ddinbych, mae deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg yn dda, ac mae arweinyddiaeth yn rhagorol. Mae arweinyddiaeth wleidyddol a strategol yr awdurdod yn llwyddiannus wrth reoli newid. Er enghraifft, mae ailstrwythuro gwasanaethau addysg a phlant wedi arwain at wasanaeth cydlynus, cyfunol sy'n gallu bodloni anghenion plant a phobl ifanc yn well. Mae'r cysylltiadau rhwng y gwasanaethau hyn yn helpu'r awdurdod i ymateb yn gyflym i anghenion teuluoedd a disgyblion, ac yn helpu swyddogion i roi ymyriadau a chymorth ar waith yn gynnar. Mae'r awdurdod yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn ac mae ganddo bolisïau, strategaethau a phrosesau clir ar gyfer gwaith gwella ysgolion. Mae ganddo ystod addas o ddarpariaeth briodol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed, ac mae hyn yn effeithiol o ran bodloni'u hanghenion yn gyffredinol. Bu perfformiad ar draws yr ysgolion uwchradd yn amrywiol dros y tair blynedd diwethaf, ond mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 o ran bron pob un o'r dangosyddion allweddol yn cymharu'n dda yn gyffredinol dros gyfnod â safonau mewn awdurdodau tebyg ar hyd a lled Cymru, a gyda deilliannau cenedlaethol. Gofynnom i Sir Ddinbych lunio astudiaeth achos yn amlinellu'r arfer ragorol mewn arweinyddiaeth a rheolaeth. I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr adroddiad: **Cyngor Sir Ddinbych**

Fe wnaethom fonitro'r pedwar consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2017. Canolbwyntiodd yr ymweliadau hyn ar y cynnydd yr oedd pob consortiwm wedi'i wneud yn unol â'r argymhellion o'r arolygiadau a gynhaliwyd yn 2016. Gwnaeth tri o'r pedwar consortiwm gynnydd boddhaol, o leiaf. Yn ystod yr ymweliad monitro, canfuom fod GwE yng Ngogledd Cymru, sef y consortiwm â'r mwyaf o argymhellion i fynd i'r afael â nhw, wedi gwneud cynnydd cryf neu dda iawn â'r holl argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Yn ERW, roedd y cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad ym mis Mehefin 2016 yn gymharol araf. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i anghytundeb ar draws yr awdurdodau lleol a thîm canolog ERW ynglŷn â chyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion yn rhanbarthol, yn ogystal â lefelau amrywiol o ymrwymiad i weithio rhanbarthol ymhlith uwch swyddogion ac aelodau etholedig. Mae tîm canolog ERW wedi cyflwyno ystod o fesurau priodol i wella ansawdd yr her a'r cymorth ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder. Fodd bynnag, yn y 18 mis yn dilyn yr arolygiad cychwynnol o ERW, fe wnaeth y bwrdd gweithredol a'r cyd-bwyllgor dderbyn adroddiadau gan reolwyr heb her drylwyr yn rhy aml. Mae hyn yn golygu bod camau gweithredu neu benderfyniadau

## Cyngor Sir Ddinbych

Mae ailstrwythuro gwasanaethau addysg a phlant wedi arwain at wasanaeth sy'n gallu bodloni anghenion plant a phobl ifanc yn well.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **astudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

cyfyngedig yn deillio o adroddiadau a gyflwynwyd a bu cynnydd mewn meysydd gwaith allweddol yn y rhanbarth yn rhy araf, gan gynnwys, er enghraifft, cyflymdra'r gwelliant mewn ysgolion uwchradd sy'n achosi pryder. Yn ychwanegol, mae tîm canolog ERW wedi ei chael yn anodd cynyddu cyflymdra'r gwelliant o dan y trefniadau llywodraethu presennol.

Yn 2016 a 2017, hwylusodd Estyn gynadleddau gwella gydag awdurdodau lleol Sir Benfro, Powys a Wrecsam. Nod y cynadleddau yw helpu i ddeall yn llawn y rhesymau dros y perfformiad gwan mewn agweddau pwysig ar waith y gwasanaethau addysg a sicrhau bod cynlluniau cadarn ar waith i wella'r rhain. Eleni, cynhaliom gynadleddau dilynol i fonitro cynnydd pob awdurdod. Ceir perfformiad gwan mewn ysgolion uwchradd yn y tri awdurdod lleol. Mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi cymryd camau cynnar, er yn gamau cyfyngedig, i fynd i'r afael â'r materion, ac mae ganddynt gynlluniau gwella cydlynus. Ym Mhowys, ystyriom hefyd effeithiolrwydd cymorth ariannol canolog wrth oruchwylio cyllidebau ysgolion, ac yn Sir Benfro, cymorth yr awdurdod lleol i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Ar ôl y cynadleddau gwella, mae arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol yn monitro'r cynnydd a wneir gan awdurdodau lleol o ran mynd i'r afael â'r materion hyn.

Ym Mawrth, cyhoeddom adroddiad thematig ar y defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig mewn awdurdodau lleol ac ysgolion (Estyn, 2018g). Canfuom, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, fod gweledigaeth glir gan wasanaethau cynhwysiant ar gyfer cynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed, a'u bod yn rhoi arweiniad defnyddiol i ysgolion ac UCDau ar ystod o faterion, gan gynnwys symudiadau rheoledig. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, fodd bynnag, nid yw'r weledigaeth yn cael eu rhannu'n ddigon da gan ychydig o ysgolion, ac nid ydynt yn ei deall yn ddigon da ychwaith. Yn yr awdurdodau lleol hyn, nid yw'r ysgolion cartref yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas â chefnogi a monitro symudiad rheoledig, ac nid ydynt yn ymgymryd â'r rôl hon yn ddigon effeithiol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cyflwyno systemau i gasglu data ar symudiadau rheoledig, ac mae systemau cadarn gan rai i olrhain cynnydd disgyblion yn y maes hwn. Fodd bynnag, nid yw staff awdurdodau lleol yn defnyddio'r data hwn yn ddigon da i adolygu cynnydd mentrau neu i nodi tueddiadau a phatrymau ar lefel ysgolion neu awdurdod lleol. O ganlyniad, mae amseroldeb ac effeithiolrwydd cymorth targedig ar gyfer ysgolion yn rhy anghyson ledled Cymru. I gael mwy o wybodaeth am ein canfyddiadau ynglŷn â symudiadau rheoledig, darllenwch yr adroddiad: **Symudiadau rheoledig**

Yn Awst, cyhoeddom adroddiad am werth gwaith ieuenctid yng Nghymru (Estyn, 2018h). Canfuom fod llawer o wasanaethau cymorth ieuenctid amrywiol ac effeithiol ar gael i bobl ifanc yng Nghymru. Un nodwedd bwysig o'r gwasanaethau hyn yw'r ffordd y gallant gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu'u galluoedd cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys penderfyniad, hunanreolaeth, hyder, gwydnwch, a hunan-gymhelliant. Trwy'r gwasanaethau cymorth ieuenctid hyn, mae gweithwyr ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill yn gweithio gyda phobl ifanc i gyflawni newid personol yn eu bywydau. I leiafrif o bobl ifanc, gall y gwasanaethau hyn weithio fel cymorth hanfodol a newid eu bywydau, ond nid yw'r gwasanaethau hyn ar gael i'r holl bobl ifanc. Y rheswm am hyn yw nad oes unrhyw strategaeth gyffredinol ar gyfer cynllunio, darparu nac ariannu gwasanaethau, ac nid oes un weledigaeth glir a rennir gan lunwyr polisi a darparwyr ar gyfer darparu gwasanaethau. Darllenwch ein hadroddiad i ganfod mwy am waith ieuenctid yng Nghymru:
**Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru**

Ym Mawrth 2018, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes y bwriad i sicrhau cyfeiriad strategol gwaith ieuenctid yng Nghymru trwy ddatblygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd.

Mae Estyn yn rhoi ei farn am rinweddau cynigion i ad-drefnu ysgolion a'u heffaith debygol ar safonau a darpariaeth. Eleni, fe wnaethom ymateb i 29 o gynigion mewn 15 o awdurdodau lleol. Canfuom y byddai bron pob un o'r cynigion naill ai'n gwella neu'n cynnal y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni ac ansawdd y ddarpariaeth.

Yn ystod tymor yr haf, cynhaliom arolwg ym mhob awdurdod lleol i ganfod sut maent yn cynorthwyo lleoliadau gofal plant i ddarparu addysg a ariennir ar gyfer plant o dan bump oed. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu addysg a ariennir ar gyfer plant tair oed, ac ychydig iawn ar gyfer plant pedair oed mewn lleoliadau nad ydynt yn ysgolion yn ogystal ag mewn ysgolion. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y lleoliadau'n darparu addysg gynnar a ariennir sydd o ansawdd da. Mae hyn yn cynnwys cynnig cyngor a chymorth gan ymarferydd cymwys. Canfuom fod yr holl awdurdodau lleol yn deall eu cyfrifoldebau i ddarparu addysg statudol a ariennir yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn mabwysiadu ymagwedd ddigon strategol at gynllunio, cefnogi ac ariannu addysg yn y sector hwn.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

[redacted]

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
Addysg bellach

Yn Ionawr 2017, roedd 13 o golegau yn darparu cyrsiau addysg bellach yng Nghymru. Erbyn Gorffennaf 2018, roedd hyn wedi gostwng i 12 o golegau yn sgil uno Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Mae'r unig goleg chweched dosbarth yn y sector ar hyn o bryd yn trosi o fod yn sefydliad addysg bellach corfforedig i fod yn sefydliad â statws yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol (Colegau Cymru, 2018).

Mae llawer o golegau addysg bellach yn sefydliadau mawr aml safle sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol eang. Mae lleiafrif o golegau, fel Grŵp Llandrillo Menai a Grŵp Colegau NPTC, yn gweithredu o dan strwythur grŵp gyda nifer o safleoedd lleol yn gweithredu o dan enwau colegau ar wahân o dan reolaeth gyffredinol un sefydliad addysg bellach. Mae rhai colegau dan berchenogaeth uniongyrchol sefydliadau addysg uwch, tra bod eraill yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch.

Eleni, fe wnaethom arolygu tri choleg addysg bellach. Yn ystod y flwyddyn, datblygom drefniadau arolygu newydd gyda rhanddeiliaid. Fe wnaethom arolygu dau goleg o dan y fframwaith arolygu blaenorol ac un coleg, fel peilot, o dan y trefniadau arolygu newydd. Mae canfyddiadau'r arolygiadau hyn wedi llywio'r adroddiad hwn. Yn y rhan hon o'r adroddiad, nid ydym wedi cynnwys siartiau sy'n dangos y barnau arolygu oherwydd y gwahaniaethau rhwng y ddau fframwaith arolygu.

# Safonau

Mae safonau'n dda mewn dau o'r colegau a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall. Lle ceir safonau da, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn mewn sesiynau, ac yn gyffredinol maent yn llwyddo i gyflawni'u cymwysterau ar raddfa tua'r un fath neu uwchlaw'r rheini a gyflawnir yn genedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn llawn cymhelliant i gyflawni, ac mae llawer yn symud ymlaen yn dda at gyrsiau lefel uwch yn eu coleg, i ddysgu yn y gwaith, addysg uwch neu gyflogaeth.

Defnyddir y wybodaeth o asesiadau'n briodol gan y rhan fwyaf o ddysgwyr i nodi'u cryfderau a'r meysydd medrau y mae angen iddynt eu gwella, er enghraifft medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol. Mae llawer o ddysgwyr yn cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn dda ac mae mwyafrif yn ysgrifennu'n briodol at ystod o ddibenion. Gwneir cynnydd addas o'u mannau cychwyn gan y mwyafrif o ddysgwyr ar raglenni cyn-TGAU a rhaglenni ailsefyll TGAU mewn mathemateg a Saesneg. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio pecynnau meddalwedd addas yn dda i gwblhau a chyflwyno gwaith ar eu prif raglenni astudio. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw dysgwyr yn ymarfer ac yn datblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol yn ddigon da drwy eu rhaglenni galwedigaethol ac academaidd.

Mae llawer o ddysgwyr ar raglenni galwedigaethol yn ennill graddau uchel ac yn datblygu'u medrau galwedigaethol a'u cymwyseddau ymarferol yn dda. Fodd bynnag, lle bo angen gwella safonau, nid yw digon o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud. Er enghraifft, mae lleiafrif o ddysgwyr UG a Safon Uwch yn ennill graddau is na'r disgwyl o'u cyrhaeddiad blaenorol. Mae gormod o ddysgwyr lefel UG nad ydynt yn symud ymlaen i gwblhau'u rhaglenni Safon Uwch llawn.

# Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda yn y tri choleg a arolygwyd. Mae bron yr holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg. Mae'r rhan fwyaf wedi'u cymell i lwyddo, yn mwynhau'u dysgu ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan staff. Maent yn ystyriol o'i gilydd ac yn dangos parch at staff ac ymwelwyr. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o bwysigrwydd gwneud dewisiadau byw'n iach. Nid oes dealltwriaeth ddigon da gan ychydig o ddysgwyr o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu'r coleg yn rheolaidd ac yn ymddwyn yn dda mewn sesiynau a mannau cymunedol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn cyrraedd gwersi yn hwyr neu nid ydynt yn mynychu'n ddigon rheolaidd. Mewn ychydig o achosion, mae'r ymddygiad hwn yn oedi dechrau gwersi ac yn effeithio ar gynnydd mewn dysgu.

Mae cynrychiolwyr dysgwyr, a etholir gan eu cyfoedion, yn gweithio'n dda gyda rheolwyr i nodi ffyrdd o wella'u profiadau yn y coleg. Maent yn helpu i lywio gwaith y coleg drwy wneud cyfraniadau defnyddiol at gyfarfodydd cyrff llywodraethol a thrwy roi eu barnau ar ddatblygiadau allweddol, fel dylunio adeiladau newydd. Teimla'r rhan fwyaf o ddysgwyr fod rheolwyr y coleg yn gwerthfawrogi'u barnau.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau cyflogadwyedd defnyddiol ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at y gymuned trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau fel digwyddiadau menter ieuenctid, codi arian at elusennau a rhaglenni cyfoethogi'r coleg. Hefyd, mae ychydig iawn o ddysgwyr yn datblygu medrau datrys problemau a medrau technegol effeithiol trwy gymryd rhan mewn cystadlaethau medrau.

# Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r addysgu'n dda mewn dau o'r tri choleg ac yn ddigonol yn y llall. Mae profiadau dysgu yn dda ym mhob un o'r tri choleg. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn arddangos gwybodaeth bynciol a medrau technegol cyfoes a chadarn. Maent yn cynllunio'u cyrsiau a'u gwersi yn dda, ac mae llawer yn pennu disgwyliadau clir a phriodol ar gyfer dysgwyr.

Mae perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol gan bron yr holl athrawon â dysgwyr sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol ac yn galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr i wneud cynnydd da. Defnyddir ystod briodol o strategaethau addysgu a dysgu gan y rhan fwyaf o athrawon, ac mae llawer yn defnyddio techneg holi'n fedrus i ddatblygu medrau meddwl a dealltwriaeth dysgwyr. Mae llawer o athrawon yn gweithio'n dda gyda staff technegol a staff cymorth i fodloni anghenion dysgwyr. Nid yw lleiafrif o athrawon yn cynorthwyo dysgwyr yn ddigon da i ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol. Er enghraifft, er bod y rhan fwyaf o athrawon yn pennu nodau hirdymor priodol ar gyfer dysgwyr, nid oes targedau tymor byr penodol a chlir gan lawer o ddysgwyr ar gyfer gwella'r medrau hyn.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol ar waith dysgwyr i helpu dysgwyr i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wella. Mae'r rhan fwyaf yn olrhain cynnydd dysgwyr yn systematig, er enghraifft drwy systemau electronig. Defnyddiant y cofnodion hyn yn dda i lywio adolygiadau cynnydd unigol gyda dysgwyr ac i ddarparu adroddiadau gwerthfawr i rieni.

Lle mae angen gwella'r addysgu, nid yw athrawon yn herio ac yn ennyn diddordeb yr holl ddysgwyr yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddysgwyr, yn enwedig y rheini â chyrhaeddiad blaenorol cryf, yn gwneud cynnydd priodol nac yn ennill y graddau y gallent eu hennill.

Mae'r colegau'n cynnig ystod gynhwysfawr o gyrsiau ac yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn briodol i lywio'u cynlluniau cwricwlwm. Maent yn darparu llwybrau dilyniant clir ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr na chyflawnodd raddau A*-C mewn TGAU mathemateg a Saesneg yn yr ysgol i wella'u graddau drwy arholiadau ailsefyll. Ychydig iawn o gyrsiau y mae'r colegau yn eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr gynnal neu ddatblygu'r Gymraeg fel medr cyflogadwyedd neu fedr bywyd.

Mae staff yn y colegau yn gweithio'n dda gyda chyflogwyr i ddarparu profiad gwaith ystyrlon neu brofiadau buddiol yn gysylltiedig â gwaith i lawer o ddysgwyr. Mae rhaglenni Bagloriaeth Cymru yn darparu cyfleoedd buddiol i lawer o ddysgwyr wella'u medrau ac ennill cymwysterau ychwanegol.

# Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu'n well yn y tri choleg a arolygwyd. Darparant ystod gynhwysfawr o wasanaethau gwerthfawr i gefnogi dysgu ac iechyd a lles dysgwyr. Mae gan bron yr holl ddysgwyr fynediad at gyngor ac arweiniad diduedd, yn ogystal â gwasanaethau cymorth penodol sy'n darparu help i ddysgwyr sy'n wynebu anawsterau personol, ariannol, addysgol neu anawsterau eraill.

Lle ceir gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol, mae'r coleg yn darparu cymorth effeithiol iawn ac ymatebol i'w ddysgwyr. Mae hefyd yn nodi ac yn datblygu'r dysgwyr mwyaf abl yn arbennig o dda.

Mae perthnasoedd gweithio cryf gan y colegau â sefydliadau addysgol eraill, elusennau a gwasanaethau cymorth cymdeithasol, a gweithiant yn dda gyda'r rhain i gynorthwyo dysgwyr unigol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod trefniadau pontio hwylus ar waith ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig sy'n ymuno â'r coleg, ac mae'n darparu cymorth cydlynus i ddysgwyr y mae'r perygl mwyaf iddynt ymddieithrio oddi wrth addysg.

Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn darparu cymorth effeithiol wedi'i dargedu'n dda ar gyfer dysgwyr pan fo angen. Darparant gymorth personoledig i'r rhai ag anawsterau dysgu penodol fel dyslecsia a dyspracsia, anghenion cymorth corfforol ac anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Mae staff arbenigol fel cwnselwyr coleg yn darparu cymorth gwerthfawr i ddysgwyr sy'n wynebu anawsterau arbennig wrth ymdopi â'r galwadau a wynebant. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr sy'n agored i niwed yn goresgyn rhwystrau sylweddol i'w dysgu, yn gwneud cynnydd cynaledig ac yn cyflawni cymwysterau gwerthfawr.

At ei gilydd, nid yw trefniadau'r colegau ar gyfer diogelu yn destun pryder. Fodd bynnag, mae angen i golegau wella'r modd y maent yn arfarnu effaith eu haddysgu a'u hyfforddiant ynglŷn â radicaliaeth ac eithafiaeth.

## Coleg Gŵyr Abertawe

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn effeithiol iawn o ran nodi a datblygu ei ddysgwyr mwyaf abl ar raglenni academaidd a galwedigaethol. Mae'r dysgwyr hyn yn elwa ar gymorth eang drwy weithgareddau fel hyfforddiant personol ac ymweliadau â sefydliadau allanol, yn ogystal ag ystod eang o ddosbarthiadau meistr mewn pynciau a medrau. Mae'r dysgwyr wedi'u paratoi'n arbennig o dda i sicrhau lleoedd ar lwybrau dilyniant cystadleuol at addysg uwch neu gyflogaeth.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda yn y tri choleg. Mae penaethiaid colegau a'u huwch dimau rheoli yn darparu cyfeiriad clir ac arweinyddiaeth strategol.

Yn y ddau goleg lle ceir trefniadau da ar gyfer gwella ansawdd, mae arweinwyr yn defnyddio prosesau cadarn ar gyfer hunanwerthuso, gan gynnwys adolygiadau manwl o berfformiad a deilliannau dysgwyr, er mwyn ysgogi gwelliant. Defnyddiant banelau dilysu mewnol ac adolygiadau allanol yn dda i gryfhau prosesau hunanwerthuso. Mae cyrff llywodraethol yn adolygu cynnydd colegau yn erbyn nodau ac amcanion allweddol, a darparant her a chymorth priodol i uwch reolwyr. Mewn un coleg, mae angen gwneud yn siŵr bod hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn effeithiol ar draws y sefydliad.

Mae arweinwyr coleg yn darparu cyfleoedd da i hyfforddi a datblygu arweinwyr canol. Maent yn dechrau gwneud defnydd o safonau proffesiynol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer ymarferwyr ôl-16 i ysgogi gweithgareddau datblygiad proffesiynol a chreu cymunedau dysgu proffesiynol o fewn colegau a rhyngddynt. Yn benodol, mae eu defnydd o anogaeth a chymorth personoledig gan fentoriaid addysgu a dysgu yn dechrau cynyddu arloesedd ac yn gwella ansawdd yr addysgu.

Mae arweinwyr coleg yn blaenoriaethu ac yn rheoli adnoddau'n effeithiol. Mae eu cynlluniau strategol, gan gynnwys strategaethau ystadau, yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i ymateb i anghenion medrau lleol a rhanbarthol. Yn y ddau goleg a arolygwyd o dan y fframwaith arolygu cyffredin blaenorol eleni, mae gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol. Mae trefniadau partneriaeth cryf a chynaledig gydag ystod o sefydliadau allanol gan y colegau hyn.

# Gweithgarwch dilynol

Nid oes angen gweithgarwch dilynol yn yr un o'r colegau a arolygwyd eleni. Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau dilynol penodol â cholegau addysg bellach eleni. Ymwelom â'r holl golegau na chawsant eu harolygu eleni fel rhan o'n trefniadau ymweliadau arferol gan arolygydd cyswllt addysg bellach. Mae'r ymweliadau hyn yn adolygu cynnydd yn erbyn argymhellion arolygiadau blaenorol.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Dysgu yn y gwaith

Yn Ionawr 2018, roedd 19 o ddeiliaid contractau wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno dysgu yn y gwaith yng Nghymru. Mae mwyafrif y darparwyr hyn yn gweithio mewn consortia neu'n defnyddio darparwyr hyfforddiant sy'n isgontractwyr. Mae rhyw 100 o ddarparwyr sy'n isgontractwyr yn cyflwyno dysgu yn y gwaith. Mae hyn yn debyg i Ionawr 2017. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos bod 54,840 o ddysgwyr, yn 2016-2017, wedi ymgymryd â rhaglenni dysgu yn y gwaith. O'r rhain, roedd rhyw 16,000 wedi cofrestru ar brentisiaethau sylfaen lefel 2 a bron i 31,000 ar brentisiaethau lefel 3 neu brentisiaethau uwch lefel 4. Ymgymerodd rhyw 8,000 o ddysgwyr â hyfforddiant arall, gan gynnwys rhaglenni hyfforddeiaeth a chyflogadwyedd lefel 1 (Llywodraeth Cymru, 2018e).

Rhwng Medi 2017 a Gorffennaf 2018, fe wnaethom arolygu tri o ddarparwyr dysgu yn y gwaith. Mae canfyddiadau'r arolygiadau hyn wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Safonau

Mae safonau'n dda mewn dau o'r tri darparwr a arolygwyd ac yn ddigonol yn y llall. Yn y darparwyr hyn, mae dysgwyr yn datblygu ystod eang o fedrau'n gysylltiedig â diwydiant sy'n eu galluogi i gael neu gynnal cyflogaeth.


Mae llawer o ddysgwyr prentisiaeth yn uchelgeisiol ac yn benderfynol o hyrwyddo'u gyrfaoedd. Mae llawer o ddysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth yn datblygu medrau gweithio mewn tîm a medrau arweinyddiaeth defnyddiol yn ogystal â datblygu diddordeb yn yr amgylchedd, fel wrth weithio ar ystod amrywiol o brosiectau cymunedol buddiol.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu medrau siarad a gwrando cryf. Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni cymwysterau medrau hanfodol ar lefelau sy'n ofynnol ar gyfer y fframwaith, ac mae ychydig yn cyflawni ar lefelau uwchlaw gofynion y fframwaith.

Lle ceir safonau da, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf tuag at gwblhau'u rhaglenni hyfforddi yn llwyddiannus ac yn cyflawni'u fframweithiau hyfforddiant ar gyfraddau uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol yn gyffredinol. Datblygant ystod gynhwysfawr o fedrau'n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys lefelau uchel o gymhwysedd ymarferol a gwybodaeth theori. Mae dysgwyr wedi'u cymell i lwyddo ac mae llawer yn frwdfrydig ac yn awyddus i symud ymlaen i'r lefel nesaf.

Lle mae angen gwella safonau, mae angen gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau'u rhaglenni hyfforddi'n llwyddiannus, yn enwedig ar raglenni prentisiaeth uwch ac ymhlith grwpiau dysgwyr penodol fel y rheini sy'n 25 oed a hŷn. Yn ogystal, nid oes digon o ddysgwyr yn gwneud digon o gynnydd wrth wella'u medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol o gymharu â'u hanghenion a'u galluoedd unigol.

**Ffigur 45:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer safonau, 2017-2018




# Lles ac agweddau at ddysgu

Yn y tri darparwr, mae lles dysgwyr a'u hagweddau at ddysgu yn dda.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u hyfforddiant, yn mwynhau dysgu ac yn gwella eu hyder a'u hunan-barch, er enghraifft wrth oresgyn rhwystrau rhag dysgu a thrwy gydnabod gwerth gwneud dewisiadau byw'n iach.

Mae bron yr holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn sicr ac yn rhydd rhag aflonyddu yn eu gweithleoedd ac wrth fynychu canolfannau hyfforddiant. Dangosant wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel, a gallant nodi materion iechyd a diogelwch posibl yn hyderus.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn dda a gallant esbonio'n glir sut mae eu dysgu wedi cael effaith gadarnhaol ar eu harferion gweithio.  Mae llawer o ddysgwyr yn deall gwerth tegwch, cydraddoldeb, parch a goddefgarwch tuag at eu cyfoedion, cynghorwyr hyfforddi a chyflogwyr, ac maent yn gwybod sut gallant gymhwyso'r agweddau a'r gwerthoedd hyn yn y gweithle.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig ac wedi'u cymell i gwblhau'u rhaglen hyfforddi.  Mae llawer yn awyddus i barhau â'u hyfforddiant a symud ymlaen i'r lefel nesaf.  Dangosant agwedd gadarnhaol at ddysgu, maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu cyflogwyr.  Mae bron yr holl ddysgwyr yn mwynhau'u dysgu ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i ennill cyflog wrth iddynt ddysgu.  Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo y bydd yr hyfforddiant yn fuddiol i'w cynlluniau gyrfaoedd hirdymor.

**Ffigur 46:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu, 2017-2018



# Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda mewn dau o'r tri darparwr a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall.


Lle mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda, mae aseswyr yn darparu addysgu, hyfforddiant ac asesu cadarn yn gyson i ddysgwyr. Mae aseswyr yn rhoi cymorth personol arbennig o effeithiol i ddysgwyr. Mae'r mwyafrif yn cymell ac yn annog dysgwyr i wneud cynnydd addas. Yn y darparwyr hyn, mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn rhoi cymorth cadarn i ddysgwyr sy'n eu galluogi i wneud cynnydd da tuag at gyflawni'u fframweithiau hyfforddiant a chymwysterau eraill.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn meddu ar gymwysterau da ac yn brofiadol. Maent yn paratoi ac yn cyflwyno sesiynau i ffwrdd o'r gwaith yn dda. Cynhelir asesiadau ac adolygiadau cynnydd fel mater o drefn, ac mae aseswyr yn cadw cofnodion manwl o berfformiad dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw aseswyr bob amser yn cynllunio asesiadau'n ddigon da, ac nid yw pob dysgwr yn gwneud digon o gynnydd.

Eleni, cyhoeddom adroddiad thematig ar raglenni prentisiaethau uwch mewn dysgu yn y gwaith (Estyn, 2018i). Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru yn cyflwyno rhaglenni prentisiaeth uwch. Mae prentisiaid uwch yn gweithio tuag at gwblhau cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol ar lefel tystysgrif addysg uwch, diploma addysg uwch, gradd sylfaen neu radd, neu gymhwyster tebyg. I gael mwy o wybodaeth am ein canfyddiadau ar brentisiaethau uwch mewn dysgu yn y gwaith, darllenwch yr **adroddiad**.

Lle mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda, mae darparwyr yn cynnig ac yn cyflwyno ystod gynhwysfawr o raglenni ar draws llawer o feysydd dysgu ar lefelau gwahanol. Mae gweithdrefnau ac arferion clir a chynhwysfawr gan y darparwyr hyn ar gyfer datblygu medrau dysgwyr. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r cynllunio i ddatblygu cymhwysedd digidol dysgwyr. Lle mae angen gwella'r addysgu a phrofiadau dysgu, mae gosod targedau tymor byr ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol yn gyfyngedig. Ychydig iawn o ymarferwyr sy'n hyrwyddo mantais y Gymraeg fel medr cyflogaeth. Yn benodol, nid ydynt yn annog dysgwyr sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio a datblygu'u medrau iaith yn y gweithle.

**Ffigur 47:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu, 2017-2018



# Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer dysgwyr yn dda mewn dau ddarparwr ac yn ddigonol yn y llall. Lle mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda, mae bron yr holl aseswyr yn defnyddio'u hymweliadau â dysgwyr yn effeithiol i gymell dysgwyr a monitro'u cynnydd tuag at eu nodau dysgu yn fanwl a systematig. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gwybod yn dda beth yw anghenion unigol eu dysgwyr. Mae aseswyr yn nodi'n brydlon os yw dysgwyr yn cael anhawster gwneud cynnydd. Darparant gymorth pwrpasol, fel mentora, i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau posibl rhag dysgu.


Mae darparwyr yn defnyddio systemau olrhain cynhwysfawr ac effeithiol i fonitro cynnydd dysgwyr. Mae bron yr holl ddysgwyr yn ymwybodol o'r cynnydd y maent yn ei wneud ac yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i gyflawni'u fframweithiau hyfforddiant a chymwysterau eraill.

Mae'r darparwyr hyfforddiant yn rhoi lefelau da o gymorth personol i ddysgwyr, gan gynnwys galluogi mynediad at asiantaethau cymorth arbenigol allanol fel y gwasanaethau cymdeithasol, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall a chwnsela adeg profedigaeth.

Mae darparwyr yn cyflwyno hyfforddiant defnyddiol ar ddiogelu a radicaleiddio i'w staff. Mae bron yr holl aseswyr yn deall gweithdrefnau diogelu yn glir. Fodd bynnag, mae diffyg dyfnder yn aml yn nealltwriaeth aseswyr o radicaleiddio, ac yn aml nid yw'r hyder a'r cymhwysedd ganddynt mewn trafodaethau ac felly maent yn colli cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr.

Lle mae angen gwella gofal, cymorth ac arweiniad, nid oes systemau olrhain digon cadarn gan y darparwr i arfarnu cynnydd dysgwyr a chymorth dysgwyr yn ddigon da ac i gynllunio gwelliannau.

**Ffigur 48:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, 2017-2018



# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda mewn dau o'r tri darparwr ac yn ddigonol yn y llall. Lle ceir arweinyddiaeth a rheolaeth dda, mae strwythurau arwain a rheoli clir gan ddarparwyr sy'n rhoi ffocws cryf ar ddeilliannau dysgwyr ac ansawdd profiad dysgwyr. Yn y darparwyr hyn, mae gwella ansawdd yn ysgogwr allweddol ar draws y darparwr arweiniol a'i bartneriaid, dan gyfarwyddyd arweinwyr a rheolwyr effeithiol. Gweithiant yn arbennig o dda gydag isgontractwyr a phartneriaid i ddatblygu ethos a diwylliant o fod yn agored. Er enghraifft, mae un darparwr wedi sefydlu ystod o grwpiau rhwydwaith mewnol i gefnogi ymgynghori ac annog rhannu arfer dda gyda phartneriaid. Mae hyn wedi helpu'r darparwr i wella a chynnal ei berfformiad.

Un nodwedd allweddol yn y darparwyr da hyn yw eu prosesau cadarn ar gyfer hunanwerthuso. Defnyddir y rhain yn gyson dda ar draws partneriaethau. Ceir cyfleoedd effeithiol i randdeiliaid gyfrannu at y broses hunanwerthuso. O ganlyniad, mae dealltwriaeth glir gan y darparwyr hyn o'u cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Yn y darparwyr hyn, ceir strategaethau datblygiad proffesiynol manwl sy'n cyfateb yn dda i feysydd datblygu y darparwr ac anghenion staff unigol. Fodd bynnag, nid yw darparwyr yn arfarnu effaith gweithgareddau hyfforddi yn ddigon da.

Mae'r darparwyr yn defnyddio'u hadnoddau yn dda, gan gynnwys cyfleusterau hyfforddi ac ystafelloedd dosbarth arbenigol. Mae'r rhan fwyaf o weithleoedd yn rhoi cyfleoedd da i ddysgwyr ddatblygu'u medrau a chwblhau asesiadau ymarferol. Lle mae angen gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, ceir diffyg trylwyrdeb yn y prosesau hunanwerthuso ac mae agweddau pwysig ar gynllunio datblygiad yn aneffeithiol.

# Gweithgarwch dilynol

Eleni, rhoddom un darparwr yn y categori adolygu gan Estyn.

Ym mis Medi 2017, roedd angen gweithgarwch dilynol ar bedwar darparwr. Eleni, cafodd dau o'r darparwyr hyn ymweliadau monitro. Yn y ddau ymweliad, darganfu arolygwyr fod angen gwelliant o hyd ar agweddau allweddol ar waith y darparwyr ac mae'r darparwyr yn parhau i gael eu hadolygu gan Estyn.

**Ffigur 49:**
Niferoedd y barnau a ddyfarnwyd ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, 2017-2018




PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Dysgu oedolion

Mae pymtheg partneriaeth ar hyd a lled Cymru ynghyd ag Addysg Oedolion Cymru yn cyflwyno rhaglenni dysgu oedolion (Estyn, 2016). Mae'r partneriaethau'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r awdurdod lleol. Mae aelodaeth y partneriaethau yn amrywio o ardal i ardal, ond bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys darpariaeth a gynigir gan yr awdurdod lleol, colegau addysg bellach a sefydliadau'r trydydd sector.

Eleni, mae Estyn wedi monitro darpariaeth a gweithgarwch dysgu oedolion trwy holiaduron a chyfarfodydd â rhanddeiliaid, a thrwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd a chynadleddau partneriaethau dysgu oedolion Cymru gyfan.

Mae partneriaethau oedolion ledled Cymru yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd i leihau dyblygu cyrsiau yn eu hardaloedd lleol ac i ddatblygu llwybrau dilyniant i ddysgwyr. Maent yn cymryd sylw da o newidiadau yn anghenion dysgwyr ac yn llunio cynghreiriau effeithiol gyda sefydliadau eraill, fel sefydliadau gwirfoddol, i fodloni ystod mor llawn â phosibl o anghenion dysgwyr. Yn bwysicaf oll, mae hyn yn cynnwys gweithio gyda dysgwyr y mae eu haddysg flaenorol wedi bod yn gyfyngedig neu ddysgwyr sy'n dioddef difreintedd.

Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn cynnig ystod ddigonol o gyrsiau, er gwaethaf cyfyngiadau ariannol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn aml, mae partneriaethau'n darparu dosbarthiadau i ddatblygu medrau oedolion ym meysydd llythrennedd, rhifedd, TGCh a Saesneg fel iaith ychwanegol yn rhad ac am ddim, ond mae dysgwyr yn talu cost lawn cyrsiau mewn celf a ieithoedd, er enghraifft. Mae partneriaethau wedi gostwng nifer y lleoliadau lle maent yn cynnig cyrsiau i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gost-effeithiol. O ganlyniad, mae dysgwyr llai cefnog yn cael llai o gyfleoedd i fynychu dosbarthiadau sy'n cyfrannu at eu lles.

Eleni, gweithiom gydag amrywiaeth o randdeiliaid i ddatblygu trefniadau arolygu newydd ar gyfer dysgu oedolion. Bydd y rhain yn cael eu peilota yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Addysg gychwynnol athrawon

Ar hyn o bryd, mae tair canolfan addysg gychwynnol athrawon (AGA) ranbarthol yng Nghymru sydd, ynghyd â'r Rhaglen Athrawon Graddedig a'r Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (a elwir yn 'Teach First'), yn cynnig llwybrau at gymhwyso fel athro. Y llynedd, cwblhaodd 640 o athrawon cynradd dan hyfforddiant a 505 o athrawon uwchradd dan hyfforddiant raglenni AGA a chyflawni Statws Athro Cymwysedig yn y canolfannau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2018f).

Mae recriwtio i addysg gychwynnol athrawon yn broblem. Roedd recriwtio i raglenni cynradd yn 2017 yn gyfwerth â thua 90% o'r rhif targed, a denodd rhaglenni uwchradd tua 60% o'r targed yn unig (Llywodraeth Cymru, 2018f).

Eleni, mae Estyn wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i roi cyngor ar ddiwygio AGA yng Nghymru. O Fedi 2019 ymlaen, rhaid i Fwrdd Achredu CGA achredu pob rhaglen addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Cyhoeddodd CGA ganlyniadau'r broses achredu ym Mehefin 2018. Mae dolen i'r rhestr dros dro o raglenni sydd wedi'u hachredu gan Fwrdd Achredu CGA ar gael **yma**.

Bydd Estyn yn arolygu'r rhaglenni newydd eu hachredu o Fedi 2019 ymlaen. Yn y cyfamser, bydd Estyn yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon a bydd yn ymgymryd â gwaith arolwg thematig i gasglu tystiolaeth mewn meysydd penodol o addysg athrawon.

Yn ystod hydref 2018, cyhoeddom adroddiad thematig ar ddefnyddio mentoriaid mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon (Estyn, 2018j). Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau meddwl beirniadol, myfyrio ac arfarnu athrawon dan hyfforddiant fel medrau hanfodol ar gyfer dysgu proffesiynol, rôl y mentor yn datblygu'r medrau hyn, a sut mae cymryd rhan mewn mentora mewn AGA yn cysylltu â dysgu proffesiynol mewn ysgolion yn fwy cyffredinol ac yn effeithio arno. I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad**.

Mae'r mentora mwyaf llwyddiannus yn digwydd mewn ysgolion lle mae diwylliant sefydledig o ddysgu a ffocws cryf ar ddatblygu addysgu effeithiol. Ystyrir bod cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i wella'u medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn rhan o gontinwwm dysgu proffesiynol, lle mae datblygu athrawon dan hyfforddiant yn rhan o'r un broses â datblygu athrawon wrth eu gwaith. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, hyd yn oed lle ceir pwyslais ar ddatblygu ac annog athrawon, nid yw mentoriaid yn cymhwyso'r medrau a ddysgont drwy weithgareddau datblygu proffesiynol strategol i fentora athrawon dan hyfforddiant.

Mae'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan ganolfannau AGA i fentoriaid yn rhoi gormod o bwyslais ar gwblhau dogfennau yn hytrach nag ar ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol i fentora yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd AGA yn canolbwyntio'n ormodol ar gysondeb a chydymffurfio, ar draul sicrhau ansawdd. O ganlyniad, nid oes gan ganolfannau AGA brosesau digon trylwyr i nodi'r cryfderau a'r gwendidau mewn mentora, ac nid ydynt ychwaith yn rhannu arfer orau yn ddigon effeithiol.

Yn gyffredinol, mae mentoriaid yn ystyried mai eu rôl yw cynorthwyo myfyrwyr i fodloni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC). Ychydig bach iawn o fentoriaid sy'n ystyried eu hunain yn addysgwyr athrawon sy'n ymwneud ag addysgeg AGA, nac yn nodi'n benodol y dulliau a ddefnyddiant i addysgu myfyrwyr sut i addysgu, gan gynnwys datblygu gwybodaeth am y pwnc a datblygu addysgeg.

Mae'r ychydig fentoriaid mwyaf effeithiol yn meithrin gwybodaeth a phrofiad myfyrwyr dipyn wrth dipyn, gan ddechrau gyda gweithgareddau dysgu mwy strwythuredig, gyda chefnogaeth, a datblygu annibyniaeth a medrau myfyrdod a beirniadol myfyrwyr wrth iddynt gael mwy o brofiad. Maent yn meithrin gwydnwch myfyrwyr yn dda. Mae'r mentoriaid hyn yn cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol, ymchwil neu astudio lefel uwch. Maent yn esiamplau da o ddysgu proffesiynol gydol gyrfa. Mae'r mentoriaid hyn yn defnyddio'u medrau myfyrio a dadansoddi beirniadol i ddatblygu athrawon dan hyfforddiant. Addysgant eu myfyrwyr gan ddefnyddio 'sgyrsiau dysgu' sy'n helpu myfyrwyr i wella'u medrau dadansoddi beirniadol eu hunain, a llunio cysylltiadau rhwng eu haddysgu a damcaniaeth addysgol.

Ychydig bach iawn o fyfyrwyr sy'n gallu adnabod y medrau a'r ymddygiadau y mae eu hangen arnynt ar gyfer dysgu proffesiynol gydol gyrfa. Yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr yn datblygu'u medrau dadansoddi beirniadol, myfyrio ac arfarnu yn ddigon da dros gyfnod eu rhaglen. Nid ydynt yn ymgymryd yn ddigonol ag ymchwil a thrafodaeth broffesiynol gyda'u tiwtoriaid a'u mentoriaid i lunio'r cysylltiadau hanfodol rhwng damcaniaeth ac arfer.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Cymraeg i Oedolion

Ar 1 Awst 2016, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb am y sector Cymraeg i Oedolion i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Fe wnaeth y Ganolfan Genedlaethol ailstrwythuro darpariaeth ar draws Cymru, gydag 11 darparwr yn disodli'r chwe chanolfan ranbarthol a'u 20 a mwy o is-gontractwyr. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn neilltuo cyllid ac yn cynnig cyfeiriad strategol i'r sector, ac yn sicrhau ei ansawdd. Yn 2016-2017, fe wnaeth y Ganolfan gyrraedd ei tharged, sef darparu cyfleoedd dysgu prif ffrwd ac atodol i 16,845 o ddysgwyr sy'n oedolion (Llywodraeth Cymru, 2018g).

Ein nod yn ystod y cylch arolygu chwe blynedd yw arolygu dau ddarparwr yn flynyddol. Ein nod hefyd yw arolygu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ddwywaith yn ystod y cylch arolygu. Bydd arolygwyr yn arfarnu cynnydd yn erbyn argymhellion o arolygiadau darparwyr yn ystod yr arolygiadau o'r Ganolfan Genedlaethol.

Yn Ionawr 2018, cynhaliom arolygiad peilot o Ddysgu Cymraeg Morgannwg, Prifysgol De Cymru. Roedd pob maes arolygu yn dda neu'n well, a lles ac agweddau at ddysgu yn rhagorol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn Dysgu Cymraeg Morgannwg yn glir iawn ynghylch eu rhesymau dros ddysgu Cymraeg. Maent yn mwynhau dysgu yn fawr iawn ac yn frwdfrydig tu hwnt. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud ymdrech i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac mae hyn yn eu helpu i wneud cynnydd cyson, cryf. Maent yn creu'r cyfleoedd gwerthfawr hyn yn rhagweithiol. Gofynnom i Ddysgu Cymraeg Morgannwg ysgrifennu astudiaeth achos ar y gwaith hwn.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio gwersi yn effeithiol i fodloni anghenion dysgwyr. Maent yn ymateb yn hyblyg er mwyn dilyn themâu diddorol a datblygu iaith mewn cyd-destunau perthnasol sy'n fuddiol i'w dysgwyr. Mae darpariaeth Dysgu Cymraeg Morgannwg yn cynnwys ystod gynhwysfawr o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ymarfer yr iaith. Daw dysgwyr yn fwyfwy hyderus yn yr iaith a datblygant ystod o fedrau ieithyddol, gyda phwyslais ar siarad yr iaith mewn cyd-destunau amrywiol ac ystyrlon.

Mae gan arweinwyr a rheolwyr weledigaeth glir a nodau strategol pwrpasol sy'n gyson â chynlluniau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae ethos hyrwyddo Cymreictod a'r Gymraeg yn treiddio drwy agweddau a gwaith staff a dysgwyr.

**Dysgu Cymraeg Morgannwg, Prifysgol De Cymru**

Mae dysgwyr Dysgu Cymraeg Morgannwg yn dylanwadu ar y ddarpariaeth yn effeithiol er mwyn ymestyn eu defnydd ar y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn cyfrannu at y cynnydd cadarn a wnânt wrth ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae hyn yn cysylltu'n dda â nod y darparwr, sef cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg gweithgar yn eu cymunedau.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
## Gyrfaoedd

Yn ystod y flwyddyn, ni chynhaliwyd arolygiad o Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (CCDG), sy'n masnachu dan yr enw Gyrfa Cymru Careers Wales.

Ffurfiwyd y cwmni yn 2013. Mae'n is-gwmni ym mherchenogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnig gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd, annibynnol ar yrfaoedd i bobl o bob oedran yng Nghymru.

Mae'r cwmni'n cyflawni cylch gwaith sy'n cael ei osod gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Nod Gyrfa Cymru Careers Wales yw helpu pobl i wneud penderfyniadau effeithiol wrth gynllunio'u gyrfaoedd a symud ymlaen mewn hyfforddiant, dysgu pellach neu waith. Yn hyn o beth, ei nod yw cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol Cymru.

Yn y cyfnod ers 2010, mae newidiadau yn ei gylch gwaith a gostyngiadau i'w gyllideb weithredol wedi arwain at lawer o newidiadau yn strwythur, staffio a rôl y cwmni, gan gynnwys rhoi'r gorau i gynorthwyo pobl ifanc i gael profiad gwaith. Mae'r gostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael i'r cwmni wedi cael effaith niweidiol ar fynediad pobl ifanc at gyngor annibynnol ar yrfaoedd. Hefyd, mae wedi cynyddu pwysigrwydd y rôl sydd gan ysgolion i helpu pobl ifanc i gynllunio dilyniant o ran gyrfa ac astudio. Cyn arolygu ysgolion a darparwyr ôl-16, gofynnwn i ddisgyblion am ansawdd y cyngor ac arweiniad gyrfaol a gânt.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Adroddiad sector
# Dysgu yn y sector cyfiawnder

Yng Nghymru, mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn arwain arolygiadau o 15 tîm troseddau ieuenctid. Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arwain arolygiadau o chwe charchar, gan gynnwys y sefydliad troseddwyr ifanc, ac mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn arwain arolygiadau o un cartref diogel i blant. Mae Estyn yn ymuno â'r timau hyn i arolygu ansawdd addysg a hyfforddiant.

## Carchardai

Eleni, bu Estyn yn gweithio gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i ddiweddaru ei fframweithiau arolygu ar gyfer carchardai oedolion ac ieuenctid yng Nghymru. Mae cynnwys addysg a hyfforddiant y fframweithiau hyn bellach yn adlewyrchu Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.

Eleni, gweithiom gyda phartneriaid i arolygu Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga a Phrescoed a'r sefydliad troseddwyr ifanc yng Ngharchar Ei Mawrhydi y Parc. I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr adroddiadau.

**Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi**

## Gwasanaethau Prawf

Ni wnaeth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi gynnal arolygiadau o dimau troseddau ieuenctid yng Nghymru y llynedd. Er mwyn ymateb i gais yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet i Estyn ar gyfer 2017-2018, cyhoeddom adroddiad ar ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â thimau troseddau ieuenctid (Estyn, 2018k).

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch yr **adroddiad**.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Atodiad 1
# Trosolwg

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ein hariannu ganddo. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg yng Nghymru.

## Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal neu'n eu hariannu
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

**Atodiad 1**

Nod ein gwaith arolygu yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ar hyd a lled Cymru.

Mewn nifer o sectorau, rydyn ni'n gweithio gyda rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill i arolygu'r ddarpariaeth. Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn Ofsted i arolygu'r ddarpariaeth dysgu yn y gwaith sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Mae ein harolygwyr yn cydweithio ag AGC i arolygu ysgolion preswyl a chartrefi plant diogel awdurdodau lleol. Rydyn ni hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau o dimau troseddau ieuenctid (TTI) sy'n cael eu harwain gan Arolygiaeth Prawf EM, ac arolygiadau o garchardai sy'n cael eu harwain gan Arolygiaeth Carchardai EM. Weithiau, rydyn ni'n ymuno ag Ofsted i arolygu colegau arbenigol annibynnol yn Lloegr sydd â 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru. Efallai y byddwn hefyd yn ymuno ag arolygiadau o garchardai yn Lloegr sydd â nifer sylweddol o garcharorion o Gymru. Yn ogystal, rydyn ni'n cynnwys arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddwn ni'n arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol.

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cymru i ymateb i gylch gwaith blynyddol y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ei roi i ni. Mae ein cyngor ni'n cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr.

Rydyn ni'n cyhoeddi enghreifftiau o arfer dda ar sail tystiolaeth arolygu. Mae gennym safbwynt unigryw ac annibynnol ar safonau ac ansawdd ar draws pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae gwneud hyn yn cyfrannu at y polisïau ar addysg a hyfforddiant a gyflwynwyd ar hyd a lled Cymru.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith a'n dulliau gweithio, dilynwch y ddolen yma:

**www.estyn.llyw.cymru**

# Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a disgrifwyr barn a ddefnyddiwyd dros y cyfnod arolygu 2010-2017

Pan fuon ni'n arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru rhwng 2010-2017, defnyddiom ein Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant. Yn 2017-2018, defnyddiwyd y fframwaith hwn ar gyfer arolygiadau dau o'r tri choleg addysg bellach a phob arolygiad o leoliadau nas cynhelir i blant dan bump oed. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys tri chwestiwn allweddol a deg o ddangosyddion ansawdd, wedi'u trefnu fel a ganlyn:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

1.1 Safonau
1.2 Lles

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

2.1 Profiadau dysgu
2.2 Addysgu
2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad
2.4 Yr amgylchedd dysgu

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

3.1 Arweinyddiaeth
3.2 Gwella ansawdd
3.3 Gweithio mewn partneriaeth
3.4 Rheoli adnoddau

Rhoddon ni ddwy farn gyffredinol ar y perfformiad presennol ac ar y rhagolygon ar gyfer gwella.

Defnyddion ni'r raddfa bedwar pwynt sy'n dilyn i ddangos ein barnau arolygu.

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella'n gorbwyso'r cryfderau |

# Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r disgrifwyr barn ar gyfer y cylch arolygu o Fedi 2017

Bydd y fframwaith yn berthnasol ar gyfer arolygu sefydliadau addysg bellach o 2018.

Mae'r fframwaith hwn yn cwmpasu pum maes arolygu a 15 o ofynion adrodd.

**1 – Safonau**
1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Safonau a chynnydd mewn medrau

**2 – Lles ac agweddau at ddysgu**
2.1 Lles
2.2 Agweddau at ddysgu

**3 – Addysgu a phrofiadau dysgu**
3.1 Ansawdd yr addysgu
3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

**4 – Gofal, cymorth ac arweiniad**
4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu
4.2 Datblygiad personol
4.3 Diogelu

**5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**
5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
5.2 Prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
5.3 Dysgu proffesiynol
5.4 Defnyddio adnoddau

## Y Fframwaith Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol

**1 – Deilliannau**
1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Lles ac agweddau at ddysgu

**2 – Ansawdd Gwasanaethau Addysg**
2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion
2.2 Cymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed
2.3 Gwasanaethau cymorth addysg eraill

**3 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**
3.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
3.2 Hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
3.3 Dysgu proffesiynol
3.4 Trefniadau diogelu
3.5 Defnyddio adnoddau

Rydyn ni'n defnyddio'r raddfa bedwar pwynt sy'n dilyn i ddangos ein barnau arolygu:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol, ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

# Gweithgarwch dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr.

Gall hyn amrywio o nodi arfer ragorol i argymell mesurau arbennig. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ac i ba sectorau maent yn berthnasol.

| | Ysgolion a gynhelir | Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | Awdurdodau lleol | Lleoliadau nas cynhelir | Ôl-16 | Hyfforddiant cychwynnol i athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfer ragorol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Monitro neu adolygu gan Estyn | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwelliant â ffocws | | | | ✓ | | |
| Gwelliant sylweddol | ✓ | ✓ | | | | |
| Mesurau arbennig | ✓ | ✓ | | | | |
| Ailarolygiad | | | | | ✓ | ✓ |
| Yn peri pryder sylweddol | | | ✓ | | | |
| Monitro gan yr awdurdod lleol | | | | ✓ | | |

**Atodiad 1**

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| **Arfer ragorol** | Os yw darparwr yn cael unrhyw farnau rhagorol, bydd yn cael ei wahodd i ysgrifennu astudiaeth achos i'w rhannu gyda darparwyr eraill. Gellir cyhoeddi'r astudiaeth achos ar wefan Estyn. |
| **Monitro gan Estyn** | Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Os oes angen ymweliad monitro, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. O fis Medi 2017, defnyddiwyd y categori hwn ar gyfer arolygiadau o leoliadau nas cynhelir i blant dan 5 oed yn unig. |
| **Adolygu gan Estyn** | Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Bydd pob ysgol yn y categori hwn yn cael adolygiad desg. Cynhelir yr adolygiad yn Hydref/Tachwedd, ar ôl i ddata CA4 dros dro gael ei gyhoeddi. O ganlyniad i'r adolygiad desg, bydd ysgolion sy'n dangos tystiolaeth glir o gynnydd yn cael eu tynnu o'r categori hwn. Bydd ysgolion nad ydynt wedi dangos tystiolaeth glir o gynnydd naill ai'n aros yn y categori Adolygu gan Estyn am 12 mis arall, neu byddant yn cael ymweliad monitro ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd honno. |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| **Gwelliant â ffocws** | Os nodir bod angen gwelliant â ffocws ar leoliad nas cynhelir, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ei bryderon. Rhaid i bwyllgor rheoli / perchennog y lleoliad anfon eu cynlluniau gweithredu i Estyn i'w cymeradwyo. Bydd arolygydd Estyn yn ymweld â'r lleoliad bob tymor am hyd at dri thymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os nad yw'r lleoliad yn gwneud digon o gynnydd, bydd Estyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol i awgrymu bod cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o'r lleoliad gan nad yw'n darparu addysg o safon dderbyniol. |
| **Angen gwelliant sylweddol** | Bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod y darparwr wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os yw cynnydd yn annigonol, bydd y tîm yn ystyried p'un a oes angen mesurau arbennig ar y darparwr. |
| **Mesurau arbennig** | Os nodir bod angen mesurau arbennig ar ddarparwr, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ei fod wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr bob tymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae'r darparwr wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad. Bydd Estyn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro nes bod y Prif Arolygydd yn penderfynu bod y darparwr wedi gwella ddigon i'w dynnu o'r categori mesurau arbennig. |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| **Adolygu gan Estyn: ôl-16** | Os nodir bod angen adolygu neu fonitro gan Estyn ar ddarparwr ôl-16 neu hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn yn ddiweddarach. Os bydd arolygwyr yn barnu y bu cynnydd annigonol, gallai hyn arwain at ail-arolygiad llawn. Ar ôl monitro gan Estyn, os bydd arolygwyr o'r farn y gwnaed cynnydd digonol, caiff llythyr ei gyhoeddi ar wefan Estyn. |
| **Ailarolygiad** | Os nodir bod angen ailarolygiad llawn ar ddarparwr hyfforddiant ôl-16 neu ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr at y darparwr, gyda chopi i'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), ac, yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC), yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn cynnal ailarolygiad llawn o'r darparwr ymhen blwyddyn i 18 mis. Ar ôl yr ailarolygiad, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad llawn yn arfarnu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr. Os yw'r tîm yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud ar ddiwedd ailarolygiad, adroddir am hyn wrth yr AdAS, ac wrth CCAUC yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, fel rhan o'u gweithdrefnau rheoli contract. |
| **Yn peri pryder sylweddol** | Bydd y lefel hon o weithgarwch yn ofynnol pan fydd arolygwyr yn barnu bod angen gweithgarwch dilynol ar wasanaethau addysg llywodraeth leol. Tua thri mis ar ôl yr arolygiad, byddwn yn cadeirio cynhadledd wella gydag uwch arweinwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Tua blwyddyn ar ôl y gynhadledd wella ôl-arolygiad, bydd Estyn yn hwyluso cynhadledd cynnydd. Byddwn yn ystyried pa mor debygol ydyw y gellid tynnu'r awdurdod o'r categori gweithgarwch dilynol ymhen blwyddyn. Os ydym o'r farn bod yr awdurdod yn debygol o allu dangos digon o gynnydd i'w dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol, byddwn yn cynllunio ymweliad monitro. Fodd bynnag, os yw Estyn o'r farn y bydd angen mwy o amser ar yr awdurdod, byddwn yn hwyluso ail gynhadledd cynnydd ymhen blwyddyn. |

## Esboniad o’r geiriau a’r ymadroddion a ddefnyddiir i ddisgrifio’n harfarniadau

Y geiriau a’r ymadroddion yng ngholofn chwith y tabl canlynol yw’r rheini rydyn ni’n eu defnyddio i ddisgrifio’n harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn dde yw’r esboniadau mwy manwl gywir.

| | |
|---|---|
| bron pob un | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| llawer | 70% neu fwy |
| mwyafrif | dros 60% |
| hanner neu tua hanner | agos at 50% |
| lleiafrif | islaw 40% |
| ychydig | islaw 20% |
| ychydig iawn | llai na 10% |

# Nodiadau am y data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn

Mae'r data rydyn ni'n eu dangos mewn siartiau neu'n eu trafod yn nhestun yr adroddiad hwn yn dod o gronfa ddata deilliannau arolygu Estyn yn bennaf. Lle bo'n briodol, rydyn ni'n nodi yn yr adroddiad o ba ffynonellau eraill mae data wedi dod, ac mae'n deillio'n bennaf o ddata a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru. Mae'r ffigurau yn y siartiau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Oherwydd hynny, mae'n bosibl na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100%.

Wrth ddadansoddi deilliannau arolygu, mae'n bwysig nodi y gall fod anawsterau wrth gymharu tueddiadau mewn deilliannau rhwng blynyddoedd. Bob blwyddyn, byddwn yn arolygu cyfran o ddarparwyr ym mhob sector. Er enghraifft, yn ystod 2017-2018, arolygom 200 (16%) o ysgolion cynradd a 27 (14%) o ysgolion uwchradd.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod angen cymryd cryn ofal wrth gymharu deilliannau arolygu, a data arall, rhwng sectorau ac o fewn sectorau pan fydd nifer y darparwyr yn fach.

Cyhoeddom ein deilliannau arolygu ar gyfer 2017-2018 fel ystadegau swyddogol. Cafodd yr ystadegau eu datgan ymlaen llaw a'u cyhoeddi ar wefan Estyn, ac fe'u paratowyd yn unol ag egwyddorion a phrotocolau'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae ein gwefan ddata ryngweithiol yn rhoi crynodebau o'n deilliannau arolygu ac ymatebion i holiaduron gan ddisgyblion a rhieni. Gall defnyddwyr weithredu hidlwyr i addasu eu golygon data a lawrlwytho'r canlyniadau. Mae'r wefan yn cynnwys data ar gyfer arolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2010 a 31 Awst 2018.

I gael mwy o wybodaeth am yr adroddiadau arolygu ar gyfer darparwyr unigol, ewch i: **estyn.llyw.cymru/arolygu/chwilio**

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

# Cyfeiriadau

Colegau Cymru (2018) Dod o hyd i Goleg. [Ar-lein]. Ar gael o: http://collegeswales.ac.uk/cytundeblleol.php?ContentID=16 [Defnyddiwyd 21 Medi 2018]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003) *Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2003/3234/schedule/paragraph/3/made/welsh [Defnyddiwyd 14 Medi 2018]

Estyn (2016) *Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru 2015-16*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Adult%20Community%20Learning%20in%20Wales%20cy.pdf [Defnyddiwyd 14 Medi 2018]

Estyn (2017a) *Dysgu gweithredol a thrwy brofiad – Arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen wrth gyflwyno llythrennedd a rhifedd ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Estyn%20Active%20and%20experiential%20learning_W_Accessible_0.pdf [Defnyddiwyd 12 Hydref 2018]

Estyn (2017b) *Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion – crynodeb a phapur trafod*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cymorth-chydweithio-rhwng-ysgolion-%E2%80%93-crynodeb-phapur-trafod [Defnyddiwyd 12 Hydref 2018]

Estyn (2018a) *Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cymraeg-yng-nghyfnod-allweddol-2-chyfnod-allweddol-3-mewn-ysgolion-cyfrwng [Defnyddiwyd 12 Hydref 2018]

Estyn (2018b) *Gwella addysgu*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/gwella-addysgu [Defnyddiwyd 12 Hydref 2018]

Estyn (2018c) *Cynnwys rhieni - Cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni plant oedran ysgol*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cynnwys-rhieni-cyfathrebu-rhwng-ysgolion-rhieni-plant-oedran-ysgol [Defnyddiwyd 12 Hydref 2018]

Estyn (2018d) *Sut orau i herio a meithrin disgyblion mwy abl a thalentog*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cefnogi-disgyblion-mwy-abl-thalentog-sut-orau-i-herio-meithrin-disgyblion-mwy [Defnyddiwyd 12 Hydref 2018]

Estyn (2018e) *Cyrsiau safon uwch mewn dosbarthiadau chwech a cholegau addysg bellach*. Caerdydd. Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cyrsiau-safon-uwch-mewn-dosbarthiadau-chweched-cholegau-addysg-bellach [Defnyddiwyd 12 Tachwedd 2018]

Estyn (2018f) *Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr sy'n agored i niwed*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/effaith-y-mesur-dysgu-sgiliau-ar-ddysgwyr-sy%E2%80%99n-agored-i-niwed [Defnyddiwyd 12 Hydref 2018]

Estyn (2018g) *Symudiadau rheoledig: Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/symudiadau-rheoledig-defnydd-effeithiol-o-symudiadau-rheoledig-gan-awdurdodau [Defnyddiwyd 12 Hydref 2018]

Estyn (2018h) *Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/gwasanaethau-cymorth-ieuenctid-yng-nghymru [Defnyddiwyd 12 Hydref 2018]

Estyn (2018i) *Prentisiaethau uwch mewn dysgu yn y gwaith*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/prentisiaethau-uwch-mewn-dysgu-yn-y-gwaith [Defnyddiwyd 12 Hydref 2018]

Estyn (2018j) *Y continwwm dysgu proffesiynol: mentora mewn addysg gychwynnol athrawon*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/y-continwwm-dysgu-proffesiynol-mentora-mewn-addysg-gychwynnol-athrawon [Defnyddiwyd 15 Hydref 2018]

Estyn (2018k) *Ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â thimau troseddau ieuenctid*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/ansawdd-addysg-hyfforddiant-ar-gyfer-pobl-ifanc-sy%E2%80%99n-gysylltiedig-%C3%A2-thimau [Defnyddiwyd 15 Hydref 2018]

Llywodraeth Cymru (2017) *Canlyniadau Arholiadau yng Nghymru, 2016/17*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/statistics/2017/171206-examination-results-2016-17-cy.pdf [Defnyddiwyd 14 Medi 2018]

Llywodraeth Cymru (2018a) *Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion, 2018*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/statistics/2018/180725-school-census-results-2018-cy.pdf [Defnyddiwyd 14 Medi 2018]

Llywodraeth Cymru (2018b) *Consistent performance measures for post-16 learning: achievement and value added, 2016/17 (experimental statistics)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/statistics/2018/180920-consistent-performance-measures-post-16-learning-achievement-value-added-2016-17-en.pdf [Defnyddiwyd 12 Hydref 2018]

Llywodraeth Cymru (2018c) *Cronfeydd wrth gefn ysgolion yng Nghymru, ar 31 Mawrth 2018.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/statistics-and-research/reserves-held schools/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 17 Hydref 2018]

Llywodraeth Cymru (2018d) *Disgyblion sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), 2017/18*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/statistics/2018/180725-pupils-educated-other-than-at-school-2017-18-cy.pdf [Defnyddiwyd 21 Medi 2018]

Llywodraeth Cymru (2018e) *Further Education, Work-based Learning and Community Learning in Wales, 2016/17*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/statistics/2018/180207-further-education-work-based-learning-community-learning-2016-17-en.pdf [Defnyddiwyd 24 Medi 2018]

Llywodraeth Cymru (2018f) *Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru, 2016/17*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/statistics/2018/180510-initial-teacher-education-2016-17-cy.pdf [Defnyddiwyd 14 Medi 2018]

Llywodraeth Cymru (2018g) *Adroddiad Blynyddol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol 01.08.2017 - 31.07.2018*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://learnwelsh.cymru/media/3303/final-nclw-annual-report-2017-18_web.pdf [Defnyddiwyd 24 Medi 2018]

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

Estyn